

Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mawrth 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**

Twitter: **@SeneddPPIA**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Adolygiad Strategol o'r Sector Gofal yn Sir y Fflint

Rhagyr 2017

Cynnwys

Tudalen

1	Cyflwyniad	3
	1.1 Poblogaeth Pobl Hŷn Sir y Fflint	5
	1.2 Pwysau Ariannu	8
2	Ffactorau sy'n Effeithio Darparwyr Gofal	9
3	Cefnogaeth i Ddarparwyr Lleol	15
4	Ffrydiau Gwaith Rhanbarthol	15
5	Agwedd yn Seiliedig ar y Gymuned	17
6	Agweddau Cyfredol yn y maes lechyd	20
7	Meysydd i'w Hystyried	22
	7.1 Asiantau Cymunedol a Chysylltiadau	22
	7.2 Mentrau gofal bychan	24
	7.3 Ymgyrch Marchnata a Recriwtio	26
	7.4 Rhannu Bywydau	27
	7.5 Rhannu Cartref	28
	7.6 Cefnogaeth i Ofalwyr Di-dâl	30
	7.7 Budd-daliadau a chefnogaeth staff	31
	7.8 Meithrinfeydd mewn Cartrefi Gofal	32
	7.9 Consortiwm Prynu	35
	7.10 Cymdeithasau Gofal	36
	7.11 Technolegau	37
	7.12 Pobl Hŷn fel Rhan o'r Gweithlu	39
	7.13 Cludiant	40
	7.14 Tai	42
	7.15 Cydweithredfeydd a Modelau Busnes Amgen	43
	7.16 Cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol	44
	7.17 Cynhyrchu Incwm	44
	7.18 Ailalluogi	46
	7.19 Aseswyr Dibynadwy	46
	7.20 Taliadau Uniongyrchol	47
	7.21 Cymhorthwyr Personol	48
	7.22 Gofal Canolradd	49
8	Argymhellion	51
	8.1 Sylw Ar Unwaith	51
	8.2 Sylw Tymor Canolig	52
	8.3 Sylw Tymor Hir	52

Cyfeiriadau

1. Cyflwyniad

Caiff Gwasanaethau Cymdeithasol eu darparu o fewn cyd-destun gofynion demograffeg, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n newid yn gyflym ac mae'r adran angen ymateb i'r gofynion hynny, parhau i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr o fewn cyllideb gytunedig ar yr un pryd, ac alinio arferion i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae llawer o'n darparwyr allanol (gofal yn y cartref, cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl sy'n cefnogi pobl hŷn a phobl â dementia) yn wynebu pwysau mawr ac yn bryderus am gynnaladwyedd eu busnesau.

Er mwyn cefnogi'r sector lleol, cytunodd Cyngor Sir y Fflint i ariannu swydd 12 mis yn edrych ar y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar natur fregus y sector gofal yn Sir y Fflint mewn manylder a datblygu cynllun rhaglen yn unol â meysydd blaenoriaeth i weithio arnynt i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn. Bydd y prosiect hefyd yn cefnogi'r ddadl wleidyddol yn Sir y Fflint mewn perthynas â natur fregus y sector a'n helpu ni i fynd i'r afael â rhai o'r materion taer y mae darparwyr a chomisiynwyr yn eu codi. Mae'r adroddiad hwn yn ganlyniad i'r gwaith hwnnw.

Mae'r gwaith wedi'i oruchwylio gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys darparwyr o'r sector, swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr Trydydd Sector, y mae eu gwybodaeth a phrofiad wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu a gweithredu rhai o'r ffrydiau gwaith. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'r sector ehangach trwy gyfarfodydd darparwyr.

Soniwyd yn aml am rai o'r materion sy'n effeithio'r sector, ond bydd trosolwg cryno o bob un wedi'u cynnwys yma i roi'r cyd-destun. Mae sawl dogfen ddefnyddiol ar gael, sydd wedi'u hadolygu ochr yn ochr â'r gwaith hwn ac efallai y cyfeirir atynt mewn penodau eraill. Mae rhai ffynonellau gwybodaeth rhanbarthol a chenedlaethol defnyddiol wedi'u hamlinellu isod.

Ffynonellau Gwybodaeth Defnyddiol – Adroddiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru (2017)

Mae'r adroddiad hwn yn asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cefnogi gofalwyr. Mae wedi'i gynhyrchu gan y chwe Chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddiwallu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Nod yr adroddiad yw gwella ein dealltwriaeth o'n poblogaeth a sut y gall newid dros y blynyddoedd i ddod i'n galluogi i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Wrth baratoi'r adroddiad gwnaethom edrych ar ystadegau, siarad gyda'n cymunedau a defnyddio ystod eang o wybodaeth a gasglwyd gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau.

<http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Social-Services/Population-assessment/NW-Population-Assessment-1-April-2017.pdf>

‘Uwchben a Thu Hwnt’ – Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref yng Nghymru (2016)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r adolygiad cenedlaethol o ofal a ddarperir i oedolion yn eu cartrefi (gofal yn y cartref) a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) rhwng Awst 2015 a Mawrth 2016.

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/161027aboveandbeyondcy.pdf>

Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth yn y cartref

Adolygiad Llenyddiaeth (SCIE, 2016) – Mae'r ddogfen hon yn darparu manylder o 'lenyddiaeth ymchwil, polisïau ac ymarfer' i grynhoi'r 'themâu o amgylch gweithlu gofal yn y cartref, gofal yn seiliedig ar y person ac yn seiliedig ar berthnasau, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gwasanaethau arbenigol, gofal integredig, comisiynu a nodweddion y farchnad gofal yn y cartref'. Paratowyd y ddogfen hon i gefnogi'r cynllun strategol 5 mlynedd ar gyfer Gofal a Chefnogaeth yn y Cartref 2017-2022 https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Care-and-support-at-home-in-Wales-Literature-review.pdf

Gofal a chefnogaeth yn y cartref yng Nghymru – cynllun strategol pum mlynedd 2017-2022 (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017)

Mae'r cynllun yn ystyried ystod eang o dystiolaeth gan gynnwys adolygiadau, adroddiadau ac ymchwil. Mae'n rhoi llais cryf i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gofalywyr sydd angen cefnogaeth a'r gweithlu.

<https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/care-and-support-at-home-in-wales-a-summary-of-the-five-year-strategic-plan-2017-2022-1>

Ffactorau sy'n effeithio recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn y cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal yn y cartref (Atkinson et al, 2016).

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru wedi comisiynu'r ymchwil hwn gyda'r nod cyffredinol o archwilio'r ffactorau sy'n effeithio recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn y cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal yn y cartref.

Mae canfyddiadau'r ymchwil wedi cyfrannu at ymgynghoriad cyhoeddus ar ymyriadau polisi i wella ansawdd gofal yn y cartref trwy gael effaith cadarnhaol ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn y cartref.

<http://gov.wales/statistics-and-research/factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers/?skip=1&lang=cy>

Y Farchnad Gofal Cartref yng Nghymru: Mapio'r Sector (Moultrie a Rattle, 2015) IPC

Trosolwg o'r farchnad cartref gofal ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a barn am ei chynnaladwyedd i'r dyfodol. Mae'r prosiect wedi cynnwys dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol.

<https://sites.cardiff.ac.uk/ppiw/files/2015/11/The-Care-Home-Market-in-Wales-mapping-the-sector.pdf>

Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Adroddiad Interim (Llywodraeth Cymru, 2017)

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd Cabinet lechyd, Lles a Chwaraeon, gyda chefnogaeth trawsbleidiol, adolygiad annibynnol i

ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan banel rhyngwladol o arbenigwyr. Mae'r adroddiad dros dro yn nodi'r achos dros newid a'r canfyddiadau gwreiddiol. Bydd yr adroddiad terfynol a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Cabinet erbyn diwedd 2017.

Heneiddio yn y DU rŵan: Ciplwg o'r ymchwil gyfredol (Beth Johnson Foundation, 2017)

Y nod cyffredinol ar gyfer yr adolygiad oedd rhoi cefnogaeth ymchwil i ddatblygu strategaeth y Beth Johnston Foundation. I geisio cyflawni'r amcanion hyn, cynhyrchwyd ymarfer cwmpasu, yn amlinellu'r meysydd presennol allweddol o ymchwil sy'n berthnasol i sector y DU sy'n heneiddio, a mapio'r rhain yn erbyn y rhaglenni gwleidyddol ehangach mewn cymdeithas. Mae'r adroddiad crynodeb terfynol hwn yn nodi'r meysydd lle gall sefydliadau yn y maes henoed gael effaith sylweddol, a deall lle y gellir canolbwyntio cynlluniau i'r dyfodol.

Ond, un o'r egwyddorion allweddol y tu ôl i'r gwaith hwn yw na fydd ateb a ddatblygwyd ar gyfer un darparwr neu gymuned yn addas i un arall. Mae'n rhaid i ni ystyried agweddau aml haen i'r gwaith hwn a chanolbwyntio ar egwyddorion cydgynhyrchu i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn y dyfodol yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r sector, budd-ddeiliaid allweddol a dinasyddion.

“Yn lle datblygu 1 ateb y gallech eu defnyddio 100,000 o weithiau, datblygwch 100,000 o atebion y gallech eu defnyddio unwaith’.
Anhysbys

1.1 Poblogaeth Pobl Hŷn Sir y Fflint

Tyfodd poblogaeth pobl hŷn yng Nghymru cymaint â 77,176 o bobl rhwng 2009-10 - 16 a ffurfiodd 20.2% o'i boblogaeth yng nghanol 2015. Mae adroddiad 2016 OECD (Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd) yn cadarnhau er bod pwysau cyflyrau cronig a chymhleth sy'n gysylltiedig a disgwyliad oed uwch yn cynyddu ledled y DU, mae'n uwch yng Nghymru nag ydyw yn Lloegr.

Mae dangosydd allweddol arall, lefelau tlodi (sy'n gysylltiedig â salwch), hefyd yn uwch yng Nghymru na gwledydd eraill y DU. Ar ragamcanion poblogaeth cyfredol, byddai angen i Gymru fod yn gwario o leiaf £129 miliwn ychwanegol erbyn 2020-21 (ar brisiau 2016-17) i ddod â'r gwariant y pen ar wasanaethau cymdeithasol Awdurdod Lleol i rai dros 65 oed yn ôl i lefelau 2009-10 (Luchinskaya, 2017).

Rhagwelir y bydd poblogaeth hŷn Sir y Fflint (+80) yn cynyddu 23% erbyn 2020, a rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu 22% yn ystod yr un cyfnod (Cyngor Sir y Fflint, 2016). Mae adroddiad Tueddiadau Llywodraeth Cymru i'r dyfodol (2017) yn rhagfynegi os bydd y cyfraddau presennol yn parhau, y bydd cynnydd mewn dioddefwyr dementia ledled Cymru. Erbyn 2025, gall fod '50,000 o bobl 65 oed a hŷn yn byw gyda dementia yng Nghymru, gyda bron i chwarter ohonynt yn 90 oed neu'n hŷn'. Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru (2017) yn nodi o'r data sydd ar gael, bod y nifer o bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru rhwng 4,600 a 11,000 ac y rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn codi gyda tua 3,700 o bobl yn byw gyda dementia yn Sir y Fflint yn unig erbyn 2030.


Tabl 1: Nifer o bobl dros 65 oed, rhagamcanion poblogaeth 2014 i 2039

	2014	2019	2024	2029	2034	2039
Ynys Môn	17,000	18,000	20,000	21,000	22,000	23,000
Gwynedd	27,000	29,000	31,000	33,000	35,000	35,000
Conwy	30,000	33,000	35,000	38,000	41,000	42,000
Sir Ddinbych	22,000	23,000	25,000	27,000	29,000	30,000
Sir y Fflint	30,000	34,000	37,000	40,000	44,000	46,000
Wrecsam	25,000	28,000	30,000	33,000	36,000	39,000
Gogledd Cymru	150,000	170,000	180,000	190,000	210,000	210,000

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn union gywir

Ffynhonnell: Rhagamcanion seiliedig ar 2014, Llywodraeth Cymru yn Aseiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru (2017)

Ffigur 1:



Ffynhonnell: Cyngor Sir y Fflint, 2016

Cyn archwilio'r materion a wynebir gan ddarparwyr gofal, mae'n bwysig treulio amser yn edrych ar y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles a beth y mae pobl hŷn yn deimlo sy'n bwysig iddyn nhw wrth iddynt heneiddio.

Os byddwn yn edrych mewn ffordd ataliol fel rhan o'r gwaith hwn, ni ddylem gyfyngu ein hunain trwy edrych am atebion yn y sector gofal cymdeithasol yn unig, ac edrych ar yr ystod ehangach o adnoddau a phartneriaid sydd ar gael. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddir ystyriaeth i sut y gallwn weithio gydag eraill i ddiwallu anghenion newidiol ein poblogaeth sy'n heneiddio, y gweithlu a darparwyr lleol.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu Cynllun Lleol ar gyfer Heneiddio'n Dda. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn dechrau amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud yn Sir y Fflint

dros y pum mlynedd nesaf yn erbyn pob un o'r pum maes blaenoriaeth cenedlaethol, sef:

- Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed
- Atal codymau
- Cymunedau Cefnogol i Dementia
- Cyfleoedd ar gyfer Dysgu a Chyflogaeth
- Unigrwydd ac unigedd

Mae unigrwydd ac unigedd yn cyflwyno her sylweddol i bobl wrth iddynt heneiddio. Mae Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, (NWPNA, 2017) yn nodi bod 'rhwydweithiau cymdeithasol cryf o deulu a ffrindiau a synnwyr o berthyn i'r gymuned leol yn bwysig er mwyn lleihau unigrwydd ac unigedd cymdeithasol i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalmwr sydd angen cefnogaeth'.

Mae ymchwil yn awgrymu bod unigedd ac unigrwydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd meddyliol a chorfforol pobl yn ein cymunedau, ac mae wedi'i gymharu ag ysmegu 15 sigarét y dydd (Holt-Lunstad, 2015 trwy'r Ymgyrch i roi Terfyn ar Unigrwydd). Trwy sefydlu mesurau i fynd i'r afael â'r mater hwn, efallai y gellir lleihau'r angen am wasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae'r asedau sydd ar gael yng nghymuned y person yr un mor bwysig ar gyfer cynnal iechyd a lles â'r gofal a gawsant gartref neu mewn gofal preswyl. Trwy ymgynghori mewn cymunedau lleol a chasglu gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Heneiddio yn Dda, nododd y bobl hŷn sy'n mynychu Grwpiau Gweithredu 50+ nifer o ffactorau a fyddai'n cyfrannu at gymuned 'cyfeillgar i oed'. Mynegodd pobl hŷn bryder ynglŷn â mynediad i gludiant a gweithgareddau cymdeithasol ochr yn ochr â themlo yn ddiogel yn eu cymuned.

"Mae mynd allan yn bwysig, fel arall gallwch deimlo yn unig".

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwmo i gefnogi pobl gyda dementia. Mewn partneriaeth â NEWCIS, mae'r Cyngor yn cyflogi swyddog i arwain wrth ddatblygu Cymunedau Ystyriol o Ddementia, prosiectau rhyng-genhedlaeth, Caffis Cof, ymchwil a rhaglenni gyda'r nod o gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.



Mae'r gwaith partneriaeth llwyddiannus wedi creu:

- 9 Caffi Cof
- Cymuned sy'n Ystyriol o Dementia. (Yr Wyddgrug, Bwcle, Fflint)
- 4 Grwpiau llywio yn barod ar gyfer y camau nesaf
- 44 o fusnesau a sefydliadau Ystyriol o Dementia a rhagor ar y ffordd
- 7 Ysgol sy'n Ystyriol o Dementia a 2 yn rhagor ar y ffordd
- 16 Cartref Gofal yn cydweithio

1.2. Pwysau Ariannu

Yn Sir y Fflint, cyfanswm ffigurau cyllideb y portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016/17 yw:-

Cyllideb Net	£60,551m
Cyllideb incwm	£13.782m
Cyllideb gwariant gros	£74.333m

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n cynrychioli cyngorau wedi galw ar Lywodraeth Cymru i 'gydnabod a mynd i'r afael â'r pwysau ariannu uniongyrchol sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol' (CLILC, 2016) a buddsoddi mwy yn y gwasanaethau ataliol gan fod 'cynladwyedd y GIG wedi cydblethu â chynladwyedd gwasanaethau cyhoeddus eraill, ac yn fwyaf hanfodol, gofal cymdeithasol'.

Os byddai costau yng Nghymru yn codi yn unol â'r rhagamcanion ar gyfer Lloegr, byddai cynnydd mewn gwariant Llywodraeth Leol net ar ofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn o tua 55 y cant erbyn 2025, gyda chynnydd mawr pellach yn y pum mlynedd hyd at 2030 gan ddod â'r cyfanswm cynnydd i 101 y cant. Byddai cynnydd mewn gwariant net awdurdod leol o £510 miliwn yn 2010-11 i tua £794 miliwn yn 2025 (Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025, 2016).

Yn 2016/17, y cyfanswm gwariant net ar ofal yn y cartref a brynwyd i bobl hŷn oedd £6,051,176 a oedd yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

Taliad i ddarparwyr gofal allanol	£5,202,484
Taliadau uniongyrchol	£1,154,960
Incwm*	<u>(£306,268)</u>
Cyfanswm:	£6,051,176

Yn 2016/17, y cyfanswm gwariant net ar ofal preswyl a gofal nyrsio a brynwyd i bobl hŷn oedd £5,747,368 a wnaed o'r elfennau a ganlyn:

Taliadau Gofal Preswyl	£5,257,863
Taliadau Gofal Nyrsio	£2,572,198
Incwm**	<u>(£2,082,693)</u>
Cyfanswm:	£5,747,368

*Mae'r incwm yn cynnwys cymysgedd o gyfraniadau gan BIPBC, cyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth, ac adennill gordaliadau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol. Mae hefyd ad-daliad

o £53,053 i BIPBC mewn perthynas â'u cyfaniad i'n costau o gefnogi defnyddwyr gwasanaeth gyda dementia cynnar.

** Mae'r incwm yn talu am £500k o ICF tuag at gost gofal preswyl, £535k o Ofal Nyrsio am Ddim gan PBC, £25k PBC CHC, £141k Cyfraniadau Cleient, £859k Incwm Eiddo.

Mae rhai atebion arloesol wedi'u hawgrymu. Mae Gerald Holtham, Athro Economeg Rhanbarthol, wedi ysgrifennu papur yn cyflwyno achos i'r cyhoedd yng Nghymru gyfrannu tuag at eu gofal henoed trwy ardoll (Holtham, 2017). Mae'r awdur yn cyfarfod gyda Mark Drakeford yn Llywodraeth Cymru i drafod y cynnig, ond bydd cyflwyno unrhyw gynnig o'r math hwn yn broses hir a chymhleth.

Mewn digwyddiad Cronfa'r Brenin diweddar, amlinellodd Geoff Huggins, Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol o Lywodraeth Cymru hefyd bod £250m o'u cyllideb £400m ar gyfer iechyd yn cael ei wario ar wasanaethau gofal cymdeithasol. Yr Alban sy'n gwario fwyaf fesul person ar ofal cymdeithasol o'r pedair gwlad yn y DU. Gellir dysgu gwersi pellach o'r agwedd hon.

2. Ffactorau sy'n Effeithio Darparwyr Gofal

Rhwng Mehefin a Medi 2017, cynigiodd Osterley Associates ddiagnosteg busnes i ddarparwyr ar draws y sector preswyl a nyrsio a oedd yn seiliedig yn Sir y Fflint ar ran y Cyngor. Mae Osterly Associates yn ymgynghoriaeth annibynnol a sefydlwyd yn 2014 i roi cefnogaeth cynaladwyedd busnes i fusnesau a budd-ddeiliaid yn y gymuned. Mae'n arbenigo mewn gweithio gyda busnesau bach a chanolig mewn grwpiau a sectorau sy'n ddiameddiffyn i newid gwleidyddol neu'n wynebu heriau sydd y tu hwnt i fodelu busnes arferol. Yn aml mae busnesau yn y grwpiau hyn yn fychan ac yn cael eu rhedeg gan deuluoedd ac felly nid ydynt yn cael cefnogaeth prif ffrwd.

Cyfwelwyd perchnogion a rheolwyr o 18 o gartrefi gan ymgynghorwyr busnes profiadol a chwblhawyd adolygiad diagnostig. Gwrthododd 2 gartref y cynnig ac nid oedd gan 4 amser ar gyfer cyfweliad yn y graddfeydd amser.

Cynlluniwyd y dull diagnostig o gynnal y cyfweliadau i strwythuro'r cyfweliad ond galluogi sgwrs bersonol i sicrhau y darperir ar gyfer amgylchiadau unigol. (Osterly Associates, 2017).

Canfyddiadau Cryno y Diagnosteg Busnes

Disgrifiad cyffredinol o'r busnes

Roedd y cartrefi gofal sy'n eiddo i'r grŵp yn gallu darparu graddau amrywiol o gefnogaeth cefn tŷ ac roedd nifer o dasgau gweinyddol yn cael eu gwneud yn ganolog. Roedd hyn yn galluogi'r rheolwr cofrestredig i ganolbwyntio mwy ar ddarparu gofal na phoeni am hyfywdra'r busnes o ddydd i ddydd.

Mae cartrefi annibynnol bychan yn fwy dibynnol ar allu'r rheolwr cofrestredig ac roedd y pwysau o ran amser a llwyth gwaith yn fwy amlwg yn y cartrefi hyn.

Sylfaen cleientiaid/cleifion

Archwiliwyd y ffactorau sy'n gwahaniaethu rhwng cleifion preifat a chleifion Awdurdod Lleol (ALI) ac ni nodwyd unrhyw wahaniaethu wrth werthuso cleifion. Oherwydd y pwysau ariannol, mae llawer o'r cartrefi rŵan yn gofyn am ffioedd ychwanegol gan gleifion a noddwyd gan yr ALI. Edrychodd ymgynghorwyr busnes ar y gofal a dulliau arloesol a fabwysiadwyd gan y cartrefi i ofalu am y cleifion. Roedd lefel y gweithgareddau gyda'r cleifion yn uchel, roedd y cymhorthwyr gofal wedi ymgysylltu gyda'r cleifion, a'r cyfathrebu rhwng y rheolwyr a staff yn ymddangos yn bositif.

Staff

Mae argaeledd cludiant lleol yn cael effaith ar rai o'r cartrefi ac roedd y rhai ar lwybrau bysiau da yn fwy tebygol o fedru staffio'u cartrefi na'r rhai oddi ar y prif lwybr bysiau. Roedd yr holl gartrefi a gyfwelwyd yn talu'r cyflog byw neu uwch i'w staff ond yn cydnabod y byddai hyn yn anodd yn y dyfodol wrth i gyflogau gynyddu'n uwch na ffrydiau incwm. Roedd gan gartrefi sy'n eiddo i grŵp wasanaethau AD canolog ar gael iddynt ac roedd gan sawl un o'r cartrefi teuluol gytundeb gydag asiantaethau AD allanol fel Peninsula i reoli eu materion AD.

Mae cyfraddau salwch ac absenoldeb yn uchel o gymharu â'r diwydiannau eraill ond derbynnir hyn fel un o elfennau negyddol y sector. Yr achos mwyaf cyffredin o absenoldeb yw salwch a dolur rhydd. Effaith hyn yw'r angen tymor byr i staffio a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r holl gartrefi yn gweithredu polisïau salwch statudol.

Pan ofynnwyd yn uniongyrchol am yr anawsterau wrth recriwtio staff, roedd amrywiaeth yn yr atebion. Nododd sawl cartref y dylid gwneud mwy i wella delwedd y sector ac yn aml bod gweithwyr posibl yn anymwybodol o natur y gwaith ac yn amharod ar ei gyfer. Daeth yr amrywiad mewn atebion pan nododd rhai cartrefi eu bod yn cael anhawster dod o hyd i ymgeiswyr addas a nododd eraill bod ganddynt restrau aros. Roedd eraill yn awgrymu bod y GIG yn "dwyn" yr aelodau staff profiadol ac roedd sawl cartref yn falch o'r ffaith bod y mwyafrif o'u staff wedi cael eu cyflogi ganddynt ers sawl blwyddyn. Daethpwyd i'r casgliad bod y gwahaniaeth yn debygol o gael ei effeithio gan faint y cartref a'r modd y rheolir y cartref hwnnw. Y ffaith yw bod angen denu pobl newydd i'r sector a bydd cynnydd yn y cyflog byw yn ychwanegu at y pwysau ariannol yn y dyfodol.

Hyfforddiant

Roedd yr holl gartrefi yr ymwelwyd â nhw yn falch iawn o'u cofnod hyfforddi ac yn cydnabod gwerth talebau hyfforddi Cyngor Sir y Fflint. Mae gan gartrefi sy'n eiddo i grŵp eu rhaglenni hyfforddi eu hunain ac yn aml yn defnyddio darparwyr hyfforddi allanol. Maent yn cydnabod gwerth datblygiad gyrfa a nodwyd bod y polisi hwn yn aml yn cynorthwyo gyda chyfraddau cadw staff. Roedd cartrefi teuluol bychan yn teimlo bod yr elfen gost yn fwy o anfantais ond roeddent dal yn cydnabod yr angen. Roedd parodrwydd i reolwyr ehangu eu sgiliau rheoli ond nodwyd bod amser i hyfforddi yn rwystr mawr wrth beidio symud ymlaen.

Adeiladau

Mae nifer o'r cartrefi yn dai masnachwyr Fictoraidd neu'n dai gwledig ac roedd sawl un wedi ehangu'r adeilad yn ddiweddar. Roedd nifer yn hen ac anodd eu haddasu. Nid yw sawl un o'r hen adeiladau yn effeithlon o ran ynni ac mae'r gallu i

ddiwallu'r safonau gofal newydd yn dechrau cael effaith. Roedd gan un cartref a gyfwelwyd bryder gwirioneddol am y rhagolwg o orfod dadgomisiynu 4 ystafell a fyddai'n gostwng eu incwm £100,000 y flwyddyn. Siaradodd eraill am y gost o wresogi'r adeiladau gyda un enghraifft o fil olew misol o £1,400. Mae busnesau eraill wedi defnyddio cymaint o'r gwagle y tu allan â phosibl, gan gyfyngu ar dwf i'r dyfodol. Mae cartrefi sydd wedi'u lleoli mewn ardal drefol yn dueddol o gael eu cyfyngu ar gyfer ehangu yn y dyfodol ac yn y sampl a edrychwyd arno, roedd capasiti bychan iawn ar gyfer twf newydd. Ond, mae gan gartrefi yn ardal wledig Sir y Fflint lefydd rhagorol yn yr awyr agored ond maent yn llai cyfleus i gael mynediad iddynt.

Gwerthu a Marchnata

Pan ofynnwyd "Beth yw'r ffigwr ar gyfer y nifer cleifion yn y cartref i wneud y busnes yn hyfyw?" Ni allai unrhyw gartref ateb hyn. Ond, roeddent yn hollol ymwybodol a oeddent yn colli arian neu beidio. Roedd bron bob cartref yn llawn ac roedd gan sawl un restrau aros ar gyfer ystafelloedd. Roedd hyn yn negydu'r angen i hysbysebu'r cartrefi i ddenu ymwelwyr.

Rheoli Asedau

Mae grant diweddar gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer prynu asedau wedi cael effaith sylweddol ar y sector ac wedi'i groesawu yn gyffredinol gan bob cartref. Mae derbyniad cyffredinol bod safon dda o asedau yn rhan bwysig o ddarparu gwasanaeth o ansawdd a nododd bob cartref eu bod yn adolygu a diweddarau'r asedau yn rheolaidd. Sylw cyffredin ymysg pob un o'r cartrefi oedd y dymuniad i sefydlu llyfrgell asedau lle gellir caffael offer drud i'w brynu sydd ond yn cael ei ddefnyddio weithiau, a chynllun rhentu ar gyfer offer mawr.

Amgylcheddol ac Ynni. Nodwyd cost cyfleustodau fel problem ac roedd gwahaniaeth amlwg rhwng cartrefi sy'n eiddo i grŵp neu rai a reolir yn breifat. Mae gan gartrefi sy'n eiddo i grŵp bolisi cyfleustodau canolog ac nid yw'r penderfyniadau prynu yn cael eu gwneud gan y rheolwr cofrestredig, ond mae'r cartrefi a reolir yn breifat yn ymwybodol iawn o'r goblygiadau cost. Costau gwresogi oedd y pryder mwyaf ac roedd arwyddion bod sawl un o'r busnesau yn aneffeithlon iawn. Awgrymodd sawl cartref y byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn prosiect caffael ar y cyd i roi pŵer prynu cryfach iddynt. Gwerth polisi Gwastraff cadarn yw maes sy'n dod yn fwy testunol a nododd y rhan fwyaf o gartrefi pe byddem yn gallu darparu mwy o gefnogaeth yn y maes hwn, y byddai croeso iddo.

Cyllid

Mae pob un o'r cartrefi yn nodi bod hyfywdra ariannol y busnes yn mynd yn fwy heriol. Mae'r rhan fwyaf o'r cartrefi angen arian yn ychwanegol at ffioedd yr ALI ac maent angen cyfran o gleifion preifat i oroesi. Bydd effaith y safonau gofal newydd yn ychwanegu at gostau yn y tymor byr ond y bygythiad mwyaf i'r sector fydd cost cyflogi staff addas. Mae'r cynnydd yn y cyflog byw, lleihad cyffredinol mewn cyfraddau diweithdra, cynnydd mewn cyflogaeth, ac effaith anhysbys Brexit yn awgrymu y bydd y gronfa o ymgeiswyr yn lleihau. Mae ffiniau elw yn dynn a bydd unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog a chynnydd mewn argostau eraill fel cyfraddau busnes, costau tanwydd a chostau bwyd yn cael effaith ar gynnaladwyedd tymor hir y sector.

Cydymffurfio

Mae'r safonau gofal newydd yn flaenllaw i gynllunio ar gyfer yr holl gartrefi. Mae gan bob cartref eu hanghenion eu hunain i fynd i'r afael â nhw mewn perthynas â chydymffurfio, ond maent wedi derbyn mai bwriad y safon gofal yw "gwella safonau", ac maent wedi blaenoriaethu'r materion hyn.

Twf

Mae llawer o'r cartrefi wedi cynyddu eu capasiti yn ddiweddar neu yn bwriadu cynyddu eu capasiti. Mae cyfle cyfyngedig i rai o'r cartrefi yr ymwelwyd â nhw ehangu oherwydd y gwagle allanol cyfyngedig ac mae un cartref ar werth, felly nid oes cynlluniau i ehangu. Nododd sawl cartref preifat y byddant yn barod i gyfarfod ymgynghorydd twf yn y dyfodol.

Mae'r adborth a gafwyd wedi canolbwyntio yn bennaf ar recriwtio a chadw yn y sector a phrynu nwyddau traul, cyfleustodau, offer a gwasanaethau gwastraff.

Nodir mai problemau recriwtio a chadw yw'r problemau mwyaf sylweddol sy'n effeithio ar y sector yn lleol. Ond, mae darparwyr wedi nodi nad yw pobl yn y gweithlu o reidrydd yn gadael y sector, ond yn symud o gwmpas oddi mewn i'r sector, a phan fyddant yn gadael, byddant yn symud i waith mewn swyddi gofalu eraill fel yn y GIG. Ein her yw cynyddu nifer y bobl sy'n mynd i'r sector.

Mae anawsterau yma. Mae cydweithwyr yn y Ganolfan Byd Gwaith wedi nodi nad ydynt yn gweld llawer sy'n chwilio am waith yn y sector, a bod y rhai sydd wedi mynegi diddordeb yn chwilio am oriau '9-5', sydd ddim yn cyd-fynd â phatrymau gwaith mewn gofal. Mae cymorth darparwyr hefyd wedi'i ddileu yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys arian prentisiaethau ar gyfer pobl dros 25 oed sy'n arwain at anhawster mewn staff yn cyflawni'r cymwysterau perthnasol neu staff yn gorfod talu'r ffioedd eu hunain gan arwain at ddarparwyr yn cael anhawster diwallu'r gofynion presennol bod 50% o staff yn gymwys i QCF lefel 2, oni bai eu bod yn cefnogi trwy ariannu'r hyfforddiant eu hunain.

Disgwylir newidiadau pellach sy'n effeithio recriwtio a chadw yn y sector trwy weithredu rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'r Strategaeth Gweithlu Gofal ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru yn amlinellu bod arolygon wedi dangos yn 2016 bod 38% o weithwyr gofal yn y cartref a 36% o'r gweithwyr gofal preswyl yn anghymwys. Mae hyn yn nifer sylweddol o weithwyr fydd angen hyfforddiant er mwyn diwallu'r gofynion cofrestru newydd, gyda goblygiadau adnoddau cynyddol ar gyfer y sector. Mae pryderon wedi'u codi am nifer yr aseswyr sydd ar gael i diwallu'r galw cynyddol, a all gael goblygiadau ar allu'r darparwr i gydymffurfio â rheoliadau.

Mae adolygiad o sector Gofal Preswyl Sir y Fflint (2016) yn amlinellu'r heriau a rhai dewisiadau posibl wrth i ni symud ymlaen, ond yn tynnu sylw at nifer o faterion strategol a fyddai'n 'rhwystro ymdrechion gan unrhyw awdurdod lleol i gryfhau eu

marchnad gofal preswyl'. Bydd angen cydlynid a gweithredu cenedlaethol i leihau effaith y ffactorau hyn, sy'n cynnwys:

1. Effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gynladwyedd darparwyr gofal annibynnol.
2. Y diffyg adnoddau ariannol honedig sydd ar gael i wella cyflwr cartrefi gofal annibynnol, ac apêl gostyngol ar gyfer buddsoddwyr newydd posibl i'r sector.
3. Cyfraddau cadw a recriwtio staff, gyda llwybr gyrfa aneglur ac amodau swydd nad ydynt yn ddeniadol, yn benodol rheolwyr cofrestredig.
4. Pryder cenedlaethol am gartrefi nyrsio sy'n perfformio yn wael.
5. Galw cynyddol am wasanaethau gyda chyllidebau sy'n lleihau.
6. Brexit

Ar lefel lleol, mae Sir y Fflint wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr ac eraill i gefnogi darparwyr lleol a thrawsnewid comisiynu a darpariaeth gofal. Mae Sir y Fflint yn mewnosod "Creu Lle o'r enw Cartref – Darparu'r hyn sy'n Bwysig" i ddarparu'r 'profiad gorau y gallwn ei ddychmygu ar gyfer person hŷn sy'n byw mewn cartref gofal yn Sir y Fflint. Gan ddefnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar y person, rydym eisiau galluogi pobl i wneud dewisiadau a bod â mwy o reolaeth dros sut y byddant yn byw eu bywydau' (Cyngor Sir y Fflint, 2017).

Fel rhan o hyn, mae Sir y Fflint wedi datblygu'r Rhaglen 'Cynnydd i Ddarparwyr' mewn Cartrefi Gofal. Mae hwn yn ddull hunanasesu i reolwyr ei ddefnyddio gyda'u staff i wirio sut y maent yn gwneud o ran darparu cymorth personol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, teilwra cefnogaeth i'r unigolyn a'u galluogi i fod â chymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl dros eu gwasanaeth a'u bywyd. Mae defnyddio agweddau a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu staff i roi'r gefnogaeth orau y gallant mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Bydd achrediad Efydd, Arian ac Aur yn helpu rheolwyr i wirio eu cynnydd eu hunain dros gyfnod o amser a dangos yn gyhoeddus eu bod yn dal i wneud cynnydd ar hyd y ffordd i gynnig gofal sydd wir yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd y rhai sydd wedi cyflawni'r achrediad yn cael eu rhestru ar wefan Cyngor Sir y Fflint.



Mae materion eraill yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r gweithlu mewn cartrefi. Mae prinder staff nyrsio yn creu problem ledled y DU (Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, 2015). Yn 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y rheoliadau Cam 2 ar gyfer Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Cymru 2016. O fewn hwn, amlinellwyd cynnig na fyddai angen gofal nyrsio 24 awr bellach ar y safle cyn belled y gellir profi bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion yr unigolyn. Gall hyn effeithio ar leoliadau sydd ag angen isel am ofal nyrsio, gan y gallant edrych ar sut y gallant ddiwallu'r anghenion hyn mewn modd hyblyg. Ond, ar gyfer cartrefi lle mae angen lefelau uchel o ofal nyrsio, mae'r broblem yn dal i fodoli.

Mae llawer wedi'i ysgrifennu am y materion yn ymwneud â recriwtio a dethol yn y gweithlu Gofal yn y Cartref. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil ar y 'Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a dethol gweithwyr gofal yn y cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal yn y cartref' (Atkinson et al, 2016). Ceisiodd yr ymchwil, a gynhaliwyd gan Brifysgol Metropolitan Manceinion, ganfod ffactorau sy'n dylanwadu ar bobl yn dewis 'gweithio a pharhau i weithio fel gweithwyr gofal yn y cartref'.

Mae tua 15,000 o staff gofal yn y cartref yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal wedi'u comisiynu yng Nghymru (Cyngor Gofal Cymru, 2015). Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i'r Gweithlu Gofal yn y Cartref (2016) yn argymhell bod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael eu cydnabod fel y gweithwyr proffesiynol yr ydynt. Mae'n rhaid herio delwedd negyddol y sector i annog pobl i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r ffactorau allweddol a nodwyd gan yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

- Cyflogau isel
- Pwysau gwaith
- Oriau anghymdeithasol
- Telerau ac amodau gwael
- Contractau 'oriau sero' neu 'oriau ansicr' yn atal pobl rhag ymuno â'r sector, gan nad oedd oriau sicr
- Rhai amseroedd galwad yn annigonol i fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn
- Diffyg hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa
- Yn cael ei weld fel swydd statws isel o'i gymharu â gofal iechyd

Cynhaliwyd ymgynghoriad Cam 2 ar y rheoliadau drafft ar gyfer Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ystod yr haf 2017. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyfyngu ar ddefnyddio contractau oriau ansicr; darlunio amser gofal ac amser teithio; ac ymestyn cofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru o Weithwyr Gofal Cymdeithasol gan gynnwys gweithwyr cefnogi gofal yn y cartref. Gwnaeth yr ymgynghoriad gweithlu hefyd wahodd budd-ddeiliaid i archwilio atebion i'r diffyg cyfredol o reolwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Galluogodd digwyddiad a gynhaliwyd gan y Cyngor ym mis Awst gyda darparwyr Gofal yn y Cartref iddynt drafod yr elfennau hyn a'u cyfrannu at ymateb y Cyngor. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y ffioedd sydd eu hangen ar gyfer cofrestru a gofynion cymhwyster gan Gofal Cymdeithasol Cymru trwy 'Trawsnewid Gofal yn y 21ain Ganrif'.

Cododd yr adborth a gafwyd nifer o feysydd pryder, sydd wedi'u hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y gofynion ychwanegol ar gyfer cofrestru, talu'r ffi cofrestru a'r angen i weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni lefel benodol o gymwysterau. Mae'r rhain i gyd yn cael effaith negyddol ar y sector sydd eisoes yn cael anhawster recriwtio a chadw staff. Yn ogystal â hyn, gall cael y cymwysterau sydd eu hangen i gofrestru atal staff hyn, a all adael bwlch o staff da, profiadol. Mae hyn wedi arwain at ofnau gan rai darparwyr y bydd ansawdd y gofal mewn perygl.

Gan symud ymlaen, mae'n rhaid i ni ystyried cyfradd cyflym y newid yn y sector ar lefel genedlaethol a lleol. Ochr yn ochr â'r newidiadau mewn deddfwriaeth, bydd Gogledd Cymru yn symud tuag at fframwaith rhanbarthol ar gyfer comisiynu gofal yn y cartref. Manylir ar hyn yn adran 4.

3 Cefnogaeth ar gyfer Darparwyr Lleol

Dros y blynyddoedd, mae Sir y Fflint wedi bod yn gweithio i ddatblygu perthnasau cryf gyda'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i breswylwyr Sir y Fflint. Mae'r Cyngor yn cefnogi darparwyr mewn nifer o ffyrdd.

- Cyfarfodydd Darparwyr Rheolaidd, sy'n agored i'r holl ddarparwyr gofal yn Sir y Fflint, sy'n cynnwys diweddariadau, adborth cynrychiolwyr Fforwm Gofal, gweithdai a rhannu gwybodaeth. Mae'r digwyddiadau hyn yn werthfawr ac yn galluogi cyfathrebu dwy ffordd rhwng y darparwr a'r Awdurdod Lleol. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu ymateb wedi'i gydlynw at ymgynghoriadau cenedlaethol. Yna, gall yr Awdurdod Lleol gyflwyno ymatebion sy'n cynnwys llais y sector lleol ochr yn ochr â'n llais ni ein hunain.
- Bydd gwybodaeth yn cael ei dosbarthu yn rheolaidd i ddarparwyr dros e-bost.
- Mae hyfforddiant ar gael trwy Dîm Datblygu Gweithlu'r Cyngor ac mae nifer o ddarparwyr yn mynychu'r Cyfarfod Strategaeth Gweithlu.
- Mae Darparwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni achrediad trwy'r Rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu templed i ddarparwyr lunio 'Pecyn Croeso' i breswylwyr newydd. Mae'r pecyn, sydd wedi'i deilwra i bob cartref, yn amlinellu gwybodaeth am hawliau, staff, yr hyn sydd ar gael yn lleol ac arferion sy'n canolbwyntio ar y person.
- Mae'r Tîm Monitro Contractau yn darparu cefnogaeth i leoliadau a all fod yn wynebu anawsterau neu sydd angen gwella.
- Trwy waith dementia'r Cyngor, mae gweithgareddau am ddim yn cael eu darparu i gartrefi gofal trwy 'prynu un, cael un am ddim' fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Ystyriol o Ddementia, wedi'i gydlynw trwy grŵp Facebook preifat.
- Bydd darparwyr yn cael cynnig cefnogaeth gyda Diwrnod Agored Cartrefi Gofal Cenedlaethol.
- Darparodd Cyngor Sir y Fflint becynnau offer sy'n cynnwys teclynnau codi, matres, cadair, comôd, teclyn codi bath, clorian ac offer arall i bob cartref gofal yn 2017.
- Mae cynllun talebau hyfforddiant y Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) yn rhoi mynediad i staff gofal cymdeithasol y sector annibynnol a gwirfoddol i hyfforddiant gorfodol neu craidd o nifer fechan o ddarparwyr hyfforddiant lleol a gymeradwywyd.

4 Ffrydiau Gwaith Rhanbarthol

Ochr yn ochr â'r gwaith a wnaed ar lefel leol i gefnogi darparwyr, mae'n bwysig ystyried a chefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud yn rhanbarthol.

Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru – mae strategaeth ddrafft wedi'i datblygu a chynhaliwyd digwyddiad ar 21/02/17 i bartneriaid edrych ar y meysydd blaenoriaeth. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o ganlyniad cyn rhannu'r fersiwn nesaf.

- Sefydlogi'r gweithlu
- Dysgu a datblygu
- Gwybodaeth a chynllunio gweithlu
- Newidiadau yn y modd rydym yn darparu gwasanaethau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn y broses o sefydlu fframwaith sy'n canolbwyntio ar recriwtio, cadw a gyrfaedd yn Gofal Cymdeithasol Cymru.

Fforwm Gwerth Cymdeithasol – sefydlwyd grŵp llywio i gefnogi datblygu sefydliadau dim er elw i ddiwallu'r ddyletswydd a roddwyd ar Awdurdodau Lleol dan Rhan 2, adran 16 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gwneud y gorau o werth cymdeithasol a chydgyhyrchu wrth i ddarparwyr gyflawni gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae'r grŵp yn edrych ar sut y gellir mesur gwerth cymdeithasol a datblygiad Fforymau Gwerth Cymdeithasol ar lefel lleol. Yn lleol, mae Cyngor Sir y Fflint yn datblygu Strategaeth Buddion Cymunedol a rhestr o 'Fuddion Cymunedol' economaidd, amgylcheddol, iechyd a chymdeithasol, sy'n cefnogi lleihad yn y galw ar wasanaethau cyhoeddus.

Fframwaith Gofal yn y Cartref Gogledd Cymru – bydd y modd y mae gofal yn y cartref a chefnogaeth yn cael ei gomisiynu yn newid yn sylweddol trwy gyflwyno'r Fframwaith. Bydd y prosiect hwn yn gwerthuso ansawdd darparwyr gofal yn y cartref cofrestredig (neu gwmnïau sydd wedi cyflwyno cais i gofrestru) gan ddefnyddio meini prawf MEAT (tendr mwyaf manteisiol yn economaidd – o ran pris, ansawdd a gwerth cymdeithasol). Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cytundeb i ddarparu gwasanaethau gofal yn y cartref yng Ngogledd Cymru a byddant yn cael eu trefnu yn ôl sgôr cyffredinol. Yn sylfaenol, bydd hyn yn symud comisiynu i ffwrdd o dasgau ac amser i ddull sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau.

Gobeithir y bydd gwaith a llwyddiant yn y gwaith Cynnydd i Ddarparwyr yn cael ei ailadrodd yn y sector gofal yn y cartref gan y bydd elfennau o'r rhaglen yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith.

Yn barod ar gyfer y newid, mae swyddogion wedi bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarparwyr dros e-bost ac mewn digwyddiadau darparwr chwarterol. Mae swyddogion hefyd wedi'u cysylltu â Busnes Cymru a fydd yn gallu rhoi cefnogaeth annibynnol i ddarparwyr i gael mynediad i'r Porth Proactis a chefnogi'r broses.

Y graddfeydd amser a ragwelir ar gyfer y prosiect 3 cham yw'r canlynol (gall newid):

- Tendr gofal yn y cartref safonol o fis Awst – fis Hydref 2017, gan ddyfarnu yn fuan yn 2018 a dechrau ym mis Ebrill 2018


- Tendr gofal yn y cartref uwch o lonawr – Mawrth 2018, gyda dyfarniad a dyddiad dechrau yn haf 2018
- Tendr Byw â Chymorth o fis Medi – fis Tachwedd 2018, gyda dyfarniad a dyddiad dechrau yn fuan yn 2019

Mae digwyddiad 'cyfarfod y prynwyr' pellach wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2017.

5 Agweddau Seiliedig ar y Gymuned

Mae agwedd cymunedol yn chwarae rhan allweddol wrth gadw pobl yn byw yn annibynnol am yn hirach, a all leihau, oedi neu atal yr angen am ofal cymdeithasol ffurfiol. Gall nifer o bartneriaid ddarparu'r rhain, gan gynnwys y Trydydd Sector, y sector preifat a'r Awdurdod Lleol. Mae'r agweddau hyn yn rhoi pobl yn ganolbwynt i'r gwaith, ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a'r gymuned.

Ffigur 2: Model Cymunedau Gwydn – wedi'i gefnogi gan bob sector.



Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn gweithredu 'Fframwaith Cymunedau Gwydn Ysbrydoledig'. Mae lefelau gwydnwch uchel yn galluogi cymunedau i ffynnu ac yn cefnogi unigolion i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn arwain at leihad yn y galw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r fframwaith yn cydnabod bod gwaith cymunedol yn hanfodol os yw cymunedau yn dymuno ymgysylltu a chael eu grymuso i ddatrys y problemau y maent yn eu hwynebu ac mae'n rhaid i unrhyw ddull gael ei 'gyd-gynllunio gyda chymunedau a phartneriaid, ac mae'n rhaid iddo ddatblygu ac addasu yn seiliedig ar y canlyniadau a dysg' (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint (2017)).

Engbreiffiau Lleol o Agweddau Cymunedol:

Camau Cadarn – Mae'r Groes Goch Brydeinig a'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol hefyd yn darparu prosiect o'r enw Camau Cadarn. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi pobl 50+ oed sy'n unig neu angen cefnogaeth i gael mynediad i adnoddau

yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth ailalluogi dwys, a chefnogaeth tymor hir wedi'i arwain gan wirfoddolwyr.

Asiantau Cymunedol – Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi comisiynu Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam i gydlynu eu Hasiantau Cymunedol. Mae'r Asiantau Cymunedol wedi'u rheoli gan y Cynghorau Cymuned. Gall Asiantau Cymunedol ddefnyddio gwasanaethau trydydd sector ledled y sir i gefnogi pobl yn eu cymuned.

Llywiwr Cymunedol – mae Llyw-wyr Cymunedol hefyd yn gweithredu yn Sir Ddinbych trwy'r Groes Goch. Mae Llyw-wyr yn cael eu cyflogi i fynychu 'Pwyntiau Siarad' ledled y sir i roi cyfle i ddinasyddion gyfarfod rhywun sy'n gwybod beth sydd ar gael yn y gymuned. Erbyn 1 Mawrth 2017, rhoddodd y tîm wybod bod 369 o ddinasyddion wedi'u hatal rhag cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed - Mae'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud a gan bwy er mwyn gwneud Sir y Fflint yn lle da i bawb heneiddio ynddo.

Sied i Ddynion – Mae'r Men's Sheds Association cenedlaethol yn cynnig lle i ddynion lle gallant rannu'r offer a'r adnoddau y maent eu hangen i weithio ar brosiectau o'u dewis eu hunain, dan eu pwysau eu hunain ac mewn lleoliad diogel, cyfeillgar a chynhwysol. Maent yn llefydd lle gellir rhannu sgiliau a dysg anffurfiol, gorchwyl unigol a phrosiectau cymunedol o bwrrpas, llwyddiant a rhyngweithio cymdeithasol. Mae sied dynion lleol yn gweithredu yn Sir Ddinbych.

Rhagnodi cymdeithasol – Rhwng Hydref 2015 a Gorffennaf 2016 roedd prosiect Rhagnodi Cymdeithasol yn waith ar y cyd rhwng Meddygfa Clarence House, Cymunedau yn Gyntaf (Grŵp Cydweithredu) a'r Groes Goch Brydeinig. Gofynnwyd i'r Groes Goch Brydeinig gynnal prosiect arbrofol a all gefnogi unigolion i ddod o hyd i atebion i'w pryderon sy'n gymunedol ac yn fwy perthnasol i'w hanghenion. Cafodd y rhai a gyfeiriwyd gefnogaeth trwy ymweliadau a galwadau ffôn i gael mynediad neu gael eu cyfeirio at ystod eang o sefydliadau yn y gymuned.

Mae prosiect tymor byr i sefydlu tystiolaeth o gydsyniad ar gyfer rhagnodi cymdeithasol hefyd yn cael ei gynnal gan FLVC ar ran y Bwrdd Iechyd.

Gwasanaethau Cyfeillio – Mae Gwasanaeth Cyfeillio Ffôn Gofal y Groes Goch Gogledd Cymru yn ceisio lliniaru unigedd ac arwahanrwydd ac annog rhyngweithio cymdeithasol a lles emosiynol. Mae gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yn ffonio'r defnyddiwr gwasanaeth bob wythnos am sgwrs gyfeillgar, i gynnig cwmnïaeth, cefnogaeth a chlust i wrando. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd yr un person yn galw ar amser a gytunwyd, gan wella hyder dros gyfnod o 8 i 12 wythnos. Mae'r gymdeithas Alzheimers hefyd yn darparu cwmnïaeth i bobl â dementia a'u gofalwyr sy'n eu cefnogi i barhau â hobiau a gwneud gweithgareddau rheolaidd. Mae FDF hefyd yn gweithio i ddarparu cynllun cyfeillio gwirfoddol i bobl ag anabledau.

Gwasanaethau Seibiant – Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn cynnig ‘Gofal Gwalia’ sy’n gwneud gwaith y gofalwr fel y gallant gael seibiant. Gellir gwneud hyn yn rheolaidd neu’n achlysurol a chodir tâl amdano.

Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru (ACNEW) – Mae ACNEW yn rhan o’r rhaglenni Age Connects Cymru cenedlaethol, menter gymdeithasol sy’n darparu cefnogaeth i bobl 50+ oed. Yn lleol, mae’r gwasanaethau yn darparu cefnogaeth tymor byr yn ymwneud â thai, torri ewinedd, gwasanaeth glanhau a siopa a gweithgareddau cymdeithasol.

Addysg a Dysgu – mae llawer o brosiectau lleol yn cyfeirio pobl at yr University of the Third Age (U3A). Mae U3A yn rhoi cyfleoedd i bobl wedi ymddeol ac wedi rhannol ymddeol i ddod ynghyd a dysgu, nid i gael cymwysterau, ond am y pleser a’r profiad.

Pwynt Mynediad Sengl (SPoA) – mae SPoA yn fenter amlasiantaeth yn Sir y Fflint sy’n rhoi cefnogaeth i oedolion. Trwy ffonio un rhif yn unig, gall unigolyn siarad â rhywun am wasanaethau iechyd, llesiant a gofal cymunedol. Bydd hawl i wybodaeth, cyngor, cymorth, asesiad a gofal wedi’i gydlynu ar gael. Mae’r SPoA hefyd yn cefnogi cydlynedd a all gynghori a chyfeirio at sefydliadau yn y Trydydd Sector.

DEWIS – mae Dewis Cymru yn wefan sy’n ceisio helpu pobl gyda llesiant, dim ots ai eu llesiant eu hunain neu lesiant aelod o’r teulu neu ffrind.

Mae’r wefan yn cynnwys gwybodaeth a all helpu pobl i feddwl am yr hyn sy’n bwysig iddyn nhw ac mae gwybodaeth am wasanaethau y gellir eu defnyddio i gael cefnogaeth. Gall sefydliadau ledled Cymru lwytho eu gwybodaeth eu hunain i’r safle.



Mae Sir y Fflint yn manteisio o bresenoldeb a rhwydweithiau trydydd sector cryf a pherthynas gref rhwng y Cyngor a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC). Mae’r Tîm Llesiant yn FLVC a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yn cefnogi’r trydydd sector a phartneriaid statudol mewn nifer o ffyrdd:

- Hyrwyddo sefydliadau trydydd sector, gwasanaethau a gweithgareddau i bartneriaid statudol
- Cynrychioli’r trydydd sector mewn grwpiau cynllunio strategol a phartneriaeth
- Cynnwys y trydydd sector mewn ymgynghoriadau ac ymgysylltu ynglŷn ag iechyd a gofal cymdeithasol
- Hyrwyddo gwaith partneriaeth yn y trydydd sector ac ar draws y sectorau
- Cyfeirio at neu ddarparu cefnogaeth busnes a chyllid
- Rhoi hyfforddiant i sefydliadau wella eu gallu ac effeithiolrwydd
- Esbonio cymhlethdodau comisiynu a chaffael
- Helpu i gadw gwasanaethau yn gyfredol gyda’r dystiolaeth ddiweddaraf, a’ch arwain trwy’r newidiadau yn y GIG a strwythurau awdurdod lleol.
- Helpu i ddechrau gwasanaethau neu grwpiau newydd

- Cefnogi'r trydydd sector yn Sir y Fflint a Wrecsam i gael mynediad i wasanaethau FLVC a Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam

Yn ddiweddar, mae'r tîm wedi ymgynghori gyda chydweithwyr ieched a'r trydydd sector ar ffyrdd o wella cyfathrebu rhwng y ddau, ac maent yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio yn rheolaidd, gyda'r olaf yn ymwneud â hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn annog agweddau newydd gan gynnwys cydweithredfeydd a mentrau cymdeithasol. Mae'r sefydliad Canolfan Cydweithredol Cymru a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn gallu rhoi cefnogaeth i wasanaethau sy'n symud i'r model hwn.

6 Agweddau Cyfredol yn y Maes Iechyd

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (GBCG)

Mae Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn agwedd a ddatblygwyd gan y GIG i annog newid ymddygiad yn gadarnhaol trwy'r miliynau o gysylltiadau y mae sefydliadau ac unigolion yn eu cael gyda phobl bob dydd. 'Mae GBCG yn galluogi darparu gwybodaeth gyson a chryno am ffordd iach o fyw ac yn galluogi unigolion i ymgysylltu mewn sgysiau am eu hiechyd ar raddfa ar draws sefydliadau a phoblogaethau' (GIG, 2016). Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn argymhell y dylid gweithredu a chynnwys y rhaglen GBCG (2017).

Gogledd Cymru Iach

Mae'r syniad ar gyfer Gogledd Cymru Iach wedi'i ddatblygu o'r rhaglen 'Well London' a oedd yn cynnwys gwaith datblygu cymunedol gyda ffocws ar ieched. Mae'r anghenion yn cael eu codi gan y gymuned ac yna bydd camau gweithredu yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhaglen yn edrych yn fwy cyfannol ar anghenion y gymuned ac yn lle canolbwyntio yn uniongyrchol ar anghenion ieched, gall edrych yn ehangach ar faterion eraill a fydd yn cael effaith ar ieched person, fel dyledion a thai.

Nod y prosiect yw cyflwyno rhaglen yn seiliedig ar le mewn ardaloedd difreintiedig iawn yng Ngogledd Cymru, gan weithio gydag asiantaethau a budd-ddeiliaid amrywiol, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r cymunedau lleol, i ddatblygu cynlluniau yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd gan y cymunedau eu hunain. Bydd pwyslais ar fapio'r newidiadau dros y blynyddoedd, datblygu rhagnodi cymdeithasol a bydd hyfforddiant yn cael ei roi i staff ar Ddatblygiad Cymunedau yn Seiliedig ar Asedau.

Mae cymunedau wedi'u dewis i gael cefnogaeth yng Ngogledd Cymru sydd ar gyrion ardaloedd sydd wedi cael llawer o fuddsoddiad dros y blynyddoedd gan Gymunedau yn Gyntaf a rhaglenni eraill, ond sydd ddim wedi cael yr un lefel o fuddsoddiad, ond yn dal i fod yn uchel ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.



Yr ardaloedd hyn yw:

- Llangefni
- Dinbych Uchaf
- Penycae

Mae Bwrdd wedi'i sefydlu yn ardal Shotton i ddatblygu clwb cymdeithasol cyn waith dur a'r tir cyfagos yn Ganolfan Iechyd a Lles, yn seiliedig ar angen y gymuned, lle gellir cydleoli gwasanaethu.

Parc Eirias

Mae'r Ganolfan Gofal Iechyd a Lles, yng Nghanolfan Hamdden Colwyn ym Mharc Eirias yn waith ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Undeb Rygbi Cymru. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol a hamdden yn cydweithio i wella iechyd pobl trwy ddefnyddio gweithgareddau corfforol i reoli cyflyrau afiechyd cronig a helpu i ailsefydlu o salwch llym neu gronig.

Gofal yn nes at Adref

Trwy'r Rhaglen 'Gofal yn Nes at Adref', mae'r GIG yn edrych ar ystod o ddewisiadau i foderneiddio gofal. Mae'r rhain yn cynnwys technolegau newydd, darparu gofal mewn lleoliadau cymunedol, a systemau i gyfeirio cleifion at y timau cywir i ddarparu gofal yn hytrach na thrwy'r Meddyg Teulu.

Timau Ymateb Cartref Gofal

Gyda'r agwedd hon, byddai ymarferwyr yn gweithio mewn tîm amlddisgyblaeth yn seiliedig mewn tîm ac yn darparu'r gofal cywir i unigolion mewn cartrefi gofal ar yr adeg cywir. Mae hyn yn bodloni gofynion Rhan 2, Adran 15, a Rhan 9, Adran 16 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, wrth ddarparu "ystod a lefel" o wasanaeth atal/ymyrraeth gynnar. (Cyngor Sir y Fflint, 2016). Mae BIPBC wrthi'n profi'r model gyda nifer dethol o gartrefi gofal yng ngorllewin y rhanbarth. Mae'r rhaglen yng nghamau cynnar iawn ei ddatblygiad.

Safleoedd Blaen y Gad yn Lloegr

Mae 50 o safleoedd blaen y gad wedi'u dewis ledled Lloegr i ddatblygu modelau gofal arloesol dan dri chategori. 'Mae systemau gofal sylfaenol a llym integredig yn cysylltu gwasanaethau Meddyg Teulu, ysbyty, cymunedol ac iechyd meddwl, ac mae darparwyr cymunedol aml arbenigedd yn symud gofal arbenigol allan o ysbytai ac i'r gymuned. Mae gwell iechyd mewn cartrefi gofal yn rhoi gwell gwasanaethau iechyd, gofal ac ailsefydlu i bobl hŷn' (GIG Lloegr, 2016).

Mae'r ddogfen 'Modelau Gofal Newydd: Blaen y Gad – datblygu glasbrint ar gyfer dyfodol y GIG a gwasanaethau Gofal' yn amlinellu'r rhaglen mewn mwy o fanylder, gydag enghreifftiau o ar draws y safleoedd, a dau ohonynt wedi'u hamlinellu isod. Gellir adolygu'r gwersi a ddysgwyd ochr yn ochr ag unrhyw waith lleol.

Cysylltu Gofal – Rhanbarth Wakefield

Mae timau gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal ymroddedig yn cael eu dyrannu i gefnogi cartrefi gofal a chynlluniau byw â chymorth wrth iddynt ddiogelu iechyd a lles eu preswylwyr.

Mae pob un o'r 15 cartref gofal a'r ddau gyfleuster byw â chymorth yn Wakefield sy'n cymryd rhan yn cael eu cysylltu â meddygfa meddyg teulu penodedig sy'n gweithio gyda thimau cymysg gan gynnwys nyrsys cymunedol, therapyddion, gofawyr gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu gwasanaeth hyblyg, effeithlon ac ymatebol sy'n ymateb i anghenion preswylwyr. Mae'r tîm yn ceisio osgoi salwch ymysg preswylwyr trwy weithredu cyn i bobl fynd yn sâl, gan leihau'r angen am ofal adweithiol ac arhosiad heb ei gynllunio mewn ysbyty.

Prosiect Cartref Gofal Gateshead

Mae mwy na 2,500 o bobl yn byw mewn cartrefi gofal preswyl a gofal nyrsio yn yr ardal. Mae'r rhaglen yn adeiladu ar yr ystod helaeth o wasanaethau i gydweithio i gefnogi pobl mewn cartrefi gofal, i wella profiad cleifion a lleihau arhosiad diangen mewn ysbyty. Mae hyn yn cynnwys 'mynd o amgylch' y Cartref Gofal. Mae cleifion mwy cymhleth sydd angen cynllun gofal a/neu benderfyniad arbenigol ar y cyd i reoli eu cyflwr yn treulio cyfartaledd o 4 wythnos ar lwyth achos 'ward rhithwir'. Bu eisoes lleihad o 14 y cant mewn arosiadau ysbyty diangen.

7 Meysydd i'w Hystyried

Mae'r adran hon yn archwilio camau gweithredu posibl eraill y gellir eu harchwilio yn y tymor canolig a'r tymor hir. Ym mhob ardal, bydd yr wybodaeth isod yn amlinellu:

- Cefndir
- Enghreifftiau
- Cais lleol posibl

7.1 Asiantau Cymunedol a Chysylltiadau

Mae Bolton et al (2017) yn disgrifio ystod o agweddau cymunedol a all helpu i ddarparu gwasanaethau i bobl mewn cymunedau mewn ffordd wahanol. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio mewn rhagor o fanylder, ac yn cynnwys:

- Cydlyniad Ardal Leol
- Cylchoedd Cymunedol
- Cydlyniad Ardal Leol
- Timau Llesiant

“Mae Cydlyniad Ardal Leol (LAC) yn agwedd arloesol at gefnogi pobl”... (a'u teuluoedd/gofawyr) i gyflawni eu gweledigaeth am fywyd da, i gefnogi pobl i fod yn rhan o'u cymunedau, a chyfrannu atynt, a chryfhau capasiti cymunedau i groesawu a chynnwys pobl” (Rhwydwaith Cydlynu Ardal Leol, 2015).

Mae ymchwil gan Brifysgol Abertawe (2017) wedi gwerthuso Cydlyniad Ardal Leol yn yr ardal, a nodi ei fod yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol sylweddol i bobl, cymunedau ac arian yn lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- buddion ariannol o £800k-£1.2m (cyfran cost o rhwng 2:1 a 3:1), yn seiliedig ar yr asesiadau mwyaf ceidwadol
- disgwylir iddynt gynyddu i rhwng 3:1 a 4:1 pan fyddant wedi'u cynnwys mewn cymunedau a phartneriaethau a sefydlwyd gyda gwasanaethau a phartneriaid.
- datblygu rhwydweithiau personol cryf a pharhaus ochr yn ochr ag unigolion/teuluoedd ac ar draws cymunedau, gyda'r cysylltiadau hyn yn cael eu cynnal heb ymglymiad Cydlyniad Ardal Leol parhaus – lleihau unigedd a gwella gwytnwch a rheolaeth lleol.
- cydlyniad Ardal Leol yn "ychwanegu gwerth ar draws ystod o bwysau gwasanaethau cyhoeddus"

Mae Community Agents Essex yn rwydwaith cenedlaethol o asiantau a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi pobl hŷn a gofalwyr anffurfiol i ddod o hyd i atebion byw'n annibynnol a'u datblygu oddi mewn i'w cymunedau lleol (2017). Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu trwy bartneriaeth cymunedol a gwirfoddol sy'n cynnwys Cyngor Cymuned Gwledig Essex, y Groes Goch Brydeinig, Age UK Essex ac Essex Neighbourhood Watch.

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, cefnogodd yr asiantau 3538 o bobl sydd â phroblemau byw'n annibynnol, rhoi gwybodaeth a chyngor i 2192 o bobl a 1186 o bobl â phroblemau symudedd (Community Agents Essex, 2017) ymysg eraill. Mae 73.1% o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cyflawni eu nodau hyder a byw'n annibynnol.

Yn lleol, mae Asiantau Cymunedol hefyd yn gweithio mewn Awdurdodau Lleol cyfagos. Nod Asiantau Cymunedol Wrecsam yw helpu rhai 50 oed a hŷn i gyflawni gwell ansawdd bywyd, trwy ddarparu gwell mynediad i ystod o wybodaeth 'a fydd yn eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am eu hanghenion yn y presennol a'r dyfodol' (CBSW, 2017).

Mae'r Asiantau wedi'u cyflogi gan Gynghorau Cymuned Lleol gydag arian gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW). Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yn ddiweddar wedi'u comisiynu i gydlynu'r prosiect a rhoi cefnogaeth i Asiantau.

Yn Sir Ddinbych, mae Llyw-wyr Cymunedol wedi'u cyflogi gan y Groes Goch Brydeinig i weithredu fel ffynhonnell 'gwybodaeth gyfredol a manwl gywir am ystod gynhwysfawr o gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned. Mae'r gefnogaeth a ddarperir yn grymuso a galluogi (lle bo'n bosibl) ac yn hyrwyddo annibyniaeth, hyder a sgiliau, a chefnogi datblygiad cynlluniau cymunedol' (Croes Goch Brydeinig (2017).

Mae'r llyw-wyr yn hygyrch mewn lleoliadau cymunedol (Pwyntiau Siarad) ar adegau penodol o'r wythnos. Mae'r prosiect yn nodi:

- Cafodd 369 dinesydd, neu 67% o bawb a aeth i Talking Point, wybodaeth, cyngor a/neu gymorth yn syth a helpodd i atal eu hanghenion rhag gwaethygu.

- Lleihad o 67% mewn rhestrau aros y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd bod dinasyddion yn ymweld â Pwyntiau Siarad ac yn cael gwybodaeth am wasanaethau ataliol i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol.

Yn y model Cylch Cymunedol neu Gylch Cefnogaeth mae hwylusydd yn dod â theulu, ffrindiau, aelodau cymunedol ac efallai staff gwasanaeth at ei gilydd i gefnogi unigolion i ddiwallu eu canlyniadau personol (Bolton et al, 2017). Mae'r hwylusydd yn cefnogi'r grŵp i ddatblygu eu sgysiau yn gamau gweithredu ymarferol.

'Mae Rhagnodi Cymdeithasol yn ddull o alluogi Meddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol rheng flaen eraill i atgyfeirio cleifion at weithiwr cyswllt – i roi sgwrs wyneb yn wyneb iddynt lle gallant ddysgu am y posibiladau a chynllunio eu hatebion personol eu hunain, h.y. 'cyd-gynhyrchu' eu 'rhagnodyn cymdeithasol' – fel bod pobl ag anghenion cymdeithasol, emosïynol neu ymarferol wedi'u grymuso i ddod o hyd i atebion a fydd yn gwella eu hiechyd a lles, yn aml gan ddefnyddio gwasanaethau a ddarparwyd gan y sector gwirfoddol a chymunedol' (Prifysgol Westminster, 2017).

Comisiynwyd FLVC yn 2017 i gyflawni prosiect 10 wythnos 'tystiolaeth o gydsyniad' gan edrych ar fanteision Rhagnodi Cymdeithasol' yn lleol. Mae dau o staff yn FLVC yn cael atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu sy'n nodi cleifion y maent yn teimlo all fanteisio o'r gwasanaeth. Gall Rhagnodion Cymdeithasol gyfarfod y person mewn slotiau 45 munud i drafod y materion a all gael effaith ar eu hiechyd a'u lles. Yna gall y staff atgyfeirio a chysylltu'r person ag asedau yn yn eu cymuned leol a all gyfrannu at well canlyniadau.

Mae angen yn bodoli i bobl fod wedi'u seilio yn y cymunedau a all weithredu fel pont rhwng aelodau'r gymuned a'r gwasanaethau sy'n gallu eu cefnogi.

Defnyddio yn lleol:

Gellir dewis elfennau o'r rhaglenni uchod i ddatblygu dull model cymysg at ddatblygu cymunedol. Bydd angen i'r rhaglen fod yn seiliedig ar egwyddorion cyd gynhyrchu i ddiwallu anghenion y cymunedau a nodwyd.

7.2 Mentrau Gofal Bychan

Mae mentrau gofal bychan (a elwir hefyd yn ficro ddarparwyr) yn sefydliadau bychan iawn sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cyflogi pump neu lai o staff (cyfwerth â llawn amser). Maent fel arfer yn annibynnol o unrhyw sefydliad mawr ac yn cael eu cynnig gan ystod o bobl a sefydliadau yn y gymuned, gan gynnwys pobl sy'n anabl neu sydd angen eu cefnogi eu hunain' (Needham et al, 2015).

Canfu ymchwil gan Needham et al rhwng 2013 a 2015 bod

1. Micro ddarparwyr yn cynnig cefnogaeth fwy personol na darparwyr mwy, yn enwedig ar gyfer gofal yn y cartref.
2. Mae micro fentrau yn darparu canlyniadau mwy gwerthfawr na darparwyr mawr, mewn perthynas â helpu pobl i wneud mwy o'r pethau y maent yn eu gwerthfawrogi a'u mwynhau.
3. Mae micro ddarparwyr yn well na darparwyr mawr am wneud rhai mathau o arloesi
4. Mae micro ddarparwyr yn cynnig gwell gwerth am arian na darparwyr mawr
5. Parhad staff

'Fel darparwr gofal bychan, mae'n ymwneud â gwneud gwasanaeth bychan yn dda'
(Gofal Cymunedol, 2013).

Wedi holi, hyd yma, mae wedi bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth am ddarparwyr gofal micro yn Sir y Fflint gan nad yw'r diffiniad yn cael ei ddefnyddio yn eang. Nid oes unrhyw wybodaeth am ddarparwyr micro ofal yn Sir y Fflint wedi'i restru ar-lein ar wefan 'y pethau da bychain', cyfeirlyfr o fentrau gofal bychan, nid oes gan AGGCC fanylion am yr wybodaeth, ac nid oes gan Cydweithredu i Ofalu a Busnes Cymru unrhyw gofnodion am weithio gyda sefydliadau sy'n cyd-fynd â'r diffiniad uchod.

Ond, mae gan Sir y Fflint nifer o Fentrau Cymdeithasol wedi'u cefnogi gan Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol.

'Fel busnesau traddodiadol, maent yn ceisio gwneud elw, ond yr hyn y maent yn ei wneud gyda'r elw sy'n eu gwahanu – ei ailfuddsoddi neu ei roddi i greu newid cymdeithasol cadarnhaol. Mae mentrau cymdeithasol yn bodoli yn bron bob sector o nwyddau defnyddwyr i ofal iechyd, ynni cymunedol i asiantaethau creadigol, bwytai i reoli cyfleusterau. Mae enghreifftiau adnabyddus yn cynnwys The Big Issue, Divine Chocolate a'r Eden Project ond mae dros 70,000 o fentrau cymdeithasol ledled y wlad yn cyfrannu £24 biliwn i'r economi a chyflogi bron i filiwn o bobl.'

Ffynhonnell: Mentrau Cymdeithasol y DU

Yn 2016/17, cefnogodd Swyddog Mentrau Cymdeithasol Sir y Fflint 7 o fusnesau newydd a 24 sefydliad i ffynnu. Mae gan y sefydliadau hyn gylch gwaith, ond mae enghreifftiau gofal cymdeithasol yn cynnwys:

Sefydlwyd rhaglen arbrofol yn Oldham a Kent yn 2008 gan (NAAPs) i brofi model busnes wedi'i gynllunio i gefnogi ac ysgogi datblygiad ystod o wasanaethau gofal micro a chefnogaeth. Cyflogwyd cydlynnydd llawn amser i gefnogi datblygiad mentrau micro ofal yn y gwasanaethau cymdeithasol oedolion. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae cynllun manwl wedi'i gynhyrchu i gefnogi Awdurdodau Lleol dan y teitl 'Cefnogi Datblygiad Microfarchnad: Canllaw Ymarferol Manwl i Awdurdodau Lleol (NAAPs, 2009).

Ym mis Ionawr 2011, lansiodd Cyngor Sir Dwyrain Sussex brosiect datblygu Micro Farchnad yn canolbwyntio ar oedolion gydag anghenion gofal cymdeithasol a chefnogaeth, ac yn seiliedig ar y dysg o'r cynllun arbrofol NAAPS. Nod y prosiect yw gweithio gyda darparwyr 'micro' presennol a newydd (y rhai gyda llai na phump o weithwyr cyflogedig) i'w helpu i ddeall pa ofal cymdeithasol a gwasanaethau cefnogi y mae pobl eu hangen mewn gwahanol rannau o'r wlad. Yn 2011/12, datblygwyd gwasanaethau micro newydd sbon, a chefnogwyd 16 o wasanaethau micro pellach i safle lle roeddent yn gallu gwneud cais i ymuno â chynllun Cefnogaeth â Hyder y Cyngor.

Mae'r niferoedd wedi parhau i dyfu, ac yn 2016 mae dros 65 o ddarparwyr micro, 35 ohonynt sy'n aelodau Cefnogi gyda Hyder (Cyngor Sir Dwyrain Sussex, 2016). Mae'r tîm yn cynnig y gwasanaethau a ganlyn yn seiliedig ar yr hyn y mae'r comisiynwyr wedi dweud y maent ei angen:

- Cyngor, cefnogaeth ac adnoddau gan Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r sector gwirfoddol lleol a sefydliadau cefnogaeth busnes i ddatblygu busnes neu syniad

- Cyfleoedd i hyrwyddo eich busnes, gwasanaeth neu weithgaredd trwy ddiwyddiadau a Chynllun Cefnogaeth â Hyder y Cyngor
- Cyfleoedd i rwydweithio gyda darparwyr 'micro' lleol eraill a chadw mewn cysylltiad gyda datblygiadau newydd

O'r gwaith, mae nifer o wasanaethau wedi'u datblygu, gan gynnwys cefnogaeth dementia, gwasanaethau iechyd meddwl, gofal yn y cartref, therapi cerddoriaeth, PA, trin gwallt, cyfleoedd dydd a therapïau lles (Dwyrain Sussex, 2017).

Mae Catalyddion Cymunedol yn darparu'r gefnogaeth yn annibynnol yng Ngwlad yr Haf i ryddhau capasiti pobl leol i ofalu trwy cefnogi 200 o fentrau bychain, sy'n trefnu eu hunain, ac yn darparu gwasanaethau i 600 o bobl hŷn, gan gyflogi 280 o bobl. Mae Catalyddion Cymunedol yn nodi bod '32 o fentrau micro cymunedol yng Ngorllewin Gwlad yr Haf yn darparu £134,712 mewn arbedion blynyddol. Ar draws y 171 micro fenter sy'n cael eu cefnogi gan Gatalyddion Cymunedol yng Ngwlad yr Haf, mae'r prosiect yn darparu £719,867 mewn arbedion blynyddol. Cost untro'r Catalydd yw £135,000 dros 2 flynedd. Roedd 56% o'r bobl sy'n cael eu cefnogi yn defnyddio taliadau uniongyrchol gan ddangos arbediad blynyddol uniongyrchol a pharhaus i'r Cyngor o £403,126'. Mae'r prosiect hefyd wedi helpu i gymell cynnydd o 43.6% yn y rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol (2017).

Defnyddio yn lleol:

Cyngor Sir y Fflint i archwilio cynnal astudiaeth dichonolrwydd i'r angen am fentrau Micro Ofal yn y sir.

7.3 Ymgyrch Marchnata a Recriwtio

Mae'r sector yn wynebu argyfwng delwedd sylweddol sy'n cael ôl-ffaith ar recriwtio a chadw staff. Mae hyn wedi'i nodi fel angen sylweddol trwy'r Diagnosteg Busnes, gan ddarparwyr lleol sy'n mynychu'r grŵp llywio yn ogystal â bod yn fater cenedlaethol. Ochr yn ochr â hyn, mae trafodaeth y cyfryngau o'r sector wedi tueddu i ganolbwyntio ar achosion negyddol proffil uchel o gamdriniaeth pobl hŷn. Mae hyn yn cyflwyno delwedd negyddol o'r sector a all atal pobl rhag bod yn rhan ohono.

O fis Mai 2017, blaenoriaethodd Strategaeth Ddatblygu Gweithlu Gogledd Cymru yr angen am ymgyrch ar draws y rhanbarth. Mae'r strategaeth yn amlinellu camau gweithredu mewn perthynas â marchnata a dethol a chadw (Cydwethredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru, 2017).

Recriwtio a Dethol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i gomisiynu	Cynlluniau ar y cyd ar draws y sector i hyrwyddo a denu unigolion i iechyd a gofal cymdeithasol fel y gyrfa o ddewis.
Datblygiad Cenedlaethol Ymgyrch Marchnata iechyd a gofal cymdeithasol	Gweithio gyda Sefydliadau Cenedlaethol i gefnogi ymgyrchoedd marchnata sy'n gwella a gwerthfawrogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.
Recriwtio yn Seiliedig ar Asedau	Trwy waith gyda'r sector annibynnol, nodwyd trwy recriwtio mai'r staff sy'n aros ac yn darparu gofal o ansawdd yw'r rhai sydd â'r sylfaen gwerthoedd cywir. Gall gwaith gyda'r trydydd sector gefnogi defnydd

	recriwtio yn seiliedig ar asedau, trwy hyfforddiant a gwybodaeth.
--	---

Cynhyrnod Skills for Care, cyfwerth Lloegr i Gofal Cymdeithasol Cymru, Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Chynllun Gweithredu (2011). Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu nifer o feysydd a chymau gweithredu i'w datblygu gan gynnwys:

- Hyrwyddo Gofal Cymdeithasol
- Denu gweithlu amrywiol
- Rheoli diddordeb a gweithwyr newydd
- Cadw
- Ymchwil a gwybodaeth
- Safonau, dysg a chymwysterau

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r cynllun gwerthuso yn 2013 a chanfuwyd y bu nifer o lwyddiannau (Sgiliau Gofal, 2013). Mae strategaeth newydd ar gyfer 2014-2017 (Sgiliau Gofal, 2014) wedi'i gynhyrchu ers hynny, gan adlewyrchu ar strategaeth 2011.

Mae cyfleoedd i ddefnyddio atebion ar-lein. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal Porth Gofalwyr Maeth i roi cyfle i Ofalwyr Maeth ddarganfod mwy o wybodaeth am faethu a'r modd y mae cefnogaeth yn cael ei roi yn Sir y Fflint. Mewn ardal ddiogel, gall Ofalwyr Maeth fewngofnodi i ffurflenni mynediad, ffurflenni cyflog, polisïau, hyfforddiant, newyddion a gwybodaeth ddefnyddiol. Gellir datblygu trefniant tebyg ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint.

Mae nifer o wefannau cefnogi darparwyr yn bodoli yn Lloegr. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan Gymdeithasau Gofal lleol neu debyg, yn annibynnol o'r Cynghorau Sir. Maent yn ymdrin ag ystod eang o wybodaeth gan gynnwys:

- Cronfa ddata darparwyr gofal y gellir ei chwilio
- Gwybodaeth ar gyfer darparwyr gofal
- Gyrfaoedd mewn gofal a llefydd gwag
- Ardal Aelodau
- Gwybodaeth gwobrau gofal lleol
- Newyddion/newyddlenni
- Cysylltiadau a manylion cyswllt Cyfryngau Cymdeithasol
- Manylion cwmnïau sy'n rhoi gwasanaethau manteisiol i aelodau
- Hyfforddiant, digwyddiadau a gweithdai

Defnyddio yn lleol:

Ochr yn ochr â darparwyr, datblygu pwynt canolog ar gyfer ymgyrch marchnata a recriwtio ar gyfer y sector gofal lleol. Bydd gwybodaeth a dargedwyd at wahanol gynulleidfaoedd yn ceisio herio'r stereoteip negyddol o weithio yn y sector gofal a darparu gwybodaeth am swyddi gwag a gyrfaoedd mewn gofal. Gall y 'porth' hefyd sicrhau bod darparwyr a gofalwyr sy'n gweithio yn y sector â'r wybodaeth gyfredol ac yn agor sianelau cyfathrebu rhwng yr Awdurdod Lleol, darparwyr a'r staff.

7.4 Rhannu Bywydau

Yn y model Rhannu Bywydau, bydd pobl hŷn, neu oedolion diamddiffyn neu bobl ifanc eraill, yn rhannu cartref gofalwr a'u 'bywyd teuluol', lle gallant gael cefnogaeth i

fyw yn dda. Mae'r Adroddiad Cyflwr Cenedl ar Rhannu Bywydau Cymru (2017) yn rhoi gwybod bod pobl yn y trefniadau Rhannu Bywydau yn teimlo 'lefelau uwch o annibyniaeth a chyflawniad' a bod 900 o bobl yn cael eu cefnogi, er bod y mwyafrif yn bobl gydag anabledd dysgu a dim ond 3% yn cael cefnogaeth sy'n gysylltiedig â'u hoedran, ond mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ac yn cael ei weld fel 'dewis pwysig arall i fodolau gofal traddodiadol'. Gall y model hefyd gynnwys cefnogaeth dydd a seibiant byr, ochr yn ochr â chefnogaeth preswyl.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (BCSW) wedi datblygu amrywiad ar y model Rhannu Bywydau. Mae'r Gofalwyr Rhannu Bywydau yn hunangyflogedig ac yn gweithio gyda phobl yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na bod y person hŷn yn symud i mewn gyda nhw.

Ar hyn o bryd mae 32 o Ofalwyr Rhannu Bywydau sy'n cefnogi hyd at 3 o bobl. Nod y gofalwyr yw:

- cefnogi pobl i fyw yn annibynnol, cadw hobiau a gweithgareddau hamdden, defnyddio gweithgareddau cymunedol a gwneud dewisiadau gwybodus.
- darparu gofal a chefnogaeth personol o ansawdd i unigolion gynnal eu hiechyd a lles emosiynol

Mae'r rhaglen yn rhannu'r anawsterau o recriwtio gofalwyr, gan arwain at restrau aros hir i'r gwasanaeth o ganlyniad i'r broses gydweddu.

Mae gwasanaeth Rhannu Bywydau hefyd ar gael yn Portsmouth, gan ddefnyddio'r model preswyl a cawsant radd 'Da' gan y Comisiwn Ansawdd Gofal yn 2015. Gellir dod o hyd i Fodelau eraill ledled y wlad ac mae manylion ar gael ar y wefan ac adroddiadau Rhannu Bywydau.

Defnyddio yn lleol:

Gellir cynnal astudiaeth dichonolrwydd yn edrych ar anghenion, gydag arfer da o gynlluniau ledled y DU a'u gweithredu yn Sir y Fflint.

7.5 Rhannu Cartref

O'r penodau blaenorol, rydym wedi archwilio bod llawer o bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain yn teimlo yn unig ac angen dibynnu mwy ar gymorth gan deulu neu wasanaethau cymdeithasol ffurfiol i barhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r cynllun yn wahanol i'r model Rhannu Bywydau, oherwydd yn lle bod y person hŷn yn rhannu cartref teulu, bydd person ifanc yn rhannu cartref y person hŷn i gefnogi gyda gweithgareddau yn y cartref yn gyfnewid am lety fforddiadwy. Mae nŵan nifer o raglenni yn cael eu cynnal ledled y byd (HomeshareUK, 2017)

Cynhaliodd Prifysgol Leeds Beckett (Allen et al, 2014) ymchwil i ddangos disgygliadau o'r cynllun gan berchnogion cartrefi a rhai sy'n rhannu cartrefi; y galw am y gwasanaeth; a faint y mae pobl yn fodlon ei dalu i ymuno â'r cynllun yn ardal Leeds. Canfu'r ymchwil:

Manteision

- Cwmnïaeth
- Teimlo'n ddiogel bod rhywun arall yn yr eiddo
- Cyfnewid diwylliant

- Costau gostyngedig ar gyfer cynnal tai a gwasanaethau cefnogi
- Gwell iechyd meddwl corfforol a meddyliol ar gyfer y perchennog cartref
- Osgoi'r dreth 'ystafelloedd gwely'.
- Safon dda o dai i bobl ieuengach
- Integreiddio rhwng cenedlaethau.

Pryderon

- Pryder ynglŷn â phwy fydd yn cael eu cydweddu
- Beth fydd yn digwydd yn y dyfodol a sut y bydd yn effeithio ar y trefniant
- Gofynion corfforol ac emosiynol gofalu am/cefnogi person hŷn
- Ansicrwydd ynglŷn â byw gyda dieithryn
- Effaith ar fudd-daliadau a chyllid
- Gwrthdaro ac anghytuno
- Ymddiriedaeth
- Cyfyngiadau ar weithgareddau o ddydd i ddydd neu golli annibyniaeth
- Perthynas meistr-gwas
- Preifatrwydd
- Amharodrwydd i ofyn am help gan yr un sy'n rhannu cartref

Y ffactor allweddol i oresgyn y materion hyn fydd y gefnogaeth gan y gwasanaeth neu sefydliad sy'n goruchwyllo'r cynllun Rhannu Cartref o'r broses gydweddu hyd at ddiwedd y lleoliad. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y manteision, risgiau ac enghreifftiau o Rannu Cartref yn y Canllaw Arferion Rhannu Cartref (NAAPS, 2011).

Mae'r trefniant cartref ar y cyd wedi'i fodolu ar ôl enghraifft Iseldiraidd lle bydd myfyrwyr yn byw mewn cartref nyrsio a threulio amser gyda'r preswylwyr. Ers 2015, mae prosiect arbrofol o'r enw 'Cartref sy'n Gweddu' wedi bod yn cael ei gynnal yn Helsinki, yn y Ffindir, gyda'r nod o leihau digartrefedd ieuencid yn y sir yn ogystal â mynd i'r afael â theimladau o unigedd gan breswylwyr cartrefi gofal. Mae tri fflat wedi'u hagor ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed mewn cartref gofal. Mae'r pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phobl hŷn, mynd i ddigwyddiadau a phobi, er enghraifft. Mae'r prosiect yn nodi bod y "bobl ifanc wedi dod ag egni ac agwedd bositif i'r lle gyda nhw. Mae'n fodel syml a fydd yn hawdd ei ledaenu i wledydd eraill" (Guardian, 2017).

Mae gan y DU rwydwaith ar gyfer Homeshare sy'n ceisio 'helpu pobl sydd angen cefnogaeth, fel pobl hŷn, i aros yn eu cartrefi eu hunain am hirach a darparu llety fforddiadwy i bobl ifanc neu weithwyr allweddol, ar adeg o brinder tai sydd ar y lefel uchaf erioed a rhenti uchel (Homeshares UK, 2017).

Mae pobl ifanc yn rhannu cartref person hŷn ac yn eu helpu gyda dyletswyddau cartref ysgafn fel golchi a smwddio, gan alluogi'r person hŷn i aros yn eu cartref am hirach. Bydd y person ifanc yn ymrwymo i gefnogi perchennog y cartref gyda 10 awr o ddyletswyddau bob wythnos, ac yn gyfnewid am hynny, byddant yn cael ystafell a chyfleusterau am ddim. Nid yw'r trefniant hwn yn cynnwys gofal personol.

Rŵan mae 25 o gynlluniau Homeshare wedi'u cofrestru yn y DU. Mae'r sefydliad, wedi'u cysylltu â Rhannu Bywydau a Mwy, wedi datblygu canllaw manwl ar gyfer

rhannu cartref, yn ymdrin â risgiau a manteision, gwerthoedd, cysylltiadau â deddfwriaeth a sut i ddarparu cynllun (Rhannu Bywydau a Mwy, 2016).

Mae'r rhai mwyaf lleol i Sir y Fflint yn Lerpwl a Swydd Amwythig. Mae Ymddiriedolaeth Tai Knowsley yn cynnal cynllun rhannu cartref sy'n 'galluogi pobl hŷn i fyw yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain am yn hirach, gan rannu eu sgiliau gyda rhywun ieuengach sy'n chwilio am rywle i fyw heb rent ac yn fodlon helpu o gwmpas y cartref (KHT Homeshare, 2017). Mae cynlluniau tebyg eraill ar gael ledled y wlad, gan gynnwys Leeds, Manceinion, Worcester, Northamptonshire, Llundain ac Ynys Wyth, i gyd yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol.

Defnyddio yn lleol:

Gellir archwilio hyn fel dewis ar gyfer datblygu yn Sir y Fflint. Fel arall, yr hyfywdra ar gyfer datblygu model rhannu cartref mewn cartrefi gofal lle mae llety yn bodoli nad yw'n addas ar gyfer preswylwyr hŷn.

7.6 Cefnogaeth i Ofalwyr Di-dâl

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dileu'r gofyniad bod rhaid i ofalwyr ddarparu 'swm sylweddol o ofal yn rheolaidd'. Mae gan ofalwyr rŵan yr un hawliau â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt ac mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i gynnig asesiad i unrhyw ofalwr lle mae'n ymddangos i'r Awdurdod Lleol bod gan y gofalwr anghenion cefnogi. Os yw'r cyngor yn penderfyni bod anghenion y gofalwr yn diwallu'r meini prawf cymhwyso, mae'n rhaid iddynt ystyried beth y gellir ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny (Asesiad Anghenion Poblogaeth, 2017).

Yn 2015, rhoddodd Carers UK wybod bod gwerth y cyfraniad gan ofalwyr yn y DU rŵan yn £132 biliwn y flwyddyn (Carers UK, 2015), gyda 18,216 yn Sir y Fflint yr oedd eu gofal werth £386 miliwn.

Ar hyn o bryd, mae Gofalwyr yn uchel ar yr agenda, ond mae'n bwysig peidio colli golwg ar eu pwysigrwydd wrth i ni symud ymlaen, a cheisio eu cefnogi yn eu swyddogaethau cymaint â phosibl. Nododd gweithgareddau ymgysylltu gyda Gofalwyr y rhoddwyd gwybod amdanynt yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth (2017) y bylchau canlynol yn y gwasanaeth:

- Diffyg cludiant mewn ardaloedd gwledig
- Diffyg gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys gofalwyr cartref â thâl
- Anallu yn rhai ardaloedd i wneud apwyntiadau gyda meddyg y maent yn eu hadnabod, sydd ei angen ar gyfer cysondeb, yn enwedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl neu dementia
- Diffyg ymwybyddiaeth ymysg staff gofal sylfaenol am ofalwyr, eu pwysigrwydd a'u hanghenion
- Gwasanaethau cwnsela annigonol i ofalwyr y mae eu hiechyd meddwl wedi'i effeithio gan eu swydd ofalu; mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd effaith a straen y swyddogaeth ofalu
- Ystod, argaeledd a hyblygrwydd annigonol y seibiant ac egwyl byr i ofalwyr
- Bwlch yn y gefnogaeth i ofalwyr pobl gyda phroblemau cam-drin sylweddau
- Cyllid cynaliadwy, tymor hir i brosiectau cefnogaeth gofalwyr

Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth hefyd yn amlinellu cefnogaeth eang i helpu gofalwyr yn eu swyddogaeth a'u cefnogi yn benodol. Mae Cyngor Sir y Fflint yn comisiynu Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i gynnal gwasanaethau cefnogi i Ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiadau gofalwyr, gofal seibiant, grant gofalwyr, cefnogaeth a hyfforddiant.

Mae'r sefydliad ei hun wedi cael £999,182 i ddatblygu Gwasanaeth Lles Gofalwyr, a lanswyd ym mis Mehefin 2017 (Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, 2017). Bydd y gwasanaeth, ochr yn ochr a'r Gwasanaethau Eirioli a Chyngor i Ddinasyddion Gogledd Ddwyrain Cymru (ASNEW) yn rhoi gwybodaeth a chyngor, eiriolaeth, seibiant i ofalwyr, cwnsela a gweithgareddau.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i gynnwys gofalwyr wrth ddatblygu gwasanaethau, ac yn 2015 cynhaliwyd digwyddiad o'r enw 'Mynd â Gofalwyr i 2020' sy'n edrych ar flaenoriaethau gofalwyr ac wedi archwilio rhai syniadau o amgylch cefnogaeth i'r dyfodol. Mae hyn wedi cyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Gofalwyr Sir y Fflint, wedi'i oruchwyllo gan y Grŵp Strategaeth Gofalwyr.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Cynllunio rhanbarthol yn casglu gwybodaeth a straeon gofalwyr. Bydd yr adroddiad terfynol sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2018 yn gwella'r sylfaen wybodaeth gyfredol ac yn cyflwyno argymhellion ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd. Rhaid ystyried canlyniadau'r adroddiad hwn a lle gallwn gefnogi gofalwyr di-dâl yn eu swyddogaethau hanfodol.

Defnyddio yn lleol:

Er bod llawer yn cael ei wneud i gefnogi gofalwyr di-dâl yn Sir y Fflint, mae'n rhaid i ni adolygu canlyniadau'r gwaith rhanbarthol pan fydd wedi'i gyhoeddi.

7.7 Buddion a Chefnogaeth Staff

Mae nifer o enghreifftiau o sut y mae cyflogwyr yn cefnogi eu gweithwyr. Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar y tri canlynol.

- Tai gweithwyr allweddol
- Mentrau Lles
- Gwobrau

Mae tai fforddiadwy, yn enwedig i brynwyr am y tro cyntaf, yn anodd. Mae llawer o weithwyr gofal cymdeithasol yn ei chael yn anodd prynu tŷ oherwydd contractau oriau ansicr ac er bod gwaith yn cael ei wneud i newid hyn yng Nghymru, mae rhagor y gallwn ei wneud ar lefel leol. Mae'n galonogol bod dewisiadau o amgylch tai gweithwyr allweddol gan gynnwys rheolwyr gofal cymdeithasol a nyrsys cofrestredig yn cael eu harchwilio.

Mae ardaloedd eraill o'r wlad wedi datblygu'r cynlluniau hyn, yn draddodiadol ar gyfer staff gofal iechyd a gweithwyr cymdeithasol. Mae Haringey yn Llundain yn galluogi gweithwyr cymdeithasol i gymryd benthyciad ecwiti, i'w ad-dalu pan fydd yr eiddo yn cael ei werthu (Haringey, 2017).

Mae Taflen Ffeithiau yr Adran Iechyd ar 'les staff gofal iechyd, darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau iechyd' (2014) yn amlinellu'r berthynas gref rhwng lles

staff y sector gofal iechyd a chanlyniadau perfformiad'. Mae'n mynd ymlaen i nodi y dylai 'sefydliadau hyrwyddo lles staff gan ei fod yn bwysig ynddo'i hun ac y gall wella ansawdd profiad y claf a'u canlyniadau iechyd', yn ogystal â lleihau trosiant staff a gwella presenoldeb. Gall cyflwyno cynlluniau lles gael effaith ar gyfraddau salwch, ac amcangyfrifir bod hyn yn gyfartaledd o 10.5 diwrnod y flwyddyn mewn gwasanaethau oedolion yn Lloegr (Quality Watch, 2017).

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymuno â'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr Carefirst. Mae Carefirst yn cynnig cyngor a chefnogaeth sy'n gyfrinachol a diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ar-lein neu dros y ffôn gan ddefnyddio'r rhif rhadffôn. Mae'r gwasanaeth am ddim i bob gweithiwr ei ddefnyddio pan fyddant ei angen.

Mae Carefirst yn cynnig asesiad cyfrinachol am ddim, cwnsela tymor byr a gwasanaethau dilynol i weithwyr sydd â phroblemau personol a/neu yn ymwneud â'r gwaith. Gall hyn gynnwys materion cymhleth sy'n effeithio ar les meddyliol ac emosiynol, fel camddefnyddio alcohol a sylweddau, straen, galar, problemau teuluol ac anhwylderau seicolegol. Gall cefnogaeth debyg fod o fantais i bobl sy'n gweithio yn y sector er mwyn iddynt adeiladu gweithlu gwydn, wedi'u cefnogi. Gellir monitro'r effaith ar lefelau salwch a chadw staff ochr yn ochr yn ochr a gweithredu.

Yn lleol, mae RCS yn sefydliad nid er elw sy'n seiliedig yn y Rhyl ac yn cynnal sesiwn 'Cyngor Meddwl ar gyfer Lles yn y Gweithle' ar gyfer busnesau bach a chanolig ym mis Medi a Hydref 2017. Mae'r sesiynau yn edrych ar iaith gadarnhaol, hyfforddiant a chyfathrebu ac ymyriadau lles ar gyfer y gweithle.

Mae nifer o gwmnïau hefyd yn cynnig arian i'r rhai sy'n atgyfeirio pobl ar gyfer swyddi. Mae'r Asiantaeth Leol, Jane Lewis, yn cynnig bonws ymuno o £500 i nyrsys sy'n ymuno â'r asiantaeth ar hyn o bryd, a byddant yn cael hwn ar ôl cwblhau 100 awr o waith. Mae asiantaethau eraill yn rhoi bonws o hyd at £250 i staff am atgyfeirio gweithwyr cefnogi. Ond, efallai na fydd hyn yn bosibl i asiantaethau bychain.

Mae mwy o waith rŵan yn cael ei wneud i adnabod a dathlu'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Mae Cymdeithasau Gofal Lleol yn Lloegr yn datblygu Gwobrau Gofal, fel yr un a gynhaliwyd gan Gymdeithas Gofal Surrey (Surrey Care Association, 2017). Rŵan yn ei 9fed blwyddyn, dyma gyfle i ddathlu a chodi proffil y gwaith da sy'n cael eu wneud yn y sector. Yng Nghymru, mae Gwobrau Gofal Cymru, sy'n cynnwys 20 o gategoriâu. Mae'n bwysig hyrwyddo'r cyfle hwn ar lefel leol.

Defnyddio yn lleol:

Gall y Cyngor archwilio cynlluniau lles i ddarparwyr. Gellir hefyd datblygu hyn trwy gonsortiw m prynu neu Gymdeithas Ofal yn y dyfodol, wedi'i gyd-gynhyrchu â'r sector. Mae'n rhaid i ni hefyd hyrwyddo Gwobrau Gofal Cymru a dathlu'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud ochr yn ochr â'r sector. Bydd cyfleoedd fel y rhai a ddarparwyd trwy RCS yn cael eu rhannu trwy'r Porth Darparwyr.

7.8 Meithrinfeydd mewn Cartrefi Gofal

Mae Generations United, yn yr Unol Daleithiau, wedi datblygu nifer o adnoddau ar gyfer datblygu rhaglenni safle rhyng-genhedlaeth ar y cyd. Mae'r canllaw 'Under One Roof' yn amlinellu'r rhesymeg ar gyfer rhannu ardaloedd, sy'n nodi, fel yn y DU, bod poblogaeth pobl hŷn yn cynyddu yn yr Unol Daleithiau, a'r galw i rieni weithio, ac o

ganlyniad mae pobl hŷn a phlant ifanc yn treulio llawer o amser gyda darparwyr gofal. Mae plant a phobl hŷn yn treulio llai o amser efo'i gilydd, er eu bod yn cerdded ar yr un strydoedd.

Gellir strwythuro safleoedd ar y cyd i ddiwallu anghenion aml-genhedlaeth a darparu gwasanaethau integredig, gan greu perthnasau sy'n fuddiol i bawb. Daw'r safleoedd yn Gyfleusterau Dysgu Rhyng-genhedlaeth.

Gall y manteision i'r agwedd hon gynnwys:

- Pobl Ifanc a hŷn yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth, sgiliau a mwynhad.
- Gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael (cyllid, deunydd a phobl).
- Mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd y mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth (2017) wedi'i nodi fel achos pryder.
- Cynnig gwahanol i staff a phreswylwyr
- Mwy o weithgarwch corfforol
- Cynladwyedd ac arloesedd busnes
- Cyfleoedd gwirfoddoli i bobl o bob oed

Mae ystyriaethau sydd i'w rhoi i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach, a nodwyd yn 'Under one Roof' (2005) yn cynnwys:

- Sefydlu – datganiad o fwriad wedi'i gyd-gynhyrchu, a nodau
- Gofynion cyfreithiol ac achredu
- Cynllunio cyfleuster
- Cyllid a phartneriaid
- Datblygu a hyfforddi staff
- Datblygu Cwricwlwm a Gweithgareddau Rhyng-genhedlaeth (gan gynnwys gwneud y gorau o'r cwricwlwm anffurfiol)
- Marchnata
- Gwerthusiad

Nododd Generation United (2006) hefyd y manteision a ganlyn.

Plant

- Roedd gan blant cyn ysgol sgorau datblygiad personol/cymdeithasol uwch erbyn 11 mis na'r rhai nad ydynt mewn safleoedd ar y cyd.
- Gwell safbwyntiau am bobl hŷn, pobl ag anableddau a chartrefi gofal
- Roedd y rhieni a arolygwyd yn credu ei fod yn fanteisiol i'w plant

Pobl hŷn

- Mae'r preswylwyr wedi nodi bod y sefydliad yn fwy "teuluol/cartrefol" ac yn hyrwyddo diddordeb mewn eraill.
- Effaith gadarnhaol i bobl â Dementia sy'n parhau pan fydd y plant wedi gadael.
- Gan ddefnyddio gweithgareddau Montessori, roedd oedolion â nam gwybyddol ar lefel gymedrol yn gallu gweithredu fel mentoriaid i blant oedran cyn ysgol ac yn dangos lefel gynyddol o ymgysylltiad adeiladol a lleihad mewn ymgysylltiad goddefol wrth fentora.

- Nododd y preswylwyr eu bod yn teimlo yn hapus, â diddordeb, yn derbyn cariad, yn ieuengach ac yn ddefnyddiol. Agwedd mwyaf cyffredin y rhaglen y gwnaethant ei fwynhau oedd agwedd chwareus ac anwyldeb y plant.

Staff

- Mae staff yn gadarnhaol am y rhaglen.
- Arweiniodd gofal plant ar y safle at lai o drosiant staff.
- Gwell cyfleoedd gyrfa trwy ddarparu trawstoriad a datblygiad proffesiynol i staff

Perthnasau Cymunedol

- Gwell perthynas trwy gyhoedduswydd cadarnhaol
- Gwell ymglymiad cymunedol

Cost-budd

- Roedd gofal plant ar y safle fel arfer yn ychwanegu lle cynhyrchu referniw i gyfleusterau gofal tymor hir sy'n aml yn rhoi gwybod am wagle sy'n cael ei ddefnyddio yn anaml neu ddim o gwbl
- Defnyddio adnoddau sydd ar gael yn barod - rhannu staff (e.e. nyrs, derbynnydd, therapydd galwedigaethol, therapydd corfforol, staff cegin, cynnal a diogelwch), offer a chyflenwadau (e.e. llungopiwr, golchwr/sychwr, cyfrifiaduron, ffonau, faniau/bysiau a cheginau).
- Amryw o ffrydiau ariannu ar gael i un eiddo

Mae nifer o enghreifftiau o fannau sy'n cael eu rhannu ledled y DU. Wedi'i agor yn 1991, mae Providence Mount St. Vincent yng Ngorllewin Seattle yn darparu gweithgareddau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio yn eu campws, sydd hefyd yn gartref i 400 o bobl hŷn. Maent yn dod ynghyd i wneud gweithgareddau gan gynnwys crefftau, canu, dawnsio neu ymweld. Mae plant yn gallu dysgu am y broses heneiddio ac anabledau a mwynhau cwmni pobl hŷn tra bod preswylwyr yn manteisio o weithgaredd corfforol uwch, mwynhau'r 'ysbryd a mwynhad y mae'r plant yn ei gyfrannu at amgylchedd y cartref' a gweithredu fel patrwm ymddwyn (Providence Health Services, 2017). Bydd ffilm am y gwasanaethau o'r enw 'The Growing Season' yn cael ei ryddhau yn 2017.

Bydd meithrinfa Apples and Honey yn agor ail leoliad yng Nghartref Preswyl Nightingale House yn Llundain ym mis Medi. Y fenter hon yw'r cyntaf o'i math yn y DU ac mae'n ceisio mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd yn ogystal â phontio'r bwch rhwng y cenedlaethau. Mae'r cyfleuster wedi'i sefydlu fel menter gymdeithasol ac yn gweithio ar ystod eang o brosiectau ymchwil a fydd yn cael eu rhyddhau ar hyd y daith. Maent wedi ceisio cyngor a chefnogaeth gan nifer o addysgwyr, therapyddion, cyfrifwyr a gweithwyr marchnata proffesiynol (Apples and Honey, 2017).

“Fel person hŷn sy'n dod i ddiwedd fy oes, mae'n bleser gweld plant newydd yn tyfu, ac aeddfedu yn araf yn bobl, aeddfed. Mae'n ardderchog” (Newyddion y BBC, 2007).

Gellir gweld enghreifftiau pellach o'r effaith y gall rhyngweithio â phlant ei gael ar bobl hŷn yn y rhaglen ddogfen deledu 'The Care Home for 4 Years Olds' lle bydd

plant cyn oedran ysgol yn rhannu eu hystafell ddosbarth gyda phobl hŷn dros chwe wythnos. <http://www.channel4.com/programmes/old-peoples-home-for-4-year-olds/episode-guide/>

Defnyddio yn lleol:

Gellir archwilio'r model hwn a gwneud cysylltiadau rhwng Cartrefi Gofal Lleol a Meithrinfeydd.

7.9 Consortiwm Prynu

'Gellir diffinio consortiwm prynu fel trefniant ar y cyd lle bydd dau neu fwy o sefydliadau yn dod ynghyd i gyfuno eu gofynion unigol am nwyddau, gwaith neu wasanaethau i gael gwell prisiau, dylunio, argaeledd nwyddau a buddion sicrwydd o gymharu â phrynu'r nwyddau neu wasanaethau yn unigol' (Farrington, 2006).

Mae nifer o fanteision i fod yn aelod o wasanaeth Consortiwm Prynu. Oherwydd graddfa'r hyn sy'n cael ei brynu, bydd gan y gwasanaeth bŵer trafod uwch i gael y cymysgedd pris ac ansawdd gorau ar gyfer y cynnyrch. Efallai y gall y consortiwm dreulio amser yn caffael cynnyrch o nifer o gyflenwyr a fyddai'n cymryd llawer gormod o amser i ddarparwr unigol.

Mae'r darparwr Business Diagnostics yn nodi yn eu hadroddiad yn 2017 mai prynu nwyddau traul yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sector yn lleol. Gellir ystyried prynu nwyddau traul, cyfleustodau, offer, gwasanaethau gwastraff, gwasanaethau AD a gwasanaethau lles trwy gonsortiwm yn y dyfodol.

Mae nifer o gonsortiau prynu sy'n gwasanaethu Cartrefi Gofal a Chartrefi Nyrsio yn bodoli eisoes. Amlinellir rhai esiamplau isod.

Mae IDC Ltd yn cyflenwi llefrith ffres, bara, cig ffres a ffrwythau a llysiau i gartrefi nyrsio a chartrefi gofal ledled y wlad. Trwy ddefnyddio rhwydwaith o dros 500 o bartneriaid cyflenwi lleol a rhanbarthol, mae'r IDC yn helpu i leihau milltiroedd bwyd ac yn cefnogi busnesau lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Greetwell Purchasing Solutions – Darparwyr gwasanaeth prynu cynhwysfawr wedi'i deilwra i anghenion penodol y farchnad cartref gofal. Yn ogystal â thrafod telerau ffafriol a chytundebau masnachu gyda chyflenwyr, maent yn cydweithredu gyda chleientiaid i ddatblygu strategaeth brynu ar gyfer cynnyrch fel bwyd, dodrefn ac offer meddygol.

Defnyddir Spectrum Consortium gan Berkscare. Mae Spectrum yn gonsortiwm prynu sefydledig gyda phwyslais ar y sector gofal gan gynnwys cartrefi gofal, gofal yn y cartref a byw â chymorth. Maent wedi bod yn caffael gostyngiadau i'w haelodau gyda chyflenwyr mawr ers 1992. Mae eu cyfarwyddwyr i gyd yn weithredwyr cartrefi gofal gyda phrofiad helaeth yn y diwydiant ac maent felly wedi datblygu arbenigedd mewn trafod cynigion rhagorol a chaffael y cynnyrch cywir. Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim.

Mewn llawer o achosion, gall cartrefi gofal ymuno â chonsortiwm prynu trwy Gymdeithas Gofal Lleol, a fydd yn cael ei archwilio ymhellach yn yr adran nesaf.

Defnyddio yn lleol:

Archwilio gyda darparwyr y manteision ac awydd i sefydlu consortiwm prynu lleol.

7.10 Cymdeithasau Gofal

Mae Cymdeithasau Gofal Lleol yn gweithio i gynrychioli lles y darparwyr sydd wedi ymuno. Mae llawer yn cynnal gwefannau, sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y sector gofal, yn ogystal â meysydd aelodaeth lle gall ddarparwyr fewngofnodi i gael gwybodaeth a chefnogaeth.

Mae llawer o Gymdeithasau Gofal wedi datblygu neu ymuno â'r consortia prynu a gellir cael gwasanaethau trwy fod yn aelod o'r Gymdeithas. Mae ffioedd yn tua £230-£300 i ymuno â Chymdeithas Gofal lleol. Mae rhai wedi'u sefydlu fel mentrau nid er elw neu fentrau cymdeithasol.

Mae nifer o enghreifftiau o Gymdeithasau Gofal wedi'u hamlinellu isod:

National Care Association - <http://nationalcareassociation.org.uk/>

Mae'r National Care Association yn cynrychioli darparwyr gofal bach a chanolig a chymdeithasau lleol cysylltiedig ac yn cysylltu â'r Llywodraeth Cenedlaethol a grwpiau budd-ddeiliad eraill ar eu rhan. Y ffi aelodaeth ar gyfer cartref gyda dros 45 o welyau yw £500.

Berkshire Care Association (BCA) – mae BCA yn ceisio meithrin cydweithrediad rhwng darparwyr gofal trwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant, cefnogaeth a chanllawiau i hyrwyddo safonau gofal uchel. Maent yn trefnu cyfarfodydd aelodau, cyrsiau hyfforddiant a digwyddiadau eraill ac yn mynychu cyfarfodydd gyda chomisiynwyr er mwyn cynrychioli barn darparwyr gofal. Mae cost aelodaeth yn £240 am un gwasanaeth. Mae BCA yn defnyddio Spectrum fel consortiwm prynu.

Staffordshire Association of Care Providers (SARCP) - <http://sarcp.net/>

Mae SARCP yn gymdeithas sy'n cynrychioli dros 200 o Ddarparwyr Gofal annibynnol gan gynnwys Cartrefi Gofal ac Asiantaethau Gofal Cartref wrth drafod ag asiantaethau'r Llywodraeth. Mae SARCP yn ymdrechu i ddylanwadu ar lunwyr polisïau a lleisio barn aelodau yn llwyddiannus gan sicrhau bod aelodau yn cael digon o gynrychiolaeth yn y sector. Mae gan SARCP Bwyllgor Gweithredol sy'n cynnwys un ar ddeg o berchnogion/uwch reolwyr darparwyr gofal annibynnol ac ymgynghorwyr proffesiynol.

Mae'r aelodau yn cael cyngor defnyddiol ac yn cael gwybod am y newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n effeithio ar y sector. Mae datblygiad staff yn bwysig i Aelodau ac mae SARCP nid yn unig yn hwyluso cyrsiau hyfforddiant ond hefyd yn dosbarthu Cyllid Datblygu Gweithlu Sgiliau Gofal i gefnogi datblygiad staff a recriwtio. Mae'r ffi aelodaeth yn £27.

Mae cwmpas i ddatblygu Cymdeithas Gofal Lleol gyda gwefan ganolog. Gallai'r Gymdeithas geisio darparu'r gwasanaethau canlynol am ffi briodol.

- Consortiwm Prynu
- Pwynt canolog ar gyfer gwiriadau a thystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan wneud yn siŵr y gellir eu trosglwyddo gyda'r gweithiwr
- Gwefan gyda swyddi gwag, newyddion, digwyddiadau, hyfforddiant ayyb

- Hyfforddiant a digwyddiadau
- Cyfarfodydd rhwydwaith – cyfarfodydd darparwyr, cynhadledd Cydlynwyr Gweithgareddau, canolbwynt dysgu Rheolwyr
- Casglu/rhannu arfer gorau yn unol â themâu arolygu AGGCC
- Os yw'n cael ei sefydlu mewn fformat menter gymdeithasol – pot grantiau bychain i ariannu gweithgareddau i ddenu pobl i fynd allan i'r gymuned, dod â'r gymuned i mewn, gwaith pontio'r cenedlaethau

Defnyddio yn lleol:

Archwilio gyda darparwyr yr angen i sefydlu cymdeithas ofal lleol a sut y gellir ei ddatblygu mewn modd cyd-gynhyrchiol.

7.11 Technolegau

Mae gan dechnoleg hefyd ran enfawr i'w chwarae mewn gofal cymdeithasol heddiw. Bydd y maes hwn yn canolbwyntio ar rai agweddau, ond mae hwn yn faes eang iawn ac nid yw'r wybodaeth a amlinellwyd yma yn gwneud cyfiawnder i'r posibiladau sydd ar gael. Os yw hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach, bydd angen archwiliad ar wahân.

Mae nifer o elfennau i'r maes hwn:

- Y dechnoleg sydd ei hangen i alluogi cynnal gwasanaethau gofal yn effeithiol
- Rhyngweithio gyda gwasanaethau trwy dechnoleg
- Y dechnoleg gymorth sydd ei angen ar gyfer pobl wrth iddynt fynd yn hŷn.

Yn gadarnhaol, mae bwletin ystadegol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS, 2017) yn rhoi gwybod bod y defnydd o'r rhyngrwyd gan rai 65 oed a hŷn yn cynyddu. Mae defnydd rhyngrwyd diweddar yn y grŵp oedran 65 i 74 wedi cynyddu o 52% yn 2011 i 78% yn 2017 gan awgrymu wrth i ni symud ymlaen y bydd y duedd yn parhau a rhagor o bobl yn defnyddio TG. Ond, heddiw, dim ond 4 mewn 10 o oedolion 75+ oed sydd wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y 3 mis diwethaf.

Mae'n bwysig peidio defnyddio technoleg ar draul neu ar wahân i ffynonellau gwybodaeth a chymorth eraill. Mae agwedd aml agwedd yn ffafriol bob amser i alluogi dewis unigol a mynediad teg i wasanaethau.

Mae'r defnydd o dechnoleg yn dechrau dod yn fwy cyffredin ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd 34.7% o'r rhai a ymatebodd i arolwg yn seminar gwanwyn y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn Lloegr yn 2016 bod eu Hawdurdod yn cofnodi data yn electronig yn y pwynt cyswllt ag unigolion neu ofalwyr, ond, o'r rhai a ddywedodd hynny, dim ond 7.69% ddywedodd bod mwy na 75% o'u gweithlu yn gwneud hynny (ADASS, 2016).

Mae partneriaid rhanbarthol eisoes wedi nodi'r angen am systemau TG hygyrch ar y cyd mewn digwyddiad datblygu gweithlu yng Ngogledd Cymru i hwyluso trosglwyddo gwybodaeth yn fwy effeithiol rhwng gwasanaethau. Mae cyflwyno e-atgyfeiriadau yn Cumbria (trwy Strata) wedi bod yn gatalydd ar gyfer gwell cyfathrebu ac ewyllys da rhwng partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol. Rhagamcan yr arbedion effeithlonrwydd hyd yma yn yr ardal leol yw £400,000 y flwyddyn (IPC, 2016).

Yn lleol, mae darparwr gofal yn y cartref wedi buddsoddi mewn ffonau clyfar i bob staff fel y gallant rŵan weld eu hamserlenni trwy ap. Mae adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda staff yn dod i arfer â'r ffonau clyfar newydd yn gyflym.

Mae manteision yn cynnwys:

- Rheolwyr yn gwybod lleoliad staff gan y byddant yn mewngofnodi wrth gyrraedd galwad ac allgofnodi wrth adael. Mae hyn hefyd yn rhoi cysur mewn perthynas â gweithwyr ar eu pen eu hunain.
- Gellir monitro galwadau sy'n hirach/byrrach na'r disgwyl. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon gan ystyried y newidiadau yn y Fframwaith Gofal Cartref
- Ni all staff bellach gyfnewid galwadau rhyngddynt eu hunain neu gyflenwi heb gael caniatâd ymlaen llaw.

Mae'r adroddiad 'Trawsnewid gofal cymdeithasol trwy ddefnyddio gwybodaeth a thechnoleg' (IPC, 2016) yn amlinellu nifer o enghreifftiau lle mae technoleg wedi'i ddefnyddio i gefnogi pobl.

Mae Cyngor Dwyrain Sussex wedi datblygu'r gwasanaeth Telecheck i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi yn hirach. Mae'r gwasanaeth yn gwneud galwadau ffôn i'r defnyddwyr gwasanaeth i'w hatgoffa i fwyta, yfed, a chymryd meddyginiaeth, yn ogystal â chysylltu i gysuro'r unigolyn. Mae'r gwasanaeth wedi arddangos 'gwerth osgoi costau o £32 y cleient yr wythnos ac wedi amcangyfrif arbedion ataliol o £589,000 yn 2014/15' (IPC 2016). Gwnaethpwyd £4m o arbedion dros 3 blynedd yn Hampshire trwy dargedu defnydd technolegau cynorthwyol trwy ddefnyddio agwedd seiliedig ar ganlyniadau i ganfod beth yr hoffai'r unigolyn ei gyflawni.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (CBSW) Dŷ Teleofal yn Wreccsam wedi'i leoli mewn canolfan tai gwarchod, ychydig y tu allan i ganolfan tref Wreccsam. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig gwasanaeth 'galw heibio' lle gall pobl weld yr offer sydd ar gael ar gyfer cartref a thrafod eu hanghenion gyda Therapyddion Galwedigaethol neu Swyddog Anableded.

Mae Cera yn cynnig ystod o declynnau cartref clyfar a synwryddion monitro y gellir eu rheoli o ffôn clyfar a gellir trefnu i feddyg ymweld â'r cartref yr un diwrnod, neu ymgynghori dros y ffôn, dros neges destun neu neges fideo (Cera, 2017).

Mae agweddau arloesol eraill wedi'u datblygu gan Cera, gan gynnwys plattfform digidol sy'n galluogi darparwyr gofal yn y cartref i ddiweddarau'r system am y gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r gofal a gafwyd gan bobl hŷn. Gall ofalwyr di-dâl a pherthnasau fewngofnodi i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n darparu cysur ac eglurder. Mae'r system hefyd yn galluogi pobl i ddarganfod mwy am y gofalwr, gwneud unrhyw geisiadau, a threfnu ymweliadau a rheoli taliadau.

Mae technoleg hefyd yn ffocws yn rhai o'r safleoedd Blaen y Gât yn Lloegr. Yn Nottingham, mae monitorau pwysau gwaed ac ymgynghoriadau fideo yn cael eu cyflwyno i gartrefi gofal ac mae un arall yn Airedale yn cynnwys cysylltiadau fideo byw i weithwyr proffesiynol iechyd bob awr o'r dydd trwy fynediad i nyrsys uwch a all roi cyngor a chefnogaeth (GIG Lloegr, 2016).

Creu synhwyrdd BenignEye i fonitro'r diamddiffyn yn y cartref

Mae dyfeisiwr wedi creu synhwyrdd i gefnogi pobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain ac sy'n rhoi manylion os oes unrhyw beth anghyffredin. Cafodd Tim Jones o Benyffordd, Sir y Fflint, ei ysbrydoli gan ei fam Beris a oedd yn byw yn annibynnol nes iddi farw o ganser yn 2016.

Dechreuodd chwilio am ffyrdd o fonitro sut yr oedd hi'n symud o amgylch y tŷ a defnyddiodd declynnau i gael tawelwch meddwl, cyn penderfynu creu'r ddyfais ar gyfer eraill.

Gweithiodd Mr Jones gyda Phrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam i gynllunio BenignEye ac mae'n gobeithio gallu ei gynhyrchu ar gyfer ei werthu.

Ffynhonnell: BBC News 22.09.17 <http://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-41352906/inventor-s-benigneye-sensor-monitors-vulnerable-at-home>

Defnyddio yn lleol:

Parhau i ddatblygu ffyrdd y gellir defnyddio technolegau cynorthwyo yn Sir y Fflint.

7.12 Pobl Hŷn fel rhan o'r gweithlu

Mae astudiaeth 2011 yn awgrymu erbyn '2030 bydd pobl hŷn yn rhoi budd o tua £291.1biliwn i economi'r DU, o gymharu â brasamcan costau lles o £216.2biliwn'. Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn ceisio helpu i wneud y gorau o gyfraniad pobl hŷn i'w cymunedau a'r economi ehangach (Heneiddio'n Dda yng Nghymru, 2014).

Un o flaenoriaethau allweddol y Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint yw rhoi cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth a deall bod rhai pobl hŷn yn wynebu heriau penodol wrth gael a chadw gwaith. 'Mae dysgu gydol oes yn hanfodol nid yn unig i gynnal safle gystadleuol yn y farchnad lafur, ond hefyd ar gyfer buddion iechyd a lles ehangach. Gall dysgu a datblygu sgiliau gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) cynhwysiant ariannol a digidol i helpu pobl hŷn i fod yn fwy gwydn yn ddiweddarach yn eu bywydau' (Cyngor Sir y Fflint, 2016).

Mae llawer o ddarparwyr lleol wedi tynnu sylw at y ffaith bod y gweithlu yn heneiddio. Maent yn sylweddoli bod y staff yn brofiadol ac y gellir ymddiried ynddynt ac y byddant yn gadael bwch pan fyddant yn penderfynu gadael y gwasanaeth. Mae pryderon hefyd wedi'u codi y gellir colli'r gweithwyr hyn o ganlyniad i reoliadau newydd dan y Ddeddf Cofrestru ac Arolygu (Cymru) 2016 a Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd angen i weithwyr Gofal Cymdeithasol gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn 2020 am gost arfaethedig o £35. Er mwyn cofrestru, mae angen i'r gweithiwr fod wedi cyflawni cymhwyster mewn Gofal Cymdeithasol a gweithio tuag at Ddiploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 3 blynedd cyntaf y cofrestrriad.

Mae ymuno â'r sector wedi'i ddisgrifio fel rhywbeth deniadol i'r gweithlu hŷn oherwydd y 'rhwystrau isel i fynediad a phatrymau gweithio hyblyg' (Eastwood, 2017). Oherwydd y rheoliadau newydd hyn, gall gyflogwyr deimlo na fydd staff, o unrhyw oed, yn gwneud yr hyfforddiant ychwanegol a chostau pan fydd cyfleoedd cyflogaeth ar gael yn lleol heb y rhwystrau ychwanegol hyn.

'Mae darparwyr gofal yr Unol Daleithiau yn canfod bod angen agwedd wahanol i ddenu'r grŵp hwn. Maent wedi cael y mwyaf o lwyddiant pan fydd eu negeseuon recriwtio yn alinio gwaith gofal i nodau'r gweithwyr yn y cyfnod bywyd hwn: ei fod yn eich cadw yn gorfforol egnïol, mae'n gymdeithasol dda, yn eich galluogi i deimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi a'ch bod yn ddefnyddiol, a'ch galluogi i greu perthnasau cymdeithasol ystyrlon. Mae recriwtio yn dilyn argymhelliad llafar hefyd yn cael ei ystyried yn effeithiol, yn enwedig os bydd aelod tîm hŷn brwdfrydig yn fodlon treulio amser ar waith estyn allan cymunedol' (Eastwood, 2017).



Mae cefnogaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer cyflogwyr sydd eisiau cyflogi pobl dros 50 oed. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2017) wedi datblygu tudalen gwe i roi arweiniad ac mae Prime Cymru, Cynllun y Tywysog ar gyfer Menter Aeddfed yng Nghymru hefyd yn cefnogi'r rhai dros 50 i gyfleoedd cyflogaeth a gall hefyd helpu'r sefydliad i hysbysebu swyddi gwag (2017).

Defnyddio yn lleol:

Mae'r maes hwn yn cael ei archwilio ymhellach fel rhan o'r ffrwd gwaith recriwtio a chadw gyda gwersi a ddysgwyd o ymgyrchoedd eraill wedi'u targedu at rai dros 50 oed.

7.13 Cludiant

'Mae Cludiant Cymunedol yn ffurf ddiogel, hygyrch, cost effeithiol a hyblyg o deithio. Gellir ei ddatblygu i ymdrin yn uniongyrchol â bylchau mewn darpariaeth trafniadaeth gyhoeddus a chreu buddiannau economaidd a chymdeithasol amlwg sy'n para.

Mae Cludiant Cymunedol yn hynod werthfawr i bobl nad oes ganddynt, am amryw o resymau, fynediad i gar neu gludiant cyhoeddus. Hefyd mae'n hynod bwysig mewn ardaloedd gwledig a threfol, ac yn darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion a sefyllfaoedd' Cyngor Sir y Fflint (2017).

Mae pobl hŷn yn defnyddio cynlluniau Cludiant Cymunedol yn amlach. Yng Nghymru, roedd gan 945 o sefydliadau cludiant cymunedol bobl hŷn fel defnyddwyr gwasanaeth yn 2013, cynnydd o 83% yn 2010 (Cymdeithas Cludiant Cymunedol, 2014).

Mae pwysigrwydd y sefydliadau hyn hefyd wedi'i amlygu gan y comisiynydd Pobl Hŷn (2014)

Mae Lindsay Haveland o'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA) yng Ngogledd Cymru wedi sylwi ar nifer o broblemau a all roi gwasanaethau mewn perygl yn y dyfodol.

Mae'r materion a nodwyd yn cynnwys:

- Ariannu
- Oedran y trefnwyr
- Trwyddedau D1 a chostau
- Anhyblygrwydd y ddeddfwriaeth sy'n atal sefydliadau rhag gwneud elw y gellir ei ddefnyddio i ehangu'r ddarpariaeth. Mae agwedd nid er elw adran 19 a 22 yn creu rhwystr i gyflawni cynaladwyedd ariannol ac o ganlyniad mae sefydliadau cludiant cymunedol yn dibynnu yn helaeth ar gymhorthdal ariannu/cludiant (Cymdeithas Cludiant Cymunedol, 2015).
- Gostyngiad yn nefnydd y gwasanaeth gan nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn gallu defnyddio eu cardiau teithio am ddim gyda darparwyr (penderfyniad LIC)
- Argaeledd Bathodynau Glas i weithredwyr. Bydd gan lawer o deithwyr eu rhai eu hunain, ond os nad oes, efallai y byddant ond yn gadael y tŷ pan fydd un o'r Gweithredwyr Cludiant Cymunedol yn mynd â nhw.

Mae dau sefydliad Cludiant Cymunedol yn Sir y Fflint, Welsh Border Transport a Cynllun Ceir Gwirfoddol Estuary.

Mae gan Gludiant Cymunedol Welsh Border chwe bws mini, a gall pedwar ohonynt gludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn. Bydd sefydliadau ac unigolion yn talu ffi aelodaeth fechan sy'n eu galluogi i archebu bws pan fyddant ei angen, i gymdeithasau, clybiau, cartrefi gofal ac eglwysi. Trefnir teithiau siopa i archfarchnadoedd lleol ar gyfer pobl hŷn, gyda chyllid gan Gyngor Sir y Fflint. Bydd y Cynllun Car Cymunedol yn mynd â phobl hŷn ac anabl ym Mwcle a Glannau Dyfrdwy i apwyntiadau meddygol. Mae'r holl yrwyr yn wirfoddolwyr sy'n defnyddio eu ceir eu hunain.

<http://www.flvc.org.uk/en/members/welsh-border-community-transport/>

Mae Cynllun Gofal Gwirfoddol Estuary yn elusen gofrestredig lle mae pob gyrrwr yn wirfoddolwyr di-dâl. Ar hyn o bryd mae gan y cynllun 8 cerbyd, a 6 ohonynt wedi'u trawsnewid i fedru derbyn cadair olwyn. NID yw'r cynllun yn wasanaeth tacsï a dylid archebu o leiaf wythnos cyn bod angen y cludiant. Mae gwasanaethau ar gael ar gyfer apwyntiadau meddygol, siopa ar gyfer pobl hŷn a gweithgareddau cymdeithasol.

<http://www.estuaryvoluntarycar.co.uk/index.html>

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu Cynlluniau Cludiant Cymunedol lleol. Mae darpariaeth newydd gael ei sefydlu yn Higher Kinnerton trwy'r Cyngor Cymuned fel rhan o gynllun peilot ar gyfer Prosiect Cludiant

Cymunedol Sir y Fflint. Bydd wyth ardal arall yn y sir yn ymuno â'r cynllun gan gynnwys Llaneurgain, Cei Connah, Penymynydd, Penyffordd, Bwcle, Treuddyn, Llanfynydd a Threffynnon (Deeside.com, 2017)

Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu pecyn gwaith sy'n 'ceisio cynorthwyo Cyngorau Cymuned a sefydliadau i ddatblygu cyfleoedd cludiant cymunedol' ac yn rhoi 'cyngor ac arweiniad er mwyn ystyried sefydlu darpariaeth cludiant cymunedol' (2017).

Mae adroddiad 2014 y CTA am gyflwr y sector yn amlinellu'r pwysau cynyddol ar Gludiant Cymunedol gyda nifer y milltiroedd teithwyr yn cynyddu o 4.3m yn 2010 i 6m yn 2013, a'r nifer teithiau yn cynyddu o 1.2m i 2m yn yr un cyfnod.

Cynhaliodd Cynulliad Cymru Ymholiad i Wasanaethau Bws a Chludiant Cymunedol yng Nghymru yn 2015. Gwnaeth y canfyddiadau, a gyhoeddwyd yn 2016, 12 o argymhellion, a chytunodd Llywodraeth Cymru i 9, dau mewn egwyddor, a gwrthod 1 (Llywodraeth Cymru, 2016).

Defnyddio yn lleol:

Mae angen rhannu'r gwaith cadarnhaol a wnaed gan Gyngorau Cymuned i ddatblygu cysylltiadau cymunedol yn eu hardal drwy gydol y rhwydwaith i annog eraill. Hefyd, gellir archwilio darparu Bathodynau Glas i Weithredwyr Cludiant Cymunedol.

7.14 Tai

Mae'r cysylltiadau rhwng tai gwael ac iechyd gwael wedi'u cofnodi ers hir. Mae'r BRE yn amcangyfrif bod costau tai gwael y gellir eu hosgoi i'r GIG wedi cynyddu o £600 miliwn yn 2010 i £1.4 biliwn (Nicol, Roys a Garrett, 2015). Os oedd buddsoddiad o £10 biliwn o bunnau i 'wella'r cyfan o'r 3.5 miliwn o gartrefi 'gwael' yn Lloegr, a byddai hyn yn arbed £1.4 biliwn i'r GIG yn y flwyddyn gyntaf o driniaeth yn unig' ac y byddai'r buddsoddiad hwn yn talu amdano'i hun mewn saith mlynedd gyda'r manteision yn parhau i'r dyfodol.

Mae nifer o raglenni a gwasanaethau cenedlaethol wedi'u hymrwymo i wella cyflyrau byw y mwyaf diamddiffyn. Mae Cartrefi Iach, Pobl Iach (HHHP) yn brosiect Cymru Gyfan ac mae gwaith yn cael ei wneud yn Sir y Fflint i wella iechyd a lles y rhai sy'n cymryd rhan. Mae swyddogion o Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor yn gweithio gyda staff rheng flaen gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd a Gweithwyr Cymdeithasol i adnabod pobl ddiamddiffyn a all fod angen cefnogaeth gyda'u hamodau byw. Bydd Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru yn parhau i ddarparu cartrefi iach i helpu mwy o breswylwyr (perchennog-breswylwyr). Defnyddir ffurflen asesu i atgyfeirio pobl at ffynonellau cymorth eraill a all gynnwys cyngor ar ddyledion, cefnogaeth gyda thenantiaeth, gwella cartrefi ac effeithlonrwydd ynni (NEA, 2017).

Mae NYTH, cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yn cynnig gwelliannau cartref am ddim i ymgeiswyr sy'n berchennog ar eu cartref neu'n ei rentu yn breifat, yn byw mewn eiddo sy'n aneffeithlon iawn o ran ynni ac yn cael budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd.

Mae Strategaeth Tai Lleol Sir y Fflint 2012-2017, yn nodi'r weledigaeth dros brofi tai fforddiadwy newydd, gwneud y defnydd gorau o'r tai presennol, gwella ansawdd

cartrefi ochr yn ochr â sut y mae'r Cyngor yn rhagweld helpu'r aelodau mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.

Ymhellach i ffwrdd, mae'r Lightbulb Project yn Swydd Gaerlŷr, yn gweithio i helpu pobl i aros 'yn ddiogel ac iach yn eu cartrefi yn hirach' (Housing Learning & Improvement Network, 2017). Wedi'i labelu fel rhaglen 'buddsoddi i arbed', mae'r agwedd wedi'i dargedu ac yn rhagweithiol ac yn cynnwys Meddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol iechyd/gofal eraill gan gynnwys y rhai mewn timau ardal integredig.

'Mae'r broses yn dibynnu ar asesiad cynnar a brysbennu materion tai yn y pwyntiau mynediad allweddol. Mae hyn yn cael ei ddarparu trwy fodel 'both a sbocen' gyda Tîm Ardal Lightbulb ym mhob ardal Cyngor Rhanbarth' yn cynnig:

- Mân Addasiadau ac offer
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Anghenion cefnogi tai ehangach (ynni, diogelwch yn y cartref)
- Iechyd a lles yn ymwneud â thai (Technoleg Gynorthwyol, atal codymau)
- Cynllunio i'r dyfodol (dewisiadau tai)
- Cyngor, gwybodaeth, cyfeirio yn ymwneud â thai
- Bydd y swyddogaethau cyffredin, canolog (rheoli, perfformiad, datblygu Lightbulb ayyb) yn y man canolog.

Bydd y gwasanaeth hefyd yn cynnwys Tîm Galluogi Tai Ysbyty sy'n seiliedig mewn ysbytai, iechyd llym a iechyd meddwl, yn Swydd Caerlŷr, i weithio i ddatrys materion a all fod yn rwystr i ryddhau ac atal ail dderbyn i'r ysbyty. Mae costau darparu yn tua £1m y flwyddyn yn erbyn arbediad posibl o £2m y flwyddyn i Swydd Gaerlŷr ac arbedion i'r economi iechyd ehangach. Mae 11% o'r cyfanswm achosion wedi'u dadansoddi ac mae 66% o'r rhain yn dangos lleihad yn nefnydd y gwasanaeth a lleihawyd costau Gofal Cymdeithasol i Oedolion cymaint â 23%, dau fis ar ôl yr ymyrraeth.

Mae hon yn ardal y gellir ei datblygu ymhellach trwy waith integredig a chydgyhyrchu. Argymhellir bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol yn cael ei fapio a'i werthuso i ddangos y manteision i'r aelwydydd.

Defnyddio yn lleol: Parhau i weithredu'r Rhaglen Cartrefi Iach, Pobl Iach a'r 'camau nesaf' a amlinellwyd yn yr adroddiad yn dilyn Cynhadledd CIPI yn 2017 a chymell mudiad 2025, sy'n ceisio lleihau anghydraddoldeb iechyd y gellir ei osgoi yng Ngogledd Cymru.

7.15 Cydweithredfa a modelau busnes amgen

Wrth i'r sector edrych tuag at agwedd fwy personol o ddarparu gofal, mae'n bwysig ystyried ffyrdd newydd o weithio. Mae cyfleoedd i ddatblygu mentrau micro ofal wedi'u harchwilio uchod, ond bydd dewisiadau pellach yn cael eu hamlinellu yma.

Mae'r adroddiad ymchwil, 'Perchen ar ein Gofal ein Hunain' yn archwilio datblygiad gofal cymdeithasol cydweithredol aml fudd-ddeiliad yn y DU (Co-operative College et al, 2017), ac yn darparu nifer o astudiaethau achos lle mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu yn wahanol gan ddefnyddio modelau gwahanol, gan gynnwys elusennau, cydweithredfeydd, a chwmnïau lles cymunedol.

Mae'r adroddiad yn dod i gasgliad trwy nodi nifer o wersi a ddysgwyd o'r prosesau a ddilynwyd gan y gwasanaethau a gyfwelwyd, a rhai argymhellion wrth i ni symud ymlaen. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn torri tir newydd yn ei ofyniad ar awdurdodau lleol i annog datblygiad gwasanaethau cymunedol sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr gwasanaeth, a bod y farn mai comisiynwyr sydd â'r mwyaf o bŵer yn y farchnad yn cael ei herio yn yr 'awdurdodau lleol mwyaf blaengar'.

Mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Canolfan Gydweithredol Gymreig i gynnal 'Gofalu a Chydweithredu' i gefnogi datblygiad cydweithredfeydd gofal cymdeithasol, consortia a mentrau cymdeithasol ledled Cymru. Cafodd y prosiect ei gefnogi gan ddatblygiad y Consortiwm Bywydau Cymunedol yn Ne Cymru, Cwmni Cyfyngedig trwy Warant gyda statws elusennol llawn, wedi'i gofrestru fel asiantaeth gofal yn y cartref sy'n cefnogi pobl ag anableddau (Canolfan Gydweithredol Gymreig, 2016).

Mae enghreifftiau o gartrefi gofal sy'n cael eu cynnal fel elusennau. Mae Brian Boxall-Hunt, sydd wedi cefnogi Belvedere House yn Surrey (Carehomeuk.co.uk, 2014) yn esbonio un o'r gwahaniaethau sylfaenol rhwng elusen a chartref gofal masnachol.

"Rydym yn sefydliad nid er elw a'n nod masnachol yw adennill costau, nid gwneud elw. Mae hyn yn golygu y gallwn roi popeth yn ôl i ofal a staff."

"Mae hyn yn golygu y gallwn gadw ffioedd a chostau yn isel ac ansawdd yn uchel. Rydym hefyd yn falch o dalu cyflog priodol i'n staff sydd ymhell uwchben yr isafswm cyflog ac yn uwch na'r cyflog byw. Mae ein trosiant staff hefyd yn isel – awgrym o staff hapus."

Mae'r Co-operative Life (TCL) yn gydweithredfa sy'n eiddo i weithwyr ac wedi'i leoli yn Sydney gan ddarparu gofal i'r henoed a phobl anabl. Mae gweithwyr yn cymryd rhan uniongyrchol yn y busnes mewn perthynas â chyflogau, rotas gwaith, hyfforddiant a phhecynnau gofal i unigolion. Bydd unrhyw elw yn cael ei ailfuddsoddi yn y busnes. <http://www.getmutual.coop/wp-content/uploads/2015/10/CHC.pdf>

Defnyddio yn lleol:

Gellir cyflwyno darparwyr lleol i'r posibilïadau sydd ar gael mewn gofal cymdeithasol trwy waith ar y cyd gyda chefnogaeth gan Care to Cooperate. Mae angen enghreifftiau pellach. Gall y Cyngor hefyd archwilio cyfleoedd i fuddsoddi mewn modelau llywodraethu eraill i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, er enghraifft, cynnal darpariaeth cartref gofal mewn partneriaeth â darparwyr annibynnol.

7.16 Cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol

Mewn cynhadledd diweddar, esboniodd un gweithiwr sut y dylem ddeall bod Gweithwyr Cymdeithasol yn 'gynghreiriaid' ac y dylem edrych ar ffyrdd o ddatblygu ac annog creadigrwydd mewn gwaith cymdeithasol.

Er ei fod yn anodd ei wneud oherwydd y pwysau dwys ar wasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid caniatáu i Weithwyr Cymdeithasol dreulio amser yn edrych ar yr ymchwil mwyaf diweddar sy'n dod o'r Sefydliad Polisi Gwaith Cymdeithasol ac eraill a gallu rhannu syniadau arloesol, yn enwedig gan bod y Ddeddf yn cyfeirio staff i weithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n arloesol. Ysgrifennodd y Prif Weithiwr Cymdeithasol Oedolion y canlynol yn 2014:

“Mae angen i weithwyr cymdeithasol wneud gwaith ymchwil i ddwysau eu hymarfer ac – yn hanfodol – cyfleoedd i'r “gweithlu cynnal goruchwyliaeth adlewyrchol a datblygiad proffesiynol parhaus gyda sicrwydd ansawdd” (Adran Iechyd, 2014).

Mae Gweithwyr Cymdeithasol angen mynediad i ddyddiaduron a rhannu gwybodaeth o hyfforddiant ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae enghreifftiau o strategaethau ymchwil gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaeth ymchwil gwaith cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r GIG.

Defnyddio yn lleol:

Gellir cynnal sgysiaau gyda thimau staff i weld sut y gellir datblygu hyn mewn ffordd ymarferol.

7.17 Cynhyrchu incwm

Mae llawer o Gynghorau yn symud tuag at agwedd fwy masnachol at weithredu i gydbwyso effaith toriadau i'r gyllideb. Daw enghraifft o Gyngor Dinas Sheffield a ddatblygodd tîm cynhyrchu incwm i edrych ar gyfleoedd o wneud y gorau o incwm ar draws y portffolios.

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Rhanbarth Gorllewin Lindsey 2016-2020 yn amlinellu sut y mae'n bwriadu datblygu 'agwedd fasnachol i ardaloedd sydd fel arfer yn cael cymhorthdal grant a buddsoddi yn y gymuned a'r sector gwirfoddol'.

Mae eraill wedi datblygu Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol (LATC). Mae'r rhain yn fusnesau preifat sy'n cael eu cynnal gan Gynghorwyr, ac yn gallu gweithredu fel gweithgareddau masnachol a chynhyrchu incwm y gellir eu defnyddio i ehangu'r busnes neu ail-fuddsoddi yng ngwasanaethau'r Cyngor. Enghraifft yma yw Tricuro, cwmni sy'n eiddo i Gynghorau Dorset, Bournemouth a Poole, gan ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasau ledled yr ardaloedd (Tricuro, 2017). Gobeithir trwy'r agwedd hon, y gall 'y tri chyngor gadw ansawdd ac ystod y gwasanaethau trwy rannu eu hadnoddau, yn ogystal â galluogi staff i weithio yn hyblyg ac yn effeithlon. Gall ddatblygu a gwella ei wasanaethau i ddarparu'r lefel briodol o ofal a chefnogaeth i ddiwallu anghenion pobl mewn cymunedau'. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys NorseCare, yn Norfolk.

Gwersi allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth ac arloesi mewn llywodraeth leol

Gellir crynhoi'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer entrepreneuriaeth cyhoeddus sy'n deillio o'r astudiaeth fel a ganlyn:

- Gall rheolwyr entrepreneuriaid feithrin diwylliant masnachol ymysg staff. Gall cymryd agwedd rhagweithiol at ehangu ac arallgyfeirio gymell arloesi.
- Gall ymrwymiad i werthfawrogi a datblygu'r gweithlu fynd law yn llaw ag entrepreneuriaeth cyhoeddus.

- Canolbwyntio ar gynhyrchu incwm fel modd o gynhyrchu buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol.
- Sicrhau atebolrwydd democrataidd a throsolwg o sefydliadau cyhoeddus newydd.
- Achub y blaen a mynd i'r afael â'r risg yn y model busnes i weithgareddau newydd.
- Archwilio pwerau cyfreithiol presennol fel dull o fod yn gatalydd i weithgareddau entrepreneuriaidd.
- Manteisio yn llawn ar gyfleoedd entrepreneuriaidd i weithredu fel stiwardiaid economïau a chymunedau lleol

Ffynhonnell: Municipal Entrepreneurship (APSE, 2012).

Defnyddio yn lleol: Gall Cyngor Sir y Fflint archwilio cyfleoedd i ddatblygu agwedd mwy masnachol a chanfod cyfleoedd i gynhyrchu incwm.

7.18 Ailalluogi

Mae ailalluogi yn rhaglen asesu a chefnogi tymor byr, wedi'i gynllunio i helpu pobl i adennill neu gynnal eu hannibyniaeth. Mae ailalluogi yn adeiladu ar yr hyn y gall unigolion ei wneud. Yn Sir y Fflint, mae ailalluogi yn wasanaeth am ddim am gyfnod amser byr. Gall hyn fod yn wythnos neu uchafswm o chwe wythnos, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn. Mae ail-alluogi ceisio cynyddu annibyniaeth hirdymor, dewis ac ansawdd bywyd.

Mae tystiolaeth a amlinellwyd yn ymchwil SCIE ar ailalluogi (2014) yn awgrymu bod yr agwedd hon yn cael effaith hirdymor sylweddol ar y derbynydd. Er enghraifft, mewn un astudiaeth, nid oedd 76% o ddefnyddwyr ailalluogi angen gwasanaethau hyd at bedwar mis ar ôl cwblhau. Mae'r briff yn amlinellu ymchwil pellach i'w ystyried.

Ar hyn o bryd, mae risg i'r capasiti ailalluogi lleol gan fod y tîm yn gwneud gwaith lle nad oes capasiti mewn darparwyr gofal yn y cartref, sy'n cael effaith ar gapasiti.

Defnyddio yn lleol:

Hyrwyddo agweddau ailalluogi mewn gwasanaethau ac i'r sector annibynnol. Gellir cefnogi'r sector gyda hyfforddiant a gwybodaeth i'w galluogi i ddefnyddio hyn fel rhan o'u gwaith.

7.19 Aseswyr Cyfrifol

Mae asesiadau amserol yn hanfodol i ddarparu'r gofal cywir, ar yr adeg cywir. Weithiau, mae hyn yn anodd ei wneud oherwydd capasiti a gall arwain at oedi wrth ddarparu neu drosglwyddo gofal. Gallai rhaglenni Aseswyr Cyfrifol ddarparu ateb i'r oedi hyn. Mae aseswyr cyfrifol yn gweithio 'ar ran a gyda chaniatâd y darparwr' i gynnal yr asesiadau.

Mae NHS Improvement (2017) yn nodi bod 'asesiad cyfrifol yn elfen allweddol o arfer gorau wrth leihau oedi i drosglwyddo gofal rhwng yr ysbyty a'r cartref' a gall atal gorfod cynnal amryw o asesiadau. Mae'r ddogfen 'Datblygu cynlluniau asesu cyfrifol: elfennau hanfodol' yn amlinellu meini prawf craidd i'w hystyried ar gyfer asesiad cyfrifol a gellir ei addasu fel arweiniad ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

I greu model aseswr cyfrifol y gellir ymddiried ynndo, dylai cartrefi gofal ac ysbytai gyd-gynllunio a chytuno ar brotocol neu Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer asesiadau, gan ddogfennu pwy all eu cynnal, pa gymhwysedd sydd eu hangen, sut y byddant yn cael eu darparu, beth fydd y mecanweithiau adolygu a beth fydd yn digwydd os yw'r gwasanaeth derbyn yn barnu bod yr asesiad yn ddiffygiol.

Ffynhonnell: NHS Improvement (2017) Rapid improvement guide to trusted assessors.

Defnyddio yn lleol: Gall partneriaid ganfod cyfleoedd lle gall gwasanaethau gynnal asesiadau ar eu rhan.

7.20 Taliadau Uniongyrchol

Mae'r taliad uniongyrchol, mewn cydweithrediad â Chynllun Gofal a Chefnogaeth yr unigolyn, yn rhoi mwy o ddewis i'r person a rhoi gwell rheolaeth iddynt ynglŷn â sut y diwellir eu hanghenion cefnogi. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016 yn hyrwyddo defnydd taliadau uniongyrchol.

Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys cefnogi pobl gydag Anableddau Dysgu i reoli eu gofal a chomisiynu darparwyr gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gweithio mewn partneriaeth gyda thri dyn ifanc a'u darparwr cefnogi dewisol i gyfuno eu taliadau uniongyrchol a chomisiynu model newydd ar gyfer byw â chymorth gyda'r nod o gefnogi gwell annibyniaeth, diwylliant galluogi risg cadarnhaol, gwell defnydd o'r dechnoleg sydd ar gael a chefnogaeth sydd wedi'i deilwra i anghenion dysgu a datblygu unigol.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn comisiynu Ymddiriedolaeth Penderel ar hyn o bryd i roi cefnogaeth i rai sy'n cael taliadau uniongyrchol. Mae'r gwasanaethau darparwyr ar gael i rai sy'n cael taliad uniongyrchol gan Gyngor Sir y Fflint a phobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau ac sydd â diddordeb yn y cynllun. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys:

- Cefnogi a galluogi'r rhai sy'n cael taliad uniongyrchol i gynnal eu taliadau uniongyrchol personol a pharhau i'w rheoli yn effeithiol.
- Cyfrannu at ddatblygiad y cynllun taliadau uniongyrchol yn Sir y Fflint trwy bartneriaeth gyda phob budd-ddeiliad a gwerthfawrogi'r cyfraniadau unigryw y gall pawb eu gwneud.
- Cefnogi a galluogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i fyw'n annibynnol
- Grymuso pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i gymryd rheolaeth o'u bywydau eu hunain
- Galluogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i wneud dewisiadau ynglŷn â'u gofal neu eu cefnogaeth eu hunain

Mae'r gwasanaeth yn cyflawni hyn trwy:

- Gynnig gwybodaeth
- Eirioli (ar faterion taliadau uniongyrchol). Gall y darparwr hefyd gyfeirio unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol at wasanaethau eirioli a ddarperir gan asiantaethau eraill
- Darparu a/neu drefnu hyfforddiant a chefnogaeth ym mhob cam o'r broses cynllun taliadau uniongyrchol. Cynorthwyo unigolion sydd eisoes yn cael

taliadau uniongyrchol i gynnal gwiriadau atebolrwydd a gofynion cytundebol y Cynllun fel y nodwyd yn y 'Cytundeb Cynllun Taliadau Uniongyrchol'.

- Rhoi cefnogaeth ar gyfer hyfforddi ymarferwyr ynglŷn â thaliadau uniongyrchol

Yn yr arolwg boddhad taliadau uniongyrchol 2016 (Cyngor Sir y Fflint, 2016), penderfynodd y rhan fwyaf gymryd taliadau uniongyrchol oherwydd eu bod eisiau 'rheolaeth dros ofal personol' (29.5%) ac yna 'Cael annibyniaeth, sgiliau cymdeithasol a seibiant i ofalwyr' (21.7%).

Mae Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru wedi datblygu Polisi Taliadau Uniongyrchol Rhanbarthol fel y fframwaith cyffredinol y bydd gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yn cyfeirio ato wrth alluogi pobl i gymryd gwell rheolaeth o'u datrysiadau cefnogi trwy daliad uniongyrchol.

Defnyddio yn lleol:

Datblygu canllawiau gweithredol lleol i weithredu'r Polisi Taliadau Uniongyrchol.

7.21 Cymorthyddion Personol (CP)

'Cymhorthydd personol' (CP), yw rhywun sy'n cael ei gyflogi yn uniongyrchol gan berson sydd angen gofal a chefnogaeth. Gallant hefyd gael eu cyflogi gan aelod o'r teulu neu gynrychiolydd pan nad oes gan y person y maent yn eu cefnogi y galluedd corfforol neu feddyliol i fod yn gyflogwr. Mae CP bob amser yn gweithio yn uniongyrchol gyda'r unigolyn y maent yn eu cefnogi, mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person, i'w galluogi i fyw eu bywyd yn unol â'u dymuniadau a'u diddordebau' (SCIE, 2017).

Amcangyfrifodd Sgiliau Gofal, erbyn 2016, bod tua 70,000 o'r 235,000 o oedolion a phobl hŷn sy'n cael taliad uniongyrchol yn cyflogi eu staff eu hunain yn uniongyrchol, a fyddai'n creu 145,000 o swyddi PA.

Sefydlwyd rhwydwaith yn lleol i alluogi gweithwyr PA i gael cefnogaeth gan eu cyfoedion.

Ar hyn o bryd, does dim awgrym y bydd y gofynion a nodwyd trwy'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cael ei ymestyn i'r Cymhorthwyr Personol, er y gellir cymharu eu swyddi ar adegau i'r rhai sy'n gweithio mewn gofal yn y cartref. Nid yw hyn yn golygu na fydd yn digwydd yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gefnogi gweithwyr CP os ydynt wedi'u heffeithio gan newidiadau deddfwriaethol.

Ar hyn o bryd mae Penderel yn darparu gwasanaeth canfod CP sy'n gofrestr ar-lein o weithwyr PA sy'n chwilio am waith. Gall weithwyr sy'n chwilio am CP gael mynediad i'r gronfa ddata.

Defnyddio yn lleol:

Gellir ymestyn y porth darparwyr i gynnwys Cymorth Personol i helpu i hwyluso'r rhwydwaith a rhannu gwybodaeth am y swyddogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael. Gellir datblygu cydweithredfeydd bychan o gymhorthwyr personol.

7.22 Gofal Canolradd

Gyda'r GIG a'r darparwyr gofal yn teimlo'r pwysau hyn, mae'n rhaid i ni edrych ar atebion arloesol ar y cyd lle bydd pobl yn gallu aros yn eu cartrefi am yn hirach a lleihau'r amser y bydd pobl yn ei dreulio yn yr ysbyty pan fyddant yn well ond ddim yn barod i ddychwelyd adref. Mewn data a gynhyrchwyd gan Ystadegau Cymru, roedd 125 o bobl yn destun trosglwyddiadau wedi'u hoedi o Sir y Fflint rhwng Ionawr a Gorffennaf 2017. Mae Gofal Canolraddol yn ceisio pontio'r bwch rhwng yr ysbyty a'r cartref.

Diffiniadau a Gofal Canolraddol:

- Gall gofal canolraddol ddarparu gofal dros dro am ddim am hyd at chwe wythnos, naill ai gartref neu mewn cartref preswyl yn dilyn arosiad mewn ysbyty (Which, 2016). Mae'n gyfleuster cam i lawr o ofal medrus, ac mae'r gofal yn cael ei ddarparu gan nyrsys ymarferol neu gofrestrdedig trwyddedig (Highland Risk, 2014).
- 'Mae gwasanaethau gofal canolraddol yn cael eu darparu i gleifion, sy'n bobl hŷn fel arfer, ar ôl iddynt adael yr ysbyty neu pan fyddant mewn perygl o gael eu hanfon i'r ysbyty' (SCIE, 2017)

Gall gofal canolraddol ddarparu gwell canlyniadau i bobl a lleihau'r pwysau ar ysbytai a'r system ofal (Rhwydwaith Meincnodi'r GIG, 2015).

- Dychwelodd 70% o'r bobl a gafodd ofal canolraddol ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, i'w cartref eu hunain
- Gwnaeth 92% gynnal neu wella eu sgôr dibyniaeth
- Ni wnaeth 72% symud i leoliad gofal mwy dibynnol

Prynodd Ysbyty Rhanbarth Yeovil 18 o welyau yng nghartref nyrsio Somerset Care yn Yeovil (Cooksons Court) i fod yn welyau ailsefydlu gofal canolradd. Mae Aelodau Tîm Ailsefydlu'r ysbyty yn gweithio ochr yn ochr â nyrsys Somerset Care fel tîm sengl. Maent yn adnabod ac asesu cleifion mewn ysbyty i benderfynu ar nodau canlyniadau a, gyda chaniatâd, eu trosglwyddo i Cooksons Court am gyfnod deng niwrnod o ailsefydlu dwys. Ar ddiwedd y cyfnod byddant yn cael eu hasesu a'u rhyddhau i'r cartref, gyda neu heb ofal cartref a chefnogaeth, fel sy'n ofynnol.

Nodau cyffredinol y cydweithredu oedd gwella llif cleifion yn Ysbyty Rhanbarth Yeovil, lleihau hyd yr arhosiad ysbyty, cael y canlyniadau clinigol gorau i gleifion a lleihau costau gofal parhaus.

Mae'r rhaglen yn cael effaith sylweddol, gyda:

- 402 o dderbyniadau i Cooksons Court erbyn Ebrill 2017
- Cafodd 95 y cant o bobl eu rhyddhau gartref o Cooksons Court
- Roedd 42 y cant o gleifion angen lleihad yn eu pecynnau gofal cartref a amcangyfrifwyd ar ôl gadael
- Arbedion o £1.6 miliwn mewn costau gofal parhaus i'r awdurdod lleol
- Mae adborth gan bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn dangos i ba raddau y maent wedi gwerthfawrogi gofal ac arbenigedd staff.

Defnyddio yn lleol:

Wrth ystyried yr estyniad i un o gartrefi gofal mewnol Sir y Fflint, gellir darparu ar gyfer datblygu gofal canolraddol mewn gwelyau.



8 Argymhellion

8.1 Sylw ar unwaith

- Llunio ein hachos i Lywodraeth Cymru i gael i gael adnoddau cynyddol i'r sector.
- Rhannu'r dysg o'r adroddiad hwn gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid.
- Parhau i gynnwys ein Partneriaid Gofal Cymdeithasol wrth ddatblygu ein hagweddau lleol i gefnogi'r sector.
- Mae angen data pellach ar fodelau busnes presennol mewn gofal cymdeithasol (gan gynnwys modelau menter gymdeithasol fel cwmnïau lles cymunedol, a pherchnogaeth trydydd sector). Nid yw'r wybodaeth yn cael ei chasglu ar hyn o bryd. Cyngor Sir y Fflint i lobïo AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru i gasglu'r data hwn yn dilyn y pwyslais a roddwyd ar y rhain trwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Y Cyngor i gefnogi datblygiad prentisiaethau a lleoliadau mewn darparwyr annibynnol a lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno cefnogaeth bellach ar gyfer hyfforddi staff gofal cymdeithasol oherwydd y pwysau a all fod ar y sector trwy gyflwyno rheoliadau newydd.
- Lobïo Llywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth ar draws y gweithlu ynglŷn â phobl o'r UE sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol a monitro effeithiau Brexit.
- Cynnal astudiaethau dichonoldeb yn edrych ar:
 - micro-ofal
 - Consortiwm Prynu
 - Llyfrgell Asedau
- Y Cyngor i weithio gyda'r Rhwydwaith Lles Trydydd Sector i ddatblygu cyfleoedd i Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Trydydd Sector roi adborth i'r Cyngor ar unrhyw faterion sy'n codi a datrysiaidau i alluogi gwell cyfathrebu.
- Y Cyngor i barhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Llesiant Trydydd Sector a phartneriaid eraill i fapio a deall y defnydd lleol cyfredol o fodelau Rhagnodi Cymdeithasol.
- Cyngor Sir y Fflint i archwilio darparu Bathodynau Glas i Weithredwyr Cludiant Cymunedol.

8.2 Sylw Tymor Canolig

- Dylai Cyngor Sir y Fflint roi sylw pellach i'r rhaglenni a amlinellwyd yn adran 6.
- Parhau i gefnogi'r Ymgyrch Marchnata a Recriwtio Lleol
- Dylai'r Cyngor ystyried buddsoddi mewn recriwtio unigolyn graddedig marchnata i ddatblygu'r ymgyrch ar gyfer y sector gofal cymdeithasol ymhellach gyda'r gyllideb a ddyrannwyd
- Datblygu dealltwriaeth glir o gymhlethdodau trefniadau comisiynu ar gyfer gofal cymdeithasol mewn partneriaeth â Swyddogion Caffael, fel bod gan bawb well dealltwriaeth o'r sector, cyd gynhyrchu, meddwl sy'n canolbwyntio ar y person a buddion cymunedol.
- Mewn partneriaeth, datblygu agwedd lle mae sgysiau MECC a Yr Hyn Sy'n Bwysig wedi'u halinio, a datblygu ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus i rannu'r pethau hyn gyda phobl yn y gymuned, a all wedyn gyfeirio a chefnogi'r dinesydd i gael cefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion.
- Sefydlu rhwydwaith neu grŵp hyfforddiant ar y cyd i ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant ar draws Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Trydydd Sector, gan leihau dyblygu a gwneud y gorau o sgiliau ac arbenigedd bob partner.
- Dylai'r Cyngor ddatblygu arolwg ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol lleol cyfan i gyfrannu at faterion, pryderon, datrysiadau ac enghreifftiau o ymarfer arloesol.
- Datblygu ac adolygu ein Datganiad Sefyllfa Marchnad. Disgwylir ymgynghori ar y rheoliadau yn ymwneud â hyn yn ystod haf 2018 fel rhan o'r ymgynghoriad Cam 3 ar y rheoliadau ar gyfer Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
- Adolygu cyflwr presennol y marchnadoedd gofal preswyl a gofal yn y cartref yn flynyddol a monitro unrhyw broblemau sy'n codi gyda darparwyr, gan edrych ar roi cefnogaeth lle gallwn.
- Cyngor Sir y Fflint i ddatblygu adroddiad yn ystyried y newidiadau mewn deddfwriaeth, cyllid a chefnogaeth mewn 12-18 mis.

8.3 Sylw Tymor Hir

- Cefnogi darparwyr, os yw'n briodol, i ystyried datblygu Cymdeithas Gofal Lleol gan gynnwys consortiwm prynu a dathliad o lwyddiannau'r sector.

Cyfeiriadau:

ADASS (2016) Arolwg Technoleg a Gweithlu- Adroddiad Interim Ebrill 2016
<https://www.adass.org.uk/media/5355/technology-and-workforce-survey-report-final.pdf>

Allen et al (2014) Homeshare Scheme. Leeds Beckett University
https://www.leedsbeckett.ac.uk/-/media/files/research/homeshare_project_report.pdf?la=en

Apples and Honey (2017) Nursery and Pre-School
www.applesandhoneynightingale.com

APSE (2012) Municipal Entrepreneurship
<http://www.apse.org.uk/apse/index.cfm/research/current-research-programme/municipal-entrepreneurship/municipal-entrepreneurship/>

Atkinson et al (2016) Ffactorau sy'n effeithio recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn y cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal. Prifysgol Metropolitan Manceinion. Llywodraeth Cymru. <http://gov.wales/statistics-and-research/factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers/?skip=1&lang=cy>

B. Farrington and K. Lysons, 'Purchasing and Supply Chain Management' (7th ed.), Pearson Education Ltd, 2006

Barker, K (2014) A new settlement for health and social care: Final report. The King's Fund <https://www.kingsfund.org.uk/publications/new-settlement-health-and-social-care>

BBC News (2017) UK's first nursery in care home to open in London
<http://www.bbc.co.uk/news/av/uk-40575379/uk-s-first-nursery-in-care-home-to-open-in-london>

Beth Johnson Foundation (2017) Ageing in the UK Now: A Snapshot of Current Research <https://www.bjf.org.uk/>

Bolton J et al (2017) Six Innovations in Social Care.
<http://helensandersonassociates.co.uk/wp-content/uploads/2017/03/6innovationsinsocialcare.pdf>

Briff CLILC (2016): Buddsoddi mewn Gwasanaethau Cymdeithasol: Galw am arian ychwanegol yn dilyn Datganiad yr Hydref
<http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&fileid=685&mid=665>

British Red Cross (2017). Community Navigator News, Issue 1. January – March 2017

Bwrdd Gwasanaethau cyhoeddus Sir y Fflint (2017) Fframwaith Ysbrydoli Cymunedau Gwydn: Haniaethol (Drafft).

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2016) Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru <http://www.northwaleseab.co.uk/north-wales-plan-for-jobs-and-business-growth-unveiled/?lang=cy>

Campaign to End Loneliness (2017) Threat to health
<https://www.campaigntoendloneliness.org/threat-to-health/>

Canolfan Gydweithredol Gymreig (2016) Astudiaeth Achos Gofalu i Gydweithredu – Consortiwm Bywydau Cymunedol <https://wales.coop/wp-content/uploads/Community-Lives-Consortium-Case-Study.pdf>

Carehomeuk.co.uk (2014) Profile: Keeping a charity care home afloat
<https://www.carehome.co.uk/news/article.cfm/id/1563486/profile-keeping-a-charity>

Carers UK (2015) Valuing Carers 2015 – The rising Value of Carers Support.
<http://www.carersuk.org/for-professionals/policy/policy-library/valuing-carers-2015>

CBSW (2017) Asiantau Cymunedol.
https://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/social_services/community_agents.htm

Cera (2017) Cera a dyfodol gofal <https://www.joincera.com/technology>

Cole A. (2015) Could local authority trading companies save social care? Guardian
<https://www.theguardian.com/social-care-network/2015/oct/14/could-local-authority-trading-companies-save-social-care>

Comisiwn Llywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014) Adroddiad Llawn Comisiwn Llywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus
<http://gov.wales/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-summary-report-cy.pdf>

Comisiynydd Pobl Hŷn (2014) Pwysigrwydd a Dylanwad Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru
http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Pwysigrwydd_ac_Effaith_Gwasanaethau_Cymunedol_yng_Nghymru.sflb.ashx

Community Agents Essex (2017i) Community Agents Essex - Supporting Independent Living <https://www.communityagentsessex.org.uk/>

Community Agents Essex (2017ii) Essex Performance Data Year 3- 1/4/2016 to 31/3/2017 [https://www.communityagentsessex.org.uk/docs/Essex%20Y3\(2\).pdf](https://www.communityagentsessex.org.uk/docs/Essex%20Y3(2).pdf)

Community Care (2013) The social workers' guide to micro-providers in social care
www.communitycare.co.uk/2013/06/10/the-social-workers-guide-to-micro-providers-in-social-care/rprise

Community Catalysts (2017) Community-led care and health enterprises working together to tackle homecare challenges <https://www.communitycatalysts.co.uk/wp-content/uploads/2010/09/v2-Community-care-and-health-enterprises-working-at-scale-Feb-2017.pdf>

Co-operative College et al (2017) Owing our Care
https://www.uk.coop/sites/default/files/uploads/attachments/care_report.pdf

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru (NWSCWSIC) (2017) Aseiad Poblogaeth Gogledd Cymru.
<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/North-Wales-Population-Assessment.aspx>

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru (2017) Strategaeth Gweithlu Gofal ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru
<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/gweithlu/strategaeth/>

Cyngor Gofal Cymru (2015) a Phartneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) casglu data'r gweithlu 2015: y canfyddiadau. Caerdydd: Cyngor Gofal Cymru. <http://www.unedddatacymru.gov.uk/scwdp-workforce-data-collection-2015>

Cyngor Sir y Fflint (2012) Strategaeth Tai Lleol Sir y Fflint 2012-2017: Cartref o Ansawdd i Bawb <http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Housing/Housing-Strategy.pdf>

Cyngor Sir y Fflint (2016) Arolwg Bodlonrwydd Taliadau Uniongyrchol 2016

Cyngor Sir y Fflint (2016) Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint 2016-2020 Crynodeb <http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Social-Services/Heneiddion-Dda-yn-Sir-y-Fflint.pdf>

Cyngor Sir y Fflint (2016) Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint 2016-2020 Crynodeb...gwneud Sir y Fflint yn lle da i heneiddio i bawb
<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Social-Services/Heneiddion-Dda-yn-Sir-y-Fflint.pdf>

Cyngor Sir y Fflint (2016) Sector Gofal Preswyl Sir y Fflint 2015-2020: Heriau Cyfredol ac a Ragwelir, a Dewisiadau i'r Dyfodol. Cyngor Sir y Fflint.

Cyngor Sir y Fflint (2017) Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 <http://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Social-Services/Social-Services-Annual-Report-2016-17-Welsh.pdf>

Cyngor Sir y Fflint (2017) Cludiant Cymunedol yn Sir y Fflint
<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Community-Transport-in-Flintshire.aspx>

Cyngor Sir y Fflint (2017) Pecyn Gwaith Cludiant Cymunedol

Cymdeithas Cludiant Cymunedol (2014) Adroddiad Cyflwr Sector CTA – Cymru 2014.
<http://www.ctauk.org/UserFiles/Documents/In%20Your%20Area/Wales/State%20of%20the%20Sector%20Wales%20Welsh%20version.pdf>

Cymdeithas Cludiant Cymunedol (2015) Ymateb Ymgynghori Gwasanaethau Bws a Chludiant Cymunedol yng Nghymru

Dahlgren, G. and Whitehead, M. (2007) European Strategies for tackling the social inequalities in health
http://www.euro.who.int/_data/assets/pdf_file/0018/103824/E89384.pdf

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i Lywodraeth Cymru.

Deeside.com (2017) Ar y bws yn Sir y Fflint – Cynllun Cludiant Cymunedol newydd ar y lôn <http://www.deeside.com/flintshire-gets-buses-community-transport-scheme-gets-underway/>

Department for Work and Pensions (2017) Guidance: Help and support for older workers <https://www.gov.uk/government/publications/help-and-support-for-older-workers/help-and-support-for-older-workers>

Department of Health (2014) Annual Report by the Chief Social Worker for Adults: One Year On.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/368485/Annual_report_2014_web_final.pdf

East Sussex (2017) Micro Provider Directory.

Eastwood, N (2017) Lessons from the US: Recruiting the over 55's
<http://stickypeople.co.uk/lessons-from-the-us-recruiting-the-over-55s-to-address-workforce-shortages/>

Generations United (2005) Under One Roof: A Guide to Starting and Strengthening Intergenerational Shared Site Programs <https://s3.amazonaws.com/pushbullet-uploads/ujzNDwQrsR2-FU6mFaxJ6i35ga24xorjysU9FJj7oKD1/05-SharedSites-Report-UnderOneRoof.pdf>

Generations United (2006) Intergenerational Sites: Making the Case
<https://s3.amazonaws.com/pushbullet-uploads/ujzNDwQrsR2-6SbXP6DymyhHqaYQyP7SqMWFbi7IVwTO/06-SharedSites-Report-MakingTheCase.pdf>

FLVC (2016) Adolygiad Blynyddol 2015/16: Dathliad Gwirfoddoli
<http://www.flvc.org.uk/wp-content/uploads/2012/10/Annual-Report-2016-final.-1.pdf>

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) Trawsnewid Gofal yn y 21ain Ganrif: Dogfen Ymgynghori <https://gofalcymdeithasol.cymru/ymgyngoriadau/gweddnewid-gofal-yn-yr-21ain-ganrif>

Government Office for Science (2016) Future of an Ageing Population
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/535187/gs-16-10-future-of-an-ageing-population.pdf Mynediad 05/07/17

Guardian (2006) Second careers and the third age: you're only as old as your new job

<https://www.theguardian.com/business/2006/jan/19/workandcareers.changingjobs>

Guardian (2017) Why young people are renting rooms in a Helsinki care home

https://www.theguardian.com/society/2017/jun/21/young-people-renting-rooms-helsinki-care-home?CMP=share_btn_tw

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 (2016) Pwysau ar Wasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol. Pwysau ariannol, y galw a phwysau cost eraill hyd 2025 ac adolygiad o atebion posibl

<http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2016/03/Mark-Jeffs-WPS2025-Full-Report1.pdf>

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 (2017) A all Cymru lenwi'r bwlch ariannu gofal cymdeithasol? <http://www.walespublicservices2025.org.uk/2017/03/23/can-wales-fill-the-social-care-funding-gap/>

Gwefan Community Catalysts <https://www.communitycatalysts.co.uk/>

Haringey (2017) Social Worker benefits and support

<http://www.haringey.gov.uk/jobs-and-training/jobs-childrens-social-work/social-worker-benefits-and-support#housing>

Health Homes, Healthy People (2017) Stronger Together – Healthy Homes Healthy People Conference Report 2017

Heneiddio'n Dda yng Nghymru (2014) Heneiddio'n Dda yng Nghymru 2014-19: Sicrhau bod Cymru yn lle da i bawb dyfu'n hŷn

<http://www.ageingwellinwales.com/Libraries/Documents/AWFinalWelsh.pdf>

Highland Risk (2014). The benefits of care provided the elderly in intermediate care facilities.

http://www.highlandrisk.com/index.php?option=com_content&view=article&id=90:the-benefits-of-care-provided-the-elderly-in-intermediate-care-facilities&catid=7:blog&Itemid=223

Holtham, G (2017) The promise of social care: Why Wales needs a community insurance fund and how to organise it.

Homeshare UK (2016) Homeshare Good Practice Guide

<https://homeshareuk.org/hs-goodpracticeguide/>

Homeshare UK (2017) Homeshare UK Website <https://homeshareuk.org/>

HomeshareUK (2017) Shared Lives Plus <https://homeshareuk.org/about-sharedlives-plus/>

Housing Learning & Improvement Network (2017) The Lightbulb Project: Switched on to integration in Leicestershire

https://www.housinglin.org.uk/assets/Resources/Housing/Practice_examples/Housing_LIN_case_studies/HLIN_CaseStudy_135_Lightbulb_Project.pdf

Institute of Public Care (2016) Transforming social care through the use of information and technology. Oxford Brookes University. Local Government Association

<https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Transforming%20social%20care%20through%20the%20use%20of%20information%20and%20technology%20November%202016.pdf>

IPC (2016) Transforming social care through the use of information and technology Oxford Brookes University.

<https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Transforming%20social%20care%20through%20the%20use%20of%20information%20and%20technology%20November%202016.pdf>

KHT Homeshare (2017) <http://homeshare.k-h-t.org/> Mynediad 10/07/17

Local Area Coordination Network (2015) Beth ydyw? <http://lacnetwork.org/local-area-coordination/what-is-local-area-coordination/> Mynediad 27.06.17. Sut mae'n gweithio? <http://lacnetwork.org/local-area-coordination/how-does-it-work/>

Luchinskaya D. et al (2017) A delicate balance? Health and Social Care spending in Wales. Wales Public Services 2025

http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2017/03/Wales-health-and-social-care-final_amended_04-2017.pdf

Llywodraeth Cymru (2016) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 <http://gov.wales/topics/health/socialcare/regulation/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2016) Ymateb Llywodraeth Cymru <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10661/gen-ld10661-e.pdf>

Llywodraeth Cymru (2016) Ymgynghoriad gwella recriwtio a chadw Gweithwyr Gofal yn y Cartref yng Nghymru – crynodeb yr ymateb

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation_doc_files/161117domiciliary-consultation-responsescy_0.pdf

Llywodraeth Cymru (2017) £10m y flwyddyn yn fwy ar gyfer gofal cymdeithasol

<http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/10m-a-year/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2017) Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Adroddiad Interim

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/review/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017

<http://gov.wales/docs/statistics/2017/170505-future-trends-report-2017-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol).

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2cy.pdf>

Mynediad 30.06.17

NAAPS (2009) Supporting Micromarket Development: A Concise Practical Guide for Local Authorities. Department of Health

https://www.thinklocalactpersonal.org.uk/assets/Resources/Personalisation/Personalisation_advice/SSMSCSEconciseguide.pdf

NAAPS (2011) Homeshare Practice Guide <http://homeshare.org/wp-content/uploads/2012/04/UK-Homeshare-Good-Practice-Guide-2011.pdf>

NEA (2017) Healthy Homes, Healthy People <http://www.nea.org.uk/hip/healthy-homes-healthy-people/>

Needham C. et al (2015) Micro-Enterprises: Small enough to care? Economic & Social Research Council. University of Birmingham.

<http://www.birmingham.ac.uk/Documents/college-social-sciences/social-policy/HSMC/research/micro-enterprise/Micro-enterprise-full-report,-final.pdf>

NEWCIS (2017) Summer Newsletter 2017 <http://www.newcis.org.uk/wp-content/uploads/2017/05/Newsletter-Summer-17.pdf>

NHS (2016) MECC Factsheet

<http://www.makeeverycontactcount.co.uk/media/1129/mecc-factsheet.pdf>

NHS Benchmarking Network (2015) National Audit of Intermediate Care Summary Report 2015: Assessing progress in services for older people aimed at maximising independence and reducing use of hospitals

NHS England (2016) New Care Models: Vanguard – Developing a blueprint for the future of NHS and care services. https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2015/11/new_care_models.pdf

NHS Improvement (2017) Developing trusted assessment schemes: essential elements

https://improvement.nhs.uk/uploads/documents/Trusted_assessment_FINAL_2.pdf

NHS Improvement (2017) Rapid improvement guide to trusted assessors

https://improvement.nhs.uk/uploads/documents/ECIP_RIG_Trusted_assessors_March2017.pdf

Nicol, Roys and Garrett (2015). The cost of poor housing to the NHS. Building Research Institute (BRE) Trust. <http://www.scie-socialcareonline.org.uk/the-cost-of-poor-housing-to-the-nhs/r/a11G000000AetVSlAZ#>

OECD (2016) OECD Reviews of Health Care Quality: United Kingdom 2016 - Raising Standards <http://www.oecd.org/unitedkingdom/oecd-reviews-of-health-care-quality-united-kingdom-2016-9789264239487-en.htm>

ONS (2017) Statistical bulletin: Internet users in the UK: 2017

<https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/bulletins/internetusers/2017>

Osterly Associates (2017) Business Sustainability Of Care Homes In Flintshire

Portsmouth Shared Lives Service (2015)

http://www.cqc.org.uk/sites/default/files/new_reports/AAA2581.pdf

Prifysgol Abertawe (2016) Mentrau Cymunedau Lleol yn y Bae Gorllewinol:

Adroddiad Crynodeb Gwerthuso Ffurfiannol <http://lacnetwork.org/swansea-university-evaluation/>

Prime Cymru (2017) gwefan Prime Cymru <http://www.primecymru.co.uk/?lang=cy>

Providence Health Services (2017). The Intergenerational Learning Center.

<http://washington.providence.org/senior-care/mount-st-vincent/services/child-care/>

Providence Mount St. Vincent (2017) Providence Mount St. Vincent & its Intergenerational Programming

<http://washington.providence.org/~media/files/providence/senior%20care/mount%20st%20vincent/providencemountstvincentintergenerationalprogramming2016.pdf/>

RCS (2017) Llesiant y Gweithlu <http://www.rcs-wales.co.uk/cy/project/lles-yn-y-gweithle/>

Recruitment and Retention Implementation Plan: final report

<http://www.skillsforcare.org.uk/Document-library/NMDS-SC,-workforce-intelligence-and-innovation/Research/Evaluation-Reports/RR--Eval-of-Implementation-Plan---FINAL.pdf>

Rhannu Bywydau a Mwy (2016) Canllaw Arfer Da Rhannu Cartref

<https://homeshareuk.org/hs-goodpracticeguide/homeshare-guides/>

Rhannu Bywydau a Mwy (2017) Adroddiad Cyflwr y Genedl 2017: Rhannu Bywydau Cymru

http://sharedlivesplus.org.uk/images/publications/Low_Res_Shared_Lives_Cymru_2017.pdf

SCIE (2014) Research Briefing: Reablement: a cost-effective route to better outcomes <https://www.scie.org.uk/publications/briefings/files/briefing36.pdf>

SCIE (2017) Case study: Bed based intermediate care: Somerset Care and Yeovil District Hospital <https://www.scie.org.uk/prevention/independence/intermediate-care/bed-based>

SCIE (2017) Intermediate Care

<https://www.scie.org.uk/prevention/independence/intermediate-care/>

Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (2015) y Farchnad Cartref Gofal yng Nghymru: Mapió'r Sector. IPC <http://ppi.w.org.uk/files/2015/11/The-Care-Home-Market-in-Wales-mapping-the-sector.pdf>

Skills for Care (2011) 'Capable, Confident, Skilled' Action plan - A workforce development strategy for people working, supporting and caring in adult social care. <http://www.skillsforcare.org.uk/Documents/About/What-we-do/Workforce-development-strategy-action-plan.pdf>

Skills for Care (2013) Evaluation of the adult social care workforce

Skills for Care (2014) Adult social care workforce Recruitment and retention strategy 2014 – 2017 <http://www.skillsforcare.org.uk/Document-library/Finding-and-keeping-workers/Recruitment-and-retention-strategy/recruitment-and-retention-strategy-2014--2017.pdf>

Skills for Care (2016) Workforce intelligence publication Individual employers and personal assistants July 2017 http://www.skillsforcare.org.uk/Documents/NMDS-SC-and-intelligence/NMDS-SC/Analysis-pages/Individual-employers-and-personal-assistants-2017.pdf?utm_source=Skills%20for%20Care&utm_medium=email&utm_campaign=8509092_Workforce%20Intelligence%20July%202017&utm_content=PAreport&dm_i=1E83,52DNO,Q573AQ,JDR5D,1

Social Enterprise UK <https://www.socialenterprise.org.uk/What-is-it-all-about>

Surrey Care Association (2017) Surrey Care Awards 2017 <http://www.surreycare.org.uk/news/surrey-care-awards-2017>

Tafalen Ffeithiau yr Adran Iechyd (2014) ar 'les staff gofal iechyd, darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau iechyd' https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/277591/Staff_wellbeing_service_delivery_and_health_outcomes.pdf

Tricuro (2017) Tricuro Services Website <http://www.tricuro.co.uk/>

The Health Foundation (2016) The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2019/20 and 2030/31 http://www.health.org.uk/sites/health/files/PathToSustainability_0.pdf

The Times (2017) Care-home nursery fills generation gap <https://www.thetimes.co.uk/article/care-home-nursery-fills-generation-gap-xjd329wf8>

University of Westminster (2017) Social Prescribing Network <https://www.westminster.ac.uk/patient-outcomes-in-health-research-group/projects/social-prescribing-network> Accessed 27.06.17

Wales Online (2013) Poor housing 'costs NHS in Wales £67m a year' 22.03.13 <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/poor-housing-costs-nhs-wales-1839361>

West Lindsey (2016) District Council Corporate Plan 2016-2020 <https://www.west-lindsey.gov.uk/my-council/how-the-council-works/key-plans-policies-and-strategies/corporate-plan/>

Which (2016). Which: Elderly Care. NHS Intermediate Care. <http://www.which.co.uk/elderly-care/financing-care/nhs-funding-for-care/354603-nhs-intermediate-care>

Ystadegau Cymru (2017) Oedi wrth drosglwyddo gofal: Rheswm dros yr oedi gan ALL <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Performance/Delayed-Transfers-of-Care/delayreason-by-localauthority>

Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio, Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid, ymateb Gofal Cymdeithasol Cymru

Gerry Evans, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth
Gofal Cymdeithasol Cymru
ceri.williams@socialcare.wales
029 2078 0543

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 2016 i ddiogelu, hyrwyddo a chynnal diogelwch a lles y cyhoedd yng Nghymru.

Ein nod yw:

- Rhoi hyder i'r cyhoedd am y gweithlu gofal cymdeithasol
- Arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol
- Datblygu'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol

Pwyntiau allweddol

- **Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu pwysau sylweddol yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio (paragraff 1)**
- **Mae pwysau ariannol wedi arwain at gyflogau isel yn y sector gofal cymdeithasol sydd wedi cael effaith sylweddol ar recriwtio (paragraffau 2-6)**

I archwilio patrymau yn y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl o oed pensiwn a chostau cyflenwi gofal preswyl a dibreswyl, gan gymryd i ystyriaeth rôl gofalwyr anffurfiol sy'n darparu gwasanaethau di-dâl i'r rhai sydd angen gofal

1. Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth (SCIE) i baratoi arolwg llenyddiaeth am ofal a chymorth yn y cartref. O ran y galw, canfu'r adroddiad fod gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn wynebu sialensiau sylweddol:

"Mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a llafur gofal yn tyfu yng nghydestun newidiadau demograffig sylweddol ac amllder ac amlygrwydd cyflyrau cymhleth, hirdymor. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio'n golygu bod dros chwarter y boblogaeth yng Nghymru yn 50 oed neu'n hŷn. Disgwylir i bobl dros 65 oed gynyddu o tua 600,000 yn 2013 i 900,000 yn 2037, ac mae'r nifer o bobl dros 85 oed yn tyfu ar raddfa hyd yn oed yn gyflymach (Age Cymru, 2015). Mae gan Gymru hefyd gyfran uwch o bobl 85 oed neu'n hŷn o'i gymharu â gweddill y DU (StatsCymru, 2012). Mae rhagolygon twf y boblogaeth a phroffil demograffig yn dangos bod yr ochr gyflenwi gofal cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw. Mae'r data'n dangos y bydd angen dros hanner miliwn o weithwyr gofal/gofalwyr cartref newydd ar draws y DU erbyn 2022 (Howat et al., 2015).¹"

I archwilio'r pwysau ariannol ar y system gofal cymdeithasol, fel cynnydd mewn cyflogau, cofrestru pensiwn awtomatig ac anawsterau recriwtio a chadw staff, gan

¹ Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref, arolwg llenyddiaeth, Sefydliad Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhagoriaeth (SCIE) ar gyfer Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru bellach), 2016

gynnwys yr effeithiau ariannol cysylltiedig sy'n deillio o'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

2. Mae pwysau ariannol wedi cael effaith uniongyrchol ar gyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae hynny yn ei dro wedi cael effaith sylweddol ar recriwtio a chadw staff. Mae telerau ac amodau'r gweithlu gofal yn rhwystr recriwtio sylweddol i swyddi sy'n gofyn am lefelau cynyddol o gymhlethdod a sgil a disgwyliadau i gyflawni mwy o dasgau sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'r sefyllfa hon yn gwaethygu ymhellach yn sgil y gwahaniaeth rhwng lefelau cyflogau'r GIG a gofal cymdeithasol.
3. Darparodd arolwg llenyddiaeth y SCIE ar ofal yn y cartref dystiolaeth bellach o effaith cyflogau isel ar recriwtio:

Yn gyffredinol, ystyrir bod swyddi rheng flaen yn y sector gofal yn swyddi o statws isel, swyddi â sgiliau isel. Adlewyrchir hyn yn y cyfraddau tâl, gyda'r rhan fwyaf o weithwyr yn cael eu talu ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'n agos ato. Mae cyflogau isel yn effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i recriwtio a chadw staff, yn enwedig yng nghyd-destun sectorau eraill, gan gynnwys manwerthu, sy'n gallu cynnig cyflogau uwch. Mae data diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Kirton, 2015) yn dangos bod diweithdra yng Nghymru, sef 6.4%, bellach yn debyg i'r lefelau a welwyd cyn y dirwasgiad a bod cyflogau wedi perfformio'n gymharol gryf yn y sector manwerthu yn hytrach na'r sectorau cyhoeddus a'r sectorau cysylltiedig sy'n fwy cyfyngedig. Mae'n risg y gallai cyfraddau tâl gofal cymdeithasol ddisgyn ymhellach y tu ôl i sectorau eraill sy'n cystadlu.²

4. Mae cyfyngiadau'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan weithwyr gofal am yr hyn y maent yn cael eu talu wedi'i gyrraedd neu wedi mynd ymhellach. Mae hyn yn cael ei weld gyda'r anawsterau wrth recriwtio a chadw gweithwyr gofal a rheolwyr gofal pan na fydd cyfleoedd eraill am waith yn dod â'r un pwysau ac yn cynnig mwy o fudd ariannol.
5. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyflogau gweithwyr gofal iechyd y GIG a gweithwyr gofal cymdeithasol yn debygol o fod yn rhwystr mawr i brosesau cydweithio rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd yn ogystal â'r awydd i ddarparu'n ddi-dor.
6. Rydym wedi comisiynu ymchwil³ sy'n dangos bod y gweithlu gofal yn y cartref wedi'u hysgogi'n bositif gan eu rôl wrth ddarparu gofal a chymorth, serch hynny, mae hefyd yn awgrymu y gallai telerau ac amodau fod yn rhwystr i bobl a allai fod yn dymuno gweithio yn y sector.
7. Nid yw union effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn hysbys ac nid oes gennym ddata cywir o gyfran gweithwyr yr UE yn

² Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref: arolwg llenyddiaeth, SCIE

³ 'Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal yn y cartref a'r graddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal', Cyngor Gofal Cymru / Llywodraeth Cymru 2016

y gweithlu gofal cymdeithasol. Yn Lloegr mae'n amrywio o 4 y cant yn y Gogledd Ddwyrain i 12 y cant yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr i 39 y cant yn Llundain⁴

I ystyried effaith ariannol polisïau cyfredol Llywodraeth Cymru - gan gynnwys deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol diweddar a diwygiadau i gyllid gofal cymdeithasol - ar awdurdodau lleol, darparwyr gofal a defnyddwyr gwasanaethau.

8. Mae yna dystiolaeth anecdotaidd eang bod pobl yn ddryslyd ynglŷn â thalu am ofal cymdeithasol pan fo gofal iechyd am ddim ar adeg ei ddarparu. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan mae gan bobl anghenion iechyd a gofal cymhleth iawn a/neu hirdymor, a allai hefyd fodloni trothwy gofal iechyd parhaus y GIG.
9. Rydym hefyd wedi derbyn tystiolaeth gan y sector bod cefnogaeth ataliol gan wasanaethau cymunedol a'r trydydd sector yn lleihau, sy'n deillio o gynghorau a chyrrff eraill yn ailgyfeirio adnoddau i swyddogaethau statudol a gwasanaethau critigol, oherwydd sialensiau'r gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf.

I ystyried anghenion gofal cymdeithasol y dyfodol a chostau cysylltiedig, gan gynnwys y cynnydd a ragwelir yng nghyfran poblogaeth Cymru o oed pensiwn

10. Mae demograffeg ein cymdeithas yn newid, gyda mwy o angen am gefnogaeth gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn gymdeithas sy'n heneiddio. Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu 292,000 (44 y cant) rhwng 2014 a 2039⁵. Rydym yn gweld llawer mwy o bobl yn eu blynyddoedd canol gydag anableddau sylweddol sy'n disgwyl byw bywydau cyflawn. Rydym yn gweld llawer mwy o blant ag anableddau neu anfanteision sylweddol sydd â disgwyliadau uchel o ran y gefnogaeth sy'n eu diogelu a'u helpu i gyflawni eu potensial llawn.
11. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu cynnydd gwirioneddol ac anghynaliadwy yn y galw er mwyn diwallu anghenion cymdeithas. Yn ôl y Sefydliad Iechyd, "rhagwelir y bydd y pwysau ar ofal cymdeithasol i oedolion yn codi'n gyflymach na'r GIG, sef 4.1% y flwyddyn ar gyfartaledd. Gyda nawdd yn annhebygol o godi ar yr un raddfa, mae yna risg go iawn y gallai lefel yr angen sydd heb ei ddiwallu ar gyfer gwasanaethau gofal godi yng Nghymru."⁶

⁴ Cyflwr y sector a'r gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, 2017, Sgiliau ar gyfer Gofal

⁵ Rhagolygon poblogaeth cenedlaethol, Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru, 2015

⁶ Y llwybr at gynaliadwyedd: Rhagolygon cyllido i'r GIG yng Nghymru tan 2019/20 a 2030/31, Y Sefydliad Iechyd, 2016



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ymateb Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

i

Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio

Ionawr 2018

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

03442 640 670

Am y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan. Mae hi'n gweithio i sicrhau bod y rheini sy'n fregus ac mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae hi'n sicrhau bod gan bob person hŷn lais sy'n cael ei glywed, a bod ganddynt ddewis a rheolaeth. Mae hi am sicrhau nad yw pobl hŷn yn teimlo'n ynysig nac yn teimlo bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod nhw'n cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.


Yr hyn mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd fwyaf pwysig iddyn nhw sy'n llywio gwaith y Comisiynydd ac mae eu llais wrth galon popeth mae hi'n ei wneud. Mae'r Comisiynydd yn gweithio i wneud Cymru yn lle da i heneiddio – nid dim ond i ambell un, ond i bawb.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog ymarfer da o ran y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Cyflwyniad

1. Mae Cymru'n genedl o bobl hŷn. Mewn poblogaeth o dros 3.1m, mae tua 800,000 o bobl dros 60 oed.¹ Mae hefyd yn genedl sydd â nifer sylweddol o bobl 'hŷn hŷn', h.y. rhai dros 85 oed. Mae rhannau o Gymru, er enghraifft y gogledd a chymoedd y de, ymhlith yr ardaloedd sydd â'r cyfraddau uchaf o bobl hŷn yn y DU.
2. Mae'r gyfran hon wedi bod yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y degawd diwethaf a disgwylir y bydd yn dal i gynyddu tan y 2030au, pan mae'r rhagamcanion demograffig yn nodi y bydd y cynnydd hwn yn dechrau arafu (Ffigur 1).² Bydd pobl yn byw'n hwy nag erioed o'r blaen, ond mae ymchwilyr o Brifysgol Newcastle wedi dangos y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl hŷn sy'n byw â mwy nag un clefyd.³ Nid yw'r cynnydd mewn disgwyliad oes 'iach' yn cadw i fyny â'r cynnydd mewn disgwyliad oes.



3. Er na ddylid cymryd yn ganiataol bod gwendid a dirywiad yn rhan anorfod o heneiddio, mae nifer o ddangosyddion ynglŷn â'r boblogaeth bresennol o bobl hŷn sy'n cael effaith ar eu defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Mae mwy na dau o bob tri pherson hŷn yn

byw â chyflwr iechyd hirdymor,⁴ mae gan hanner y boblogaeth hŷn anabledd sy'n cyfyngu ar eu bywydau, mae un o bob chwech yn byw mewn tloidi,⁵ mae dros 40,000 yn dioddef cam-drin domestig bob blwyddyn,⁶ mae dros 7,500 yn dioddef trosedd ariannol bob blwyddyn⁷, mae nifer sylweddol yn unig ac yn teimlo ar wahân,⁸ ac mae gan dros 45,000 ryw fath o dementia.⁹

4. Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn dal i fyw yn eu cartrefi eu hunain, ond wrth i amser fynd yn ei flaen bydd arnynt angen pecynnau cymorth cynyddol gymhleth sy'n cymryd llawer iawn o amser, ac sy'n cael eu darparu'n aml gan amrediad eang o asiantaethau. Yn aml iawn bydd ar bobl hŷn angen cymorth i wneud pethau fel cael bath, ymolchi, bwyta, gwisgo, cymryd meddyginiaeth a monitro eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol ehangach. Bydd arnynt hefyd angen cymorth i wneud yn siŵr eu bod yn dal i gael eu cynnwys yn ein cymdeithas ehangach, gan gynnwys cymorth symudedd i'w galluogi i ddal i fynd allan a chymorth cymdeithasol i gadw mewn cysylltiad â'u cymunedau.
5. Bydd rhai pobl hŷn yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain, ond byddant yn ddibynnol ar gymorth gan aelodau o'r teulu a gofalwyr di-dâl. Amcangyfrifir bod cyfraniad gofalwyr di-dâl yng Nghymru ar hyn o bryd yn £8bn y flwyddyn, sy'n fwy na'r cyfanswm sy'n cael ei wario bob blwyddyn ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.¹⁰ Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2015 yn rhagweld y byddai nifer y bobl sydd angen gofal yn fwy na'r nifer sydd 'ar gael' i ddarparu'r gofal erbyn 2017.¹¹ Yn ychwanegol at hyn, o'r chwe miliwn o bobl yn y DU sy'n gofalu am berthynas hŷn, mae mwy na dwy filiwn yn 65 oed neu hŷn eu hunain, ac mae dros 400,000 dros 80 oed.¹²
6. Yn y pen draw, bydd nifer fawr o bobl hŷn yn methu ag aros yn eu cartrefi eu hunain, ac yn symud i'r sector gofal ychwanegol neu i'r sector cartrefi gofal. Mae anghenion corfforol ac emosiynol pobl sy'n byw yn y sectorau hyn wedi cynyddu'n sylweddol ac yn gyflym yn y pum mlynedd diwethaf a byddant yn dal i gynyddu.
7. Dangosodd ymchwil fod y marchnadoedd gofal cartref a gofal preswyl yn fregus iawn ac nid oes gennym ddigon o wybodaeth eto i allu dweud faint o alw fydd am y gwasanaethau hyn. Mae diffygion

yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn arwain at oblygiadau o ran cost, er enghraifft drwy greu mwy o angen am ofal heb ei drefnu ac oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Maent hefyd yn tanseilio'r gwaith o sicrhau canlyniadau lles cyffredinol i unigolion.

8. Mae pobl hŷn hefyd yn defnyddio llawer iawn o wasanaethau gofal iechyd. Gofal sylfaenol yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer llawer o bobl hŷn ac mae tua 80% o'r cysylltiadau'n digwydd yn y sector hwn.¹³ Mae ar bobl hŷn eisiau i ofal gael ei ddarparu mor agos ag sy'n bosibl at eu cartrefi, am resymau yn ymwneud â hygyrchedd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau agwedd gyfannol at iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl hŷn. Mae'n amlwg, o'm hadroddiad am brofiadau pobl hŷn o gael mynediad at a defnyddio meddygon teulu yng Nghymru, bod pobl hŷn yn wynebu nifer o heriau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol a bod yr heriau hyn yn gostus i unigolion ac i'r pwrs cyhoeddus.¹⁴ Mae gofal heb ei drefnu hefyd yn fater o bwys i bobl hŷn, yn enwedig cael mynediad at wasanaethau cleifion mewnol drwy adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r rhain hefyd yn costio'n ddud i unigolion ac i'r pwrs cyhoeddus.
9. Mae'n bwysig iawn nad yw pobl hŷn yn cael eu gweld fel 'baich' ar wasanaethau cyhoeddus, nac fel achos llawer o'r heriau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae pobl hŷn yn ased pwysig, sy'n werth £1bn y flwyddyn i economi Cymru¹⁵ ac mae ganddynt hawl i ddisgwyl gofal a chymorth pan maent ei angen fwyaf. Bydd methiant i fuddsoddi'n ddigonol yn y math iawn o ofal yn cynyddu'r gost hirdymor i wasanaethau cyhoeddus yn y pen draw. Er bod gofal cymdeithasol yn gost mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae hefyd yn bwysig ein bod yn ei weld fel buddsoddiad yng nghyfalaf cymdeithasol Cymru.

Creu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynaliadwy yng Nghymru

10. Mae'n amlwg ers blynyddoedd y bydd y newidiadau demograffig sy'n digwydd yng Nghymru'n cael effaith sylweddol ar yr angen am gymorth gan wasanaethau cyhoeddus ac ar natur y cymorth. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw newidiadau yn y cyfnod pan oedd yr economi ehangach mewn cyflwr i allu cefnogi'r newid hirdymor roedd ei angen. Erbyn hyn rydym yn wynebu ansicrwydd economaidd aruthrol - cyfnod o gynni economaidd ac ansicrwydd ynglŷn ag effeithiau economaidd posibl Brexit - ac mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu llawer o wahanol heriau.
11. Mae'r methiant hwn i gynllunio'n effeithiol ar gyfer yr hirdymor wedi gadael y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol mewn sefyllfa lle maent yn wynebu mwy a mwy o alw, sy'n mynd yn fwy ac yn fwy cymhleth, a hefyd yn gorfod ailgynllunio eu modelau gofal yn llwyr. Yr un pryd, mae deddfwriaethau amrywiol wedi golygu bod ganddynt fwy o ddyletswyddau i'w cyflawni, ond dim llawer mwy o adnoddau i wneud hynny. Mae mwy o bwysau ar y sector statudol hefyd wedi golygu bod y trydydd sector wedi gorfod cyfrannu mwy tuag at wasanaethau ataliol a gwasanaethau wedi'u comisiynu er mai cyllidebau bach sydd ganddynt.
12. Er bod y ddadl yn cael ei chyflwyno'n aml yng nghyd-destun yr heriau a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus a'u cynaliadwyedd tymor hwy, mae'n bwysig ein bod yn ystyried pa effaith mae hyn yn ei gael ar fywydau pobl hŷn. Mae pobl hŷn sydd yn yr ysbyty'n ddiangen, sy'n symud i ofal preswyl yn gynharach nag y byddai angen iddynt, sy'n derbyn lefel o ofal sydd prin yn diwallu eu hanghenion neu sy'n methu â chael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth y mae arnynt ei angen. Mae hyn yn achosi llawer o ofid, yn gwaethygu unrhyw salwch ac yn cynyddu'r galw am gymorth, gan greu cylch dieflig o fwy o angen a dibyniaeth.
13. Mae'n rhy gynnar i ddweud pa effaith y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gael ar gynaliadwyedd hirdymor y sector gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, un o'r prif

agweddau fydd effeithiolrwydd yr Aseidiadau Poblogaeth yng nghyswllt cynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol, ac ymateb iddo. Nid yw'n glir eto a yw'r data sy'n sail i'r Aseidiadau Poblogaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac adroddiad cenedlaethol cysylltiedig Asesu'r Boblogaeth yn ddigon trylwyr i ddarparu asesiad digonol o'r newidiadau sydd eu hangen mewn gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

14. Yn fy marn i, mae nifer o feysydd allweddol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt er mwyn creu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy cynaliadwy yng Nghymru.

Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol er mwyn lleihau'r galw

15. Mae'n amlwg bod Cymru wedi canolbwyntio llawer ar yr agenda atal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae llawer o bobl hŷn yn dal i ddweud bod angen i argyfwng ddigwydd cyn y byddant yn cael y cymorth a'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen. Mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd iddynt gael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth y mae arnynt ei hangen er mwyn atal dirywiad yn eu hiechyd, ac mae'n amlwg i mi bod angen buddsoddiad sylweddol eto mewn ystod o wasanaethau ataliol.
16. Yn aml iawn mae'r diffiniad o 'wasanaethau ataliol' yn rhy gyfyng ac nid yw rôl hanfodol gwasanaethau cymunedol ehangach, sydd wedi dioddef toriadau ariannol sylweddol, yn cael ei chydabod yn ddigonol, yn rhannol oherwydd y pwysau ar gyllidebau mewn Awdurdodau Lleol. Mae gwasanaethau cymunedol, fel trafndiaeth, hamdden a thoiledau cyhoeddus, yn cyfrannu llawer tuag at gynnal iechyd, annibyniaeth a lles pobl hŷn, ac yn helpu i sicrhau nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau statudol costus. Mae ymchwil wedi canfod mai dim ond 10% o iechyd poblogaeth sy'n cael ei briodoli i ofal iechyd.¹⁶ Mae'n hollbwysig felly bod rhagor o arian yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau eraill sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol unigolion.
17. Mae'n amlwg hefyd nad ydym yn buddsoddi digon yn y trydydd sector, sy'n gallu bod yn hyblyg iawn wrth ddiwallu angen lleol ac yn hygyrch. Mae'r trydydd sector yn cael ei ddefnyddio fwy a mwy yn lle

gwasanaethau cymorth eilaidd, lle dylai fod yn canolbwyntio ar wasanaethau atal sylfaenol.

18. Mae llawer o drafodaethau wedi'u cynnal erbyn hyn ynglŷn â'r angen i unigolion dderbyn mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain. Mae'n hawdd iawn i system ddweud hyn pan mae mewn argyfwng, ond mae gweithredu'n fater arall. Mae'n amlwg bod angen gwella llythrennedd iechyd ledled Cymru, fel y cydnabuwyd gan yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol.¹⁷ Mae gan Gymru hefyd broblemau iechyd cyhoeddus sy'n bodoli ers amser maith, problemau rydym wedi bod yn araf iawn yn mynd i'r afael â hwy neu sydd wedi cael eu hanwybyddu ers gormod o amser, er enghraifft, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ymhlith pobl hŷn a diffyg buddsoddiad hirdymor mewn gwasanaethau fel iechyd meddwl, sy'n tanseilio gallu pobl hŷn i wneud y dewis iawn a chymryd y camau priodol.
19. Mae'n anodd buddsoddi llawer o arian yn y modelau a'r gwasanaethau ataliol hyn â'r setliad ariannol presennol, ond mae'n amlwg y byddwn yn talu'n ddrud iawn yn y dyfodol am beidio â buddsoddi. Rhaid cael gweledigaeth hirdymor sy'n cydnabod na fydd manteision lleihau'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'w gweld dros nos, ond sy'n derbyn bod rhaid lleihau'r galw er mwyn creu poblogaeth iachach a gwasanaethau mwy cynaliadwy.

Rheoli Gweithlu Effeithiol

20. Er gwaethaf degawdau o gynllunio gweithlu, nid oes gan y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ddigon o staff sydd â'r sgiliau priodol. O ganlyniad, mae lle i amau pa mor effeithiol yw cynllunio gweithlu tymor hwy Cymru yn y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.
21. Ar hyn o bryd, mae prinder staff dybryd yn y sector gofal cymdeithasol; mae hyn i'w weld fwyaf ymhlith staff gofal cartref, ond mae hefyd yn wir am staff nyrsio arbenigol yn y sector cartrefi gofal.¹⁸ Hyd yn oed pe bai arian ar gael i recriwtio llawer mwy o weithwyr, nid oes digon o bobl â'r sgiliau priodol ar gael. O ganlyniad i'r prinder staff, mae ysbytai'n methu â rhyddhau cleifion ac mae pobl agored i niwed yn derbyn lefelau annerbyniol o ofal.

22. Mae cyfraddau trosiant staff uchel yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig ym maes gofal cartref, yn ychwanegu at y broblem hon. Amcangyfrifwyd gan y Comisiwn Ansawdd Gofal bod trosiant staff gofal cartref yn 28% y flwyddyn,¹⁹ ac mae'n debygol iawn ei fod yn uwch mewn rhai rhannau o Gymru. Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at hyn, gan gynnwys cyflogau isel, telerau ac amodau gwael ac amcan rhy isel o werth gofal cymdeithasol fel proffesiwn.²⁰
23. Yn rhy aml, mae pobl agored i niwed yn derbyn gofal gan staff nad oes ganddynt y sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i sicrhau bod ansawdd eu gofal o'r safon y dylai fod. Rwy'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi sylw i hyn yn y sector gofal cymdeithasol drwy gofrestru gweithwyr, ond ni fydd ffrwyth ei llafur i'w weld am ddegawd ac nid yw'n mynd i'r afael â phroblem sylfaen sgiliau amrywiol yn y GIG.²¹
24. Rwy'n croesawu'r ymgyrchoedd recriwtio sydd wedi'u cynnal yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru er mwyn denu rhagor o feddygon teulu²² a nyrsys,²³ ond mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r nifer cynyddol o swyddi sydd heb eu llenwi yn y GIG yng Nghymru.²⁴ Yn ogystal â recriwtio staff newydd, mae'r GIG yng Nghymru yn cael anhawster cynyddol i gadw staff, oherwydd materion yn ymwneud â'r cap ar gyflogau sector cyhoeddus, morâl staff²⁵ a chynnydd mewn lefelau salwch.²⁶ Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at fwy o wariant ar staff asiantaeth costus i lenwi bylchau. Roedd gwariant Byrddau Iechyd Cymru ar staff asiantaeth 60% yn fwy yn 2015/16 nag yn 2014/15.²⁷
25. Mae'r rhain yn heriau mawr ynddynt eu hunain, ac er bod ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â Chymru ar ôl Brexit, mae'n amlwg bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi mynd yn fwy dibynnol ar weithwyr o'r UE ym mhob rhan o'r gweithlu.²⁸ Mae'n debyg hefyd y bydd mwy o gystadleuaeth ar draws sectorau a diwydiannau pe bai'r cyflenwad llafur yn lleihau. Heb gael rhyw syniad cyn gynted ag sy'n bosibl ynglŷn â pha mor gyfyngol fydd y system fudo ar ôl Brexit, o ran gwladolion o'r UE ac o wledydd eraill, bydd ein gallu i gynllunio gweithlu'n effeithiol yn cael ei danseilio eto. Rwy'n sylweddoli na fydd y Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo yn cyhoeddi ei argymhellion tan fis Medi 2018.²⁹

Pwysau ariannol

26. Gwelwyd cynnydd sydyn a sylweddol hefyd yn y galw ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd yn lefelau dwyster pobl sydd angen gofal a chymorth, a chymhlethdod y cymorth y mae arnynt ei angen. Ar ben hyn mae'r system wedi cael anhawster i ryddhau arian er mwyn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar, sy'n cael effaith fawr.
27. Mae pwysau o ran costau hefyd wedi cynyddu yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol o ganlyniad i gyflwyno cyflog byw³⁰ ac oherwydd bod prinder staff yn golygu bod rhaid defnyddio staff asiantaeth.³¹
28. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o sylw wedi cael ei roi i ansawdd gofal (gan gynnwys yr effaith y mae'n ei gael), ailgynllunio gwasanaethau a sicrhau gweithlu sylfaenol digonol, o ran niferoedd a sgiliau. Mae hyn yn cynnwys prosesau rheoleiddio ac arolygu newydd, cymarebau staff a gofynion hyfforddiant, a meini prawf a chanlyniadau ansawdd mwy penodol. Er bod y rhain i gyd yn ddatblygiadau hanfodol, maent yn arwain at bwysau yn gysylltiedig â chostau yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.
29. Mae costau cartrefi gofal i unigolion wedi cynyddu ar raddfa lawer mwy na'r twf yn incwm pobl hŷn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae costau blynyddol cyfartalog gofal preswyl yng Nghymru yn £30,940.³² Rhaid rhoi sylw i'r pwysau ariannol parhaus ar farchnad gofal cartref sydd eisoes yn fregus er mwyn osgoi rhagor o ddadsefydlogi. Problem arall sy'n codi yw'r gwahaniaeth rhwng ffioedd sy'n cael eu talu yn y sector cartrefi gofal gan breswylwyr Awdurdodau Lleol a phreswylwyr sy'n ariannu eu hunain. Mae'r costau uwch a godir ar breswylwyr sy'n ariannu eu hunain i bob pwrpas yn cael eu defnyddio i draws-sybsideiddio costau unigolion sy'n cael eu lleoli gan Awdurdodau Lleol.³³

Cefnogi Gofalwyr a Gwirfoddolwyr

30. Mae o leiaf 370,000 o ofalwyr yng Nghymru sy'n gofalu am eu partneriaid, cymdogion ac aelodau o'r teulu.³⁴ Rwy'n berffaith sicr y byddai ein gwasanaethau cyhoeddus yn fethdalwyr mewn

wythnosau oni bai am ein gofalwyr. Rhaid i ofalwyr gael eu gweld fel rhan annatod a gwerthfawr o'r system ofal.³⁵ Mae buddsoddi yn ein gofalwyr yn hanfodol er mwyn lleihau'r pwysau sydd ar wasanaethau, o ran y bobl sy'n derbyn gofal a hefyd oherwydd yr effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol y gofalwyr eu hunain.³⁶

31. Roedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2015 yn rhagweld y byddai nifer y bobl sydd angen gofal yn fwy na nifer y rhai sydd 'ar gael' i'w ddarparu erbyn 2017.³⁷ Bydd ffynonellau cymorth a datblygiadau eraill mewn technoleg newydd yn llenwi rhywfaint ar y bwlch, ond bydd angen cynnydd yn lefel y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
32. Er gwaethaf anhawster a chymhlethdod y gwaith y maent yn ei wneud, nid yw llawer o ofalwyr yn derbyn y lefel o gefnogaeth y mae arnynt ei hangen. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawl i bob gofalwr gael asesiad ac ystyriaeth ar gyfer pecyn cefnogaeth, ond mae llawer o ofalwyr nad ydynt yn cael cynnig asesiad ac mae gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar 'loteri cod post'.³⁸

Pwysigrwydd sefydlu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau

33. Mae ystod y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu darparu i bobl hŷn wedi bod yn eang erioed, ond dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae Cymru wedi dechrau canolbwyntio o ddifri ar sicrhau canlyniadau. Adlewyrchir hyn yn y dangosyddion canlyniadau sydd wedi'u sefydlu erbyn hyn ar gyfer y GIG yng Nghymru³⁹ a'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.⁴⁰
34. Dylai'r rhain, ynghyd â mwy o bwyslais ar integreiddio ac ymyrryd yn gynnar, leihau'r posibilrwydd o ofal a chymorth diangen yn y dyfodol a lleihau'r angen am ofal hirdymor a mwy costus.

Gwahanu iechyd a gofal cymdeithasol

35. Nid yw'r rhaniad strwythurol hanesyddol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, lle'r oeddent yn cael eu gweld fel gwasanaethau ar wahân, yn adlewyrchiad digonol mwyach o realiti bywydau llawer o

bobl hŷn, ac nid yw'n adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar y dull gweithredu integredig sy'n cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr gwasanaethau, ar lefel strategol ac ar lefel weithredol. Byddai integreiddio'n ffurfiol yn golygu costau sylweddol ac yn tarfu ar y system, ond mae'n amlwg bod llawer o waith yn cael ei wneud er mwyn edrych ar ffyrdd o sicrhau mwy o integreiddio. Mae hyn yn amrywio o strwythurau llywodraethu ar y cyd, a chynllunio ar y cyd, i nifer cynyddol o wasanaethau integredig ac, yn fwy diweddar, mwy o bwyslais ar ddod â chyllidebau at ei gilydd.

36. Gall integreiddio rhagor o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys tai, trafnidiaeth a'r trydydd sector, helpu rhagor o bobl hŷn i gadw'u hannibyniaeth a darparu gwell gofal a chefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion. Rhaid i'r integreiddio pellach fod yn seiliedig ar wella'r modd y darperir gofal a chefnogaeth, yn hytrach nag ailstrwythuro sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
37. Rwy'n cefnogi argymhelliad yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol y dylid creu 'un system ddi-dor i Gymru' a chwalu muriau rhwng sefydliadau er mwyn darparu gofal a chymorth mwy integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.⁴¹

Methiant i rannu ymarfer da a'i roi ar waith fesul cam

38. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf fel Comisiynydd, rwyf wedi gweld a chefnogi datblygiad nifer o wahanol wasanaethau arloesol ledled Cymru, sy'n aml yn cael eu darparu am gost isel ond sy'n cael effaith fawr ar unigolion. Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad yw ymarfer da'n cael ei ledaenu'n ddigonol ac mae hyn yn arwain at golli cyfleoedd i sicrhau gwell canlyniadau a lleihau cost gyffredinol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n amlwg hefyd nad oes dealltwriaeth lwyr eto o rôl y trydydd sector wrth ddatblygu'r gwasanaethau creadigol hyn, ac nad yw'n bartner llawn a chyfartal yn y sgysiau a'r newidiadau strategol sy'n digwydd. Yn ychwanegol at hyn, mae'n amlwg bod y pwyslais ar iechyd a gofal cymdeithasol yn rhy gyfyng a bod sectorau eraill, er enghraifft tai, yn dal ddim yn cael eu gweld fel rhan annatod o'r broses o fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol.

Defnyddio technoleg

39. Un o'r prif feysydd lle mae angen gwelliannau yn y dyfodol yw defnyddio technoleg ddigidol i helpu i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod rhai datblygiadau wedi'u gwneud yng Nghymru drwy Wasanaeth Gwybodeg y GIG, mae oedi wedi bod cyn gweithredu syniadau⁴² ac mae'r cynnydd wedi bod yn dameidiog. Mae angen dull gweithredu mwy systematig a pharhaol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i unigolion ac i'r pwrs cyhoeddus.⁴³
40. Gall cyflwyno rhagor o ddigido a thechnoleg i'r system iechyd a gofal cymdeithasol helpu i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau, sicrhau gwell canlyniadau i gleifion⁴⁴ a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau dynol ac ariannol.⁴⁵
41. Gellir defnyddio systemau fel Deallusrwydd Artiffisial mewn ffordd ataliol i helpu i ragfynegi pa unigolion neu grwpiau allai fod mewn perygl o gael salwch a galluogi'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i gymryd camau er mwyn atal problemau iechyd costus yn y dyfodol.⁴⁶ Gallai deallusrwydd artiffisial hefyd helpu i fynd i'r afael â'r arbedion effeithlonrwydd a'r bwlch cyllido a allai amlygu ei hun yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol drwy awtomeiddio tasgau, brysbennu cleifion ar gyfer y gwasanaethau mwyaf priodol a chaniatáu i bobl ofalu amdanynt eu hunain a rheoli eu meddyginiaethau eu hunain.⁴⁷
42. Gwelwyd ymdrech ar y cyd i rannu data cleifion yng Nghymru drwy Wasanaeth Gwybodeg y GIG, ac yn fwyaf arbennig drwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, sy'n rhannu data rhwng gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.⁴⁸ Gall rhannu data fel hyn a defnyddio diagnosteg a gynorthwyr gan ddeallusrwydd artiffisial ddarparu gwell canlyniadau i gleifion unigol, a fydd ddim ond yn gorfod dweud eu stori unwaith nawr, ac atal camddiagnosio a digwyddiadau niweidiol.⁴⁹ Canfu gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar gan y BBC fod Byrddau Iechyd yng Nghymru'n talu degau o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn mewn iawndal a ffioedd cyfreithiol am esgeulustod meddygol; pe bai modd

lleihau rhywfaint ar hyn drwy rannu data cleifion a diagnosteg a gynorthwyr, gellid defnyddio'r arian i drin cleifion yn lle hynny.⁵⁰

43. Rwy'n cydnabod y bydd llawer o heriau'n codi wrth geisio integreiddio technoleg yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig o safbwynt ariannol. Cydnabuwyd bod newid digidol yn aml yn digwydd yn arafach yn y sector gofal iechyd nag mewn sectorau eraill ac y byddai angen i unrhyw newidiadau roi sylw i faterion diwylliannol yn ogystal â materion gweithredol.⁵¹ Her arall yw ceisio argyhoeddi'r cyhoedd o fanteision technoleg a deallusrwydd artiffisial wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, nad ydynt yn cael llawer o gefnogaeth ar hyn o bryd.⁵² Mae risg hefyd y gallai technoleg gael ei gweld fel ateb sydyn, hawdd ac y gallai gael ei defnyddio mewn ffordd nad yw'n briodol i'r unigolyn. Ni ellir darparu pob gwasanaeth gofal a chefnogaeth â cymorth technoleg, ond bydd yn dod yn arf cynyddol bwysig yn y dyfodol.

44. Rwy'n falch fod yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi argymhell cyfres o gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd er mwyn ymgorffori technoleg ymhellach wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a byddwn yn annog y Pwyllgor i adolygu sut y gall yr argymhellion hyn leihau pwysau ariannol a gwella canlyniadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.⁵³

Ariannu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

45. Mae'n amlwg o'r uchod fod y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu mwy o heriau nag erioed, a'r rheiny i gyd yn codi yr un pryd. Mae'n amlwg hefyd bod llawer o waith yn cael ei wneud yn barod, er y dylai fod wedi'i gychwyn ddegawd yn ôl, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu, yr effaith y maent yn ei chael a'r ansawdd sy'n sail i'r ffordd y maent yn cael eu darparu.
46. Mae llawer o waith wedi'i wneud hefyd er mwyn lleihau aneffeithlonrwydd strwythurol, er bod rhywfaint o aneffeithlonrwydd i'w weld o hyd, yn cael ei adlewyrchu mewn mecanweithiau, fel y rhai sy'n sail i Ofal Iechyd Parhaus, cynllunio gweithlu gwael a buddsoddiad annigonol mewn gwasanaethau ataliol allweddol. Er bod rhai o'r rhain yn faterion strwythurol, mae nifer sylweddol yn gysylltiedig â methiant y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i ryddhau arian ymlaen llaw i fuddsoddi mewn modelau newydd. Nid yw'n bosibl i mi ddweud beth yn union yw maint yr aneffeithlonrwydd strwythurol, nac ychwaith a ellid cymryd rhagor o gamau i ryddhau arian er mwyn buddsoddi mewn meysydd sy'n cael effaith fawr.
47. Fodd bynnag, ar sail fy ngwaith yn y chwe blynedd diwethaf, rwy'n credu mai'r broblem sylfaenol yw'r ffaith nad oes digon o adnoddau ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd uchod ac nad oes digon o gydnabyddiaeth fod gwariant mewn sectorau allweddol eraill yn cael effaith uniongyrchol ar allu pobl i gadw'n iach, yn egnïol ac yn annibynnol. Nid arian yw'r broblem bob tro, ond mae adeg yn dod pan mae lefel gyffredinol y cyllid yn bwysig ac yn dod yn uniongyrchol gysylltiedig ag ansawdd y gofal y mae pobl yn ei dderbyn.
48. Mae sut i dalu am ofal wedi cael llawer iawn o sylw gan wleidyddion, mewn polisïau a chan y cyfryngau yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, ond mae'n broblem sy'n dal heb ei datrys ac mae'n gwaethygu bob blwyddyn. Erbyn hyn mae mwy na hanner cyllideb adnoddau

Llywodraeth Cymru yn wariant ar wasanaethau craidd y GIG, o'i gymharu â 39.1% yn 2009/10.⁵⁴

49. Er bod cynigion wedi'u gwneud er mwyn mynd i'r afael â phroblem talu am ofal cymdeithasol,⁵⁵ ychydig iawn o gynnydd rydym wedi'i weld ar lefel genedlaethol, gan fod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yn rhaid iddi aros i weld effaith a chanlyniad rhai o benderfyniadau'r DU cyn y gall symud yn ei blaen. Rhaid gofyn am faint y gall y sefyllfa hon barhau.
50. Mae'n amlwg y bydd angen llawer rhagor o adnoddau er mwyn cynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, sy'n darparu ar gyfer galw cynyddol, yn y dyfodol.⁵⁶ Gallai'r GIG yng Nghymru fod yn wynebu 'bwlch cyllido' o tua £700m erbyn 2019-20, sy'n cyfateb i 10% o'i gyllideb flynyddol.⁵⁷ Mae'r Sefydliad Iechyd wedi amcangyfrif bod angen i wariant ar y GIG yng Nghymru gynyddu 3.2% y flwyddyn mewn termau real er mwyn dal i fyny â phwysau sy'n gysylltiedig â chostau. Gellir cyflawni'r cynnydd hwn mewn gwariant drwy gyfuniad o gynnydd mewn cyllid ac arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, er 1997 mae'r GIG wedi sicrhau cynnydd cyfartalog o 1% y flwyddyn mewn arbedion effeithlonrwydd, sy'n golygu y byddai angen i'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn y gyllideb ddod drwy fwy o gyllid.⁵⁸
51. Mae'r rhagolygon ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru hyd yn oed yn fwy pryderus, a rhagwelir y bydd y pwysau sy'n gysylltiedig â chostau'n cynyddu 4.1% y flwyddyn. Os na fydd y cyllid yn dal i fyny â'r cynnydd hwn yn y galw, bydd llawer o bobl yn cael eu gadael heb y gofal a'r cymorth y mae arnynt ei angen.⁵⁹
52. Bydd perfformiad yr economi ehangach yn un o'r dylanwadau pwysicaf ar gyllid i'r GIG a gofal cymdeithasol. Nid yw effeithiau economaidd posibl penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn glir eto.⁶⁰
53. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain hefyd wedi ystyried sut y mae Fformiwla Barnett yn effeithio ar swm y cyllid y mae'r GIG yng Nghymru'n ei dderbyn ac mae wedi amcangyfrif y gallai cyfanswm y tanwariant ar y GIG yng Nghymru fod yn gymaint â £500m y flwyddyn.⁶¹ Efallai fod rhywfaint o'r swm hwn yn cael ei adennill drwy'r Fframwaith Ariannol sy'n cael ei gyd-drafod gan lywodraethau

Cymru a'r DU,⁶² ond mae Fformiwla Barnett yn dal yn seiliedig ar boblogaeth gymharol, yn hytrach nag angen.

54. Os na ellir gwarantu cyllid i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol drwy dwf economaidd, arbedion effeithlonrwydd neu ragor o ddiwygiadau i fformiwla Barnett, rhaid cael trafodaeth ehangach ynglŷn â ffyrdd eraill o sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael. Mae gan bawb ei syniadau ynglŷn â sut y gellid gwneud hyn ond yn fy marn i dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'i phwerau newydd dros drethiant i gyflwyno ardoll wedi'i neilltuo a fyddai'n cefnogi'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol.
55. Dylid edrych yn fanylach ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Treth Gofal Cymdeithasol ac ystyried natur y dreth.⁶³ Ni ddylai Cymru ddilyn esiampl Llywodraeth y DU a chaniatáu i Awdurdodau Lleol gyflwyno 'ardoll gofal cymdeithasol' gan fod cynnydd mewn treth gyngor o fudd i Awdurdodau Lleol mwy cyfoethog, tra mae'r angen yn fwy yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru gan fod ganddynt lai o bobl sy'n gallu fforddio talu am eu gofal eu hunain.⁶⁴
56. Byddwn yn cynnig edrych ar y posibilrwydd o dreth wedi'i neilltuo ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, tebyg i ddiben gwreiddiol Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Er bod rhai anfanteision yn gysylltiedig â neilltuo cyllid, gan gynnwys llai o gynnyrch ar adegau o ddirwasgiad pan fyddai angen yr arian fwyaf o bosibl, mae'n cynnig ffordd o wneud gwariant yn fwy tryloyw a gwneud cynnydd mewn trethi yn fwy derbyniol i'r cyhoedd.⁶⁵ Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Gynaliadwyedd Hirdymor y GIG wedi darparu trosolwg manwl o'r ddadl o blaid ac yn erbyn neilltuo cyllid.⁶⁶
57. Dylid sicrhau cydberthynas agos rhwng treth iechyd a gofal cymdeithasol a chanlyniadau clir a phendant a'r ansawdd y gall pobl ei ddisgwyl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai'r dull gweithredu adeiladu ar un o egwyddorion sylfaenol y GIG, sy'n gweld pobl yn talu yn ôl gallu ac yn cymryd yn ôl angen.⁶⁷ Mae cefnogaeth gref iawn ledled Cymru i GIG sy'n cael ei ariannu gan drethi, sy'n ddi-dâl yn y man defnyddio ac sy'n darparu gofal cynhwysfawr i bob dinesydd.⁶⁸

58. Gellid argyhoeddi'r cyhoedd bod angen cynyddu cyfraniadau drwy drethi i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. O ystyried y dewis rhwng lefelau gofal is eto a chynnydd mewn trethi i ariannu'r GIG, canfu arolwg Ipsos MORI yn 2017 y byddai 64% o'r cyhoedd yn cefnogi hyn.⁶⁹
59. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ariannu mewn amryw o wahanol ffyrdd ar draws y byd. Mae adroddiad i Lywodraeth Cymru gan LE Wales ar ddyfodol talu am ofal cymdeithasol yn cynnwys trosolwg manwl o'r systemau cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yng ngwledydd eraill y DU, Ffrainc, yr Almaen, Sweden, Japan ac Awstralia. Mae edrych ar enghreifftiau mewn gwledydd eraill yn gallu bod yn fanteisiol, ond mae'n hollbwysig bod y system sy'n cael ei mabwysiadu yng Nghymru yn cael ei chynllunio'n benodol ar gyfer anghenion pobl Cymru.⁷⁰

Casgliad

60. Mae'n amlwg bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru'n wynebu llawer o heriau ac y bydd y gwasanaethau sydd ar gael a'u hansawdd yn dirywio os na fydd rhywbeth yn cael ei wneud. Rhaid i Lywodraeth Cymru dalu sylw i gyngor yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chyflwyno cynllun hirdymor ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
61. Fel rhan o'r broses hon, rhaid cael trafodaeth drylwyr ynglŷn â sut i greu lefel gynaliadwy o gyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn, gan gynnwys y posibilrwydd o ardoll wedi'i neilltuo.
62. Rwy'n edrych ymlaen i ddilyn Ymchwiliad y Pwyllgor a dal i gyfrannu tuag at y ddadl ynglŷn â dyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Llyfryddiaeth

- ¹ StatsCymru (2017) 'Amcanestyniadau poblogaeth lefel genedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU'; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2DPMaci>
- ² StatsCymru (2016) 'Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn'; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2Es8vxS>
- ³ Campbell, D. (2018) 'We'll live longer but suffer more ill-health by 2035, says study' The Guardian; 23 Ionawr 2018; <http://bit.ly/2DEMFcc>
- ⁴ Ystadegau ar gyfer Cymru (2017) 'National Survey for Wales 2016-17: Illnesses'; Darllenwyd 24/01/2018; <http://bit.ly/2nmgaGs>
- ⁵ Age UK (2017) 'Later Life in the United Kingdom' t.17; Darllenwyd: 17/01/18; <http://bit.ly/2D0ecWg>
- ⁶ Day, L. (2015) 'More than 40,000 older people in Wales are victims of abuse and neglect every year' Wales Online; Darllenwyd: 18/01/18; <http://bit.ly/2n7QInf>
- ⁷ Davidson, S., Rossall, P. a Hart, S. (2015) 'Financial Abuse Evidence Review' t.5; {1.2% o boblogaeth 65+ Cymru o 634,637 (gweler cyfeirnod 1)}
- ⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) 'Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd' Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; t.9
- ⁹ Cymdeithas Alzheimer (2015) 'Demography'; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2p5lrk1>
- ¹⁰ Gofalwyr Cymru (2015) 'Value of unpaid care in Wales reaches over £8 billion a year'; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2DXGC2D>
- ¹¹ Pickard, L. (2015) 'A growing care gap? The supply of unpaid care for older people by their adult children in England to 2032' Ageing and Society 35(1): 96-123
- ¹² Age UK (2016) 'Invisible army of oldest carers saving state billions'; Darllenwyd: 17/01/18; <http://bit.ly/2DCK4zv>
- ¹³ Llywodraeth Cymru (2014) 'Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018' t.4

-
- ¹⁴ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2017) 'Gwasanaethau Meddygon Teulu yng Nghymru: Safbwynt Pobl Hŷn'
- ¹⁵ WRVS (2011) 'Gold Age Pensioners: Valuing the Socio-economic Contribution of Older People in the UK: Welsh Summary'
- ¹⁶ Health Foundation (2017) 'Health care only accounts for 10% of a population's health' Darllenwyd: 23/01/18; <http://bit.ly/2tIW6Je>
- ¹⁷ Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) 'Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru' t.17
- ¹⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2016) 'Cynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad' Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2FvP9Hb>
- ¹⁹ The King's Fund (2017) 'Brexit: the implications for health and social care'; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2BrmJQ9>
- ²⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2016) 'Cynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad' Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
- ²¹ Drakeford, M. (2015) 'Datganiad Ysgrifenedig – Cofrestru Gweithwyr Gofal Cymdeithasol' Llywodraeth Cymru; Darllenwyd: 17/01/18; <http://bit.ly/2DOoEMB>
- ²² Llywodraeth Cymru (2017) 'Ymgyrch lwyddiannus i recriwtio meddygon teulu i barhau – Vaughan Gething'; Darllenwyd 24/01/18; <http://bit.ly/2rSRMRn>
- ²³ Clarke, O. (2017) 'Nurse recruitment campaign under way in Wales' BBC News; Darllenwyd: 24/01/18; <http://bbc.in/2r6mkO2>
- ²⁴ Hayward, W. (2017) 'The scale of the exodus of doctors and nurses from Wales' NHS revealed' Wales Online; Darllenwyd 24/01/18; <http://bit.ly/2DZlybX>
- ²⁵ Watt, T. a Roberts, A. (2016) 'The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales in 2019/20 and 2030/31' Y Sefydliad Iechyd; t.31
- ²⁶ Confederasiwn GIG Cymru (2017) 'Our Greatest Asset: The NHS Wales Workforce'

²⁷ Watt, T. a Roberts, A. (2016) 'The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales in 2019/20 and 2030/31' Y Sefydliad Iechyd; t.31

²⁸ The King's Fund (2017) 'Brexit: the implications for health and social care'; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2BrmJQ9>

²⁹ Ibid.

³⁰ Care Appointments (2016) 'Social Care Providers Issue Living Wage Warning to Welsh Government'; Darllenwyd 18/01/18; <http://bit.ly/2E4w9jG>

³¹ Smith, M (2016) 'The Welsh NHS is spending £2.5m on agency staff every week' Wales Online; Darllenwyd: 18/01/18; <http://bit.ly/2rTO5Lo>

³² Brignall, M. (2017) 'Older people face paying £34,000 a year to go into a care home' The Guardian; Darllenwyd 19/01/18; <http://bit.ly/2DAVLaR>

³³ Competition & Markets Authority (2017) 'Care homes market study: Final report' t.42

³⁴ Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru (2015) 'Caring Wales: A manifesto to promote, protect and recognise all carers' t.2

³⁵ Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) 'Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru' t.22

³⁶ Holzhausen, E. (2017) 'Caring now and in the future' yn Naylor, E. a Jones, E. (2017) 'Securing the future: planning health and care for every generation' Future Care Capital; t.37

³⁷ Pickard, L. (2015) 'A growing care gap? The supply of unpaid care for older people by their adult children in England to 2032' Ageing and Society 35(1): 96-123

³⁸ Gofalwyr Cymru (2017) 'Track the Act: Briefing 2' <http://bit.ly/2GaxSV8>

³⁹ Llywodraeth Cymru (2016) 'Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru 2016-2017'

⁴⁰ Llywodraeth Cymru (2016) 'Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth'

-
- ⁴¹ Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) 'Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru' t.10
- ⁴² Swyddfa Archwilio Cymru (2018) 'Systemau gwybodeg yn GIG Cymru' t.11
- ⁴³ Trickey, M. (2016) 'Efficiency and the NHS Wales Funding Gap: How far could improving efficiency and productivity help close the funding gap in NHS Wales?' Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru; t.21
- ⁴⁴ Harwich, E. a Laycock, K. (2018) 'Thinking on its own: AI in the NHS' Reform; t.21
- ⁴⁵ Swyddfa Archwilio Cymru (2018) 'Systemau gwybodeg yn GIG Cymru' t.11
- ⁴⁶ Harwich, E. a Laycock, K. (2018) 'Thinking on its own: AI in the NHS' Reform; t.6
- ⁴⁷ Ibid.
- ⁴⁸ Gwasanaeth Gwybodeg y GIG (2017) 'System Wybodaeth Gofal Cymunedol'; Darllenwyd 16/01/18; <http://bit.ly/2Gzxm3s>
- ⁴⁹ Müller, B. (2017) 'Technology Futures' in Naylor, E. a Jones, E. (2017) 'Securing the future: planning health and care for every generation' Future Care Capital; t.28
- ⁵⁰ BBC News (2018) 'Welsh NHS trusts paying millions of pounds for medical errors'; Darllenwyd 16/01/18; <http://bbc.in/2Grtrp3>
- ⁵¹ Trickey, M. (2016) 'Efficiency and the NHS Wales Funding Gap: How far could improving efficiency and productivity help close the funding gap in NHS Wales?' Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru; tt.21-22
- ⁵² Harwich, E. a Laycock, K. (2018) 'Thinking on its own: AI in the NHS' Reform; t.24
- ⁵³ Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018) 'Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru' tt. 26-28
- ⁵⁴ Luchinskaya, D., Ogle, J. a Trickey, M. (2017) 'A delicate balance? Health and Social Care spending in Wales' Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025; t.2

-
- ⁵⁵ Talu am Ofal yng Nghymru: Grŵp Cyngori'r Rhanddeiliaid (2013) 'Report of the Stakeholder Advisory Group on the Dilnot Commission's Report'
- ⁵⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) 'Briff Ymchwil: Talu am ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru: Dadl a Diwygio' t.1
- ⁵⁷ Trickey, M. (2016) 'Route map for a sustainable NHS for Wales' Click on Wales; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2DM4Sp6>
- ⁵⁸ Watt, T. a Roberts, A. (2016) 'The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales in 2019/20 and 2030/31' Y Sefydliad Iechyd; t.2
- ⁵⁹ Ibid. t.3
- ⁶⁰ The King's Fund (2017) 'Brexit: the implications for health and social care'; Darllenwyd 15/01/18; <http://bit.ly/2BrmJQ9>
- ⁶¹ BMA Cymru (2017) 'Base funding on need not number' Darllenwyd: 15/01/18; <http://bit.ly/2n7GK5Z>
- ⁶² Llywodraeth Cymru (2017) 'Fframwaith Ariannol'; Darllenwyd: 15/01/18; <http://bit.ly/2n7aSOI>
- ⁶³ Llywodraeth Cymru (2017) 'Datblygu trethi newydd yng Nghymru'; Darllenwyd: 18/01/18; <http://bit.ly/2EspBeL>
- ⁶⁴ Sylvester, R. (2017) 'Social care crisis needs a Japanese solution' The Times; Darllenwyd: 15/01/18; <http://bit.ly/2rM90ji>
- ⁶⁵ Giles, C (2018) 'Should there be a ringfenced tax to fund the NHS?' Financial Times; Darllenwyd: 15/01/18;
- ⁶⁶ Tŷ'r Arglwyddi (2017) 'The Long-term Sustainability of the NHS and Adult Social Care' Y Pwyllgor Dethol ar Gynaliadwyedd Hirdymor y GIG; tt. 118-119
- ⁶⁷ Delamothe, T. (2008) 'Founding principles' British Medical Journal (336) t.1216; <http://bit.ly/2n5Ezjy>
- ⁶⁸ Gershlick, B., Charlesworth, A. a Taylor, E. (2015) 'Public attitudes to the NHS: An analysis of responses to questions in the British Social Attitudes Survey' Y Sefydliad Iechyd; t12.

⁶⁹ Y Sefydliad Iechyd (2017) 'What does the public think about NHS and social care services?'

⁷⁰ LE Wales (2014) 'Future of Paying for Social Care in Wales: First report to the Welsh Government' tt.58-80

